CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

HC 544
SG/2020/94

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 34 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 35 (5) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

I'w argraffu ar 21 Gorffennaf 2020 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin
Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidog Yr Alban ar 21 Gorffennaf 2020
Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 21 Gorffennaf 2020
Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 28 Medi 2020

HC 544
SG/2020/94

**© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2020**
Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Mezzanine Floor
International House
1 St Katharine's Way
Llundain E1W 1UN

ISBN 978-1-5286-2054-3

CCS0620776428 07/20

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu** **2**
Adroddiad perfformiad 2
Adroddiad atebolrwydd 18
Y datganiadau ariannol 44
**Datganiad o incwm cynhwysfawr net** **44**
**Datganiad o newidiadau mewn ecwiti** **45**
**Datganiad o'r sefyllfa ariannol** **46**
**Datganiad o lifoedd arian parod** **47**
**Cysoniad y llifoedd arian parod net â'r symudiad mewn cyllid net** **47**
**Nodiadau i'r cyfrifon** **48**
**Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017** **64**
**Cyfarwyddiadau polisi** **65**
Lloegr 73
Yr Alban 74
Cymru 75
**Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn** **76**

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

Diben – diben yr adroddiad perfformiad yw darparu gwybodaeth am y Bwrdd Ymddiriedolwyr, prif amcanion a strategaethau'r sefydliad a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adran drosolwg yn darparu gwybodaeth i'r defnyddiwr er mwyn deall y Bwrdd, ei ddiben, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

**Ein perfformiad yn 2019–20:**
**– datganiad gan y Prif Weithredwr**

Roedd 2019–20 yn flwyddyn o newid a dathlu arwyddocaol ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Bu i ni roi ystyriaeth i'n strategaeth gorfforaethol yn ystod y flwyddyn a mireinio hon i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill o'r strategaeth. Rydym yn parhau â'n rôl strategol o ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau i dreftadaeth y DU a byddwn yn gwneud hyn trwy:

- fwyafu effaith a gwerth treftadaeth fel grym pwerus a phositif ar fywydau pobl a lleoedd ar draws y DU a'n hamgylchedd
- sicrhau bod ein buddsoddiadau, gweithrediadau a phartneriaethau'n symbylu gweithredu i daclo'r argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol
- sicrhau bod treftadaeth yn cynnwys ystod ehangach o bobl a'i bod yn fan diogel i ymchwilio i'n gorffennol a chreu dealltwriaeth well o'r presennol a'r dyfodol
- bydd treftadaeth ar draws y DU mewn sefyllfa gref i achub ar gyfleoedd ac ymateb i heriau trwy fod yn fentrus, edrych tua'r dyfodol ac yn barod i addasu
- bydd ein pobl yn y Gronfa'n cael eu cefnogi a'u grymuso i gyflwyno'r newidiadau rydym eisiau eu gweld

Dechreuom y flwyddyn ym mis Ebrill gyda'n Fframwaith Ariannu Strategol newydd hefyd – rhaglen fuddsoddi pum mlynedd uchelgeisiol o £1.2biliwn i gefnogi a gwella treftadaeth ar hyd a lled y DU.

Bu i hyn gynnwys y flwyddyn gyntaf o ddatganoli arwyddocaol o ran cyllidebau buddsoddi a gwneud penderfyniadau i bwyllgorau Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ochr yn ochr â'r pwyllgorau ar gyfer ein tair ardal o Loegr.

Mae gan y fframwaith y blaenoriaethau o gefnogi buddsoddi cynyddol mewn treftadaeth naturiol, cyfranogiad cymunedol mewn treftadaeth a sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol i bawb beth bynnag eu cefndir. I gyd-fynd â hyn mae portffolio symlach o dair rhaglen agored (ar gael i bob ymgeisydd) sy'n cwmpasu grantiau rhwng £3,000 a £5miliwn.

Mae'r fframwaith a'i flaenoriaethau, a'r gefnogaeth dros y portffolio symlach newydd, wedi cael eu croesawu.

Ochr yn ochr â'r portffolio symlach newydd hwn, rydym wedi creu cyfres o ymgyrchoedd i hybu meysydd treftadaeth penodol ar draws y cylch buddsoddi pum mlynedd. Yn 2019–20 fe lansiom ein hymgyrch cydnerthedd yn llwyddiannus i helpu adeiladu capasiti, galluedd a chynaladwyedd y sefydliad. Fe lansiom ein hymgyrch ddigidol hefyd, gan gynnwys cyfres o grantiau digidol, offer ar-lein i gefnogi treftadaeth ddigidol a buddsoddi mewn sgiliau a galluoedd digidol ar draws y sector. Mae'r ymgyrch hon yn helpu i ennyn diddordeb trawstoriad eang o sefydliadau a rhanddeiliaid treftadaeth yn ogystal â bodloni rhwymedigaethau ein Hadolygiad wedi'i Deilwra o 2017. Rydym yn cynllunio ymgyrchoedd pellach ar gyfer 2020–21 a'r tu hwnt a byddwn yn adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrchoedd cychwynnol hyn.

Gwelodd y flwyddyn ariannol 2019–20 gamau cychwynnol ein Grantiau Treftadaeth Gorwelion newydd (grantiau dros £5miliwn) a anelir at fuddsoddiadau trawsnewidiol arwyddocaol mewn treftadaeth. Rydym yn disgwyl gwneud buddsoddiadau o tua £50miliwn yn y dyfarniadau hyn yn 2020–21.

Gwelodd y flwyddyn y buddsoddiadau ac incwm cychwynnol o'n strategaeth gorfforaethol ehangach gyda buddsoddiad o £2miliwn yn y Gronfa Effaith Celf a Diwylliant, ochr yn ochr â chyllid gan Gyngor y Celfyddydau a sector preifat i greu cronfa effaith gymdeithasol ar draws y sectorau diwylliannol, celf a threftadaeth ehangach.

Rydym wedi parhau i arloesi modelau ariannu a buddsoddi newydd. Mae ein menter Future Parks Accelerator yn gweithio ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chyrff partner eraill ac yn dangos yr awydd a'r angen am y dull arloesol hwn.

Ym mis Tachwedd 2019, fe ddathlom ben-blwydd Y Loteri Genedlaethol yn 25 oed. Ochr yn ochr â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, ein hadran noddi, yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), fe gynhaliom gyfres o ddigwyddiadau ar draws y DU i ddathlu buddsoddiad llwyddiannus mewn treftadaeth dros y chwarter canrif honno a sut mae'r buddsoddiad hwnnw wedi trawsnewid treftadaeth y genedl a darparu miloedd o swyddi, miliynau o ymwelwyr a digwyddiadau cynnwys y gymuned di-rif dros y cyfnod hwnnw. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata amlgyfrwng lwyddiannus i ddathlu'r pen-blwydd yn 25 oed hefyd a fu'n uchafbwynt i ymarfer cysylltiadau cyhoeddus cynhwysfawr ar draws y teulu Loteri Genedlaethol cyfan. Cynhyrchodd yr ymgyrch fwy na 3,000 o ddarnau o sylw yn y cyfryngau gan gynnwys teledu a radio y BBC, rhaglenni ITV a sylw helaeth mewn cyfryngau printiedig.

Roedd yr ystadegau cyfryngau cymdeithasol yn drawiadol hefyd, gyda #NationalLottery25 yn cyflawni mwy na 160 miliwn o argraffau ac yn trendio pedair gwaith ar Twitter. Bu i'r dathliadau gynnwys yr ymgyrch #DiolchiChi, gyda 650 o gynigion mynediad am ddim neu drîts eraill ar gyfer deiliaid tocynnau Loteri Genedlaethol mewn atyniadau a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn, fe barhaom i ddatblygu a gwella ein gwefan, arweiniad a deunyddiau ar-lein ynghyd ag adborth a mewnwelediad cwsmeriaid a dargedir.

Gwelodd y flwyddyn newid mewnol arwyddocaol o fewn y Gronfa hefyd.

Bu i ni gyfnerthu'r dyluniad sefydliadol a grëwyd yn 2018–19. Aeth hwn yn fyw ym mis Ebrill 2019, ac mae'n darparu'r dyluniad y mae ei angen ar y Gronfa i fodloni ein strategaeth ac amcanion dros y blynyddoedd i ddod. Ochr yn ochr â'r gwaith dylunio, rydym wedi bod yn datblygu diwylliant newydd sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd diwygiedig, sef Cynhwysol, Uchelgeisiol, Cydweithredol a Dibynadwy.

Rydym bellach yn trosi'r gwerthoedd hyn i fframwaith ymddygiadol ar gyfer 2020–21 a fydd yn helpu i siapio recriwtio, rheoli perfformiad ac ymgysylltu mewnol ar draws y Gronfa.

I gyd-fynd â'r gwaith diwylliant hwn rydym wedi symud i swyddfeydd modern gyda gofodau gwaith cynllun agored, seiliedig ar weithgareddau a gefnogir gan dechnoleg, llwyfannau TG a thechnoleg symudol newydd. Mae hyn wedi galluogi ymagwedd lawer mwy hyblyg at batrymau ac arddulliau gweithio sy'n gweddi i anghenion ein busnesau/cwsmeriaid a dymuniadau staff.

Parhaodd ein gwaith dichonoldeb a datblygu ar ein system fuddsoddi newydd trwy gydol 2019–20. Mae'n bwysig bod hyn wedi cael ei gyrru gan anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'i brofi'n gynhwysfawr yn erbyn y meini prawf hynny. Rydym wedi dechrau profi systemau prototeip gyda golwg ar roi'r system newydd ar waith yn 2020–21.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'n holl staff sy'n gweithio ar grantiau'r Loteri Genedlaethol. Mae eu cyfanrwydd a phroffesiynoldeb yn eu gwaith yn nodedig, maent yn wirioneddol ymroddedig i waith Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn darparu gwasanaeth eithriadol ac uchel ei werth i gymunedau a threftadaeth y genedl. Rhwng mis Rhagfyr 2019 a 30 Ebrill 2020, bûm yn absennol o'r Gronfa o ganlyniad i salwch difrifol. Mae'n deyrnged i waith caled y Tîm Gweithredol a phroffesiynoldeb ei staff bod y sefydliad wedi gweithredu heb unrhyw ddirywiad yn ei gefnogaeth i'r sector yn ystod fy absenoldeb. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Bwrdd, y Pwyllgorau a'r staff am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i Syr Peter Luff a ymddiswyddodd fel ein Cadeirydd ym mis Rhagfyr 2019. Byddwn yn gweld eisiau ei frwdfrydedd dros dreftadaeth, ei arweinyddiaeth ysbrydoliaethus a'i hiwmor da tawel. Rydym yn ddiolchgar iawn i René Olivieri sydd wedi camu i'r adwy gyda galluedd sylweddol fel Cadeirydd dros dro cyn i ni wneud penodiad parhaol.

**Ein diben a gweithgareddau**

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) wedi'i breinio mewn a'i gweinyddu gan gorff corfforedig sydd wedi'i adwaen fel Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cadeirydd ac uchafswm o 14 o aelodau eraill sydd wedi'u penodi gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (Deddf 1980) mewn olyniaeth i'r Gronfa Tir Genedlaethol, fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau dros y Deyrnas Unedig (DU). Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (Deddf 1993), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 (Deddf 1997) a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (Deddf 1998).

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a ddyrannir i dreftadaeth. Mae'n rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad fel dosbarthwyr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cyllid a dderbynnir o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a adwaenir fel Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Telir yr holl symiau a dderbynnir gan drwyddedai'r Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) i Ysgrifennydd Gwladol DCMS a'u rhoi yn CDLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDLG am gyllid i gwrdd â'i rhwymedigaethau dros daliadau grant a threuliau gweinyddu'r Loteri Genedlaethol.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd Ysgrifennydd Gwladol DCMS yn dyrannu 20% o'r swm a delir i CDLG ar gyfer gwariant ar, neu'n gysylltiedig â'r dreftadaeth genedlaethol.

Mae adran 23(3) yn sefydlu Ymddiriedolwyr CGDG fel dosbarthwyr y gyfran honno. Gostyngwyd y dyraniad canrannol i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Fe ddychwelodd i 20% o 1 Ebrill 2012, ar ôl bod ar 18% trwy gydol 2011–12.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar ffurf a bennwyd gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS gyda chydsyniad Trysorlys EM yn unol ag Adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

i) unrhyw dir, adeilad neu adeiledd sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol
ii) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
iii) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sef casgliad neu grŵp sydd, yn ei gyfanrwydd, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd wedi hynny) yn ymestyn pwerau'r ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a ddylunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau a anelir at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i ymddiriedolwyr wneud grantiau refeniw i ehangu mynediad i dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau ar grantiau Loteri Genedlaethol i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bydd newidiadau cadarnhaol a pharhaus yn cael eu creu ar gyfer pobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Mae gennym hanes cryf iawn yn barod o wneud grantiau dros dreftadaeth, gyda thros 25 mlynedd o brofiad o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, a thimau arbenigol a leolir ar draws y DU. Trwy ein rhaglenni a phartneriaethau ariannu uchelgeisiol byddwn yn:

- parhau i fuddsoddi ein hadnoddau i ddiogelu mwy o asedau treftadaeth a chreu profiadau treftadaeth gwell ar draws y DU
- dangos ac eirioli dros effaith economaidd, cymdeithasol a chymunedol treftadaeth

- dod â sefydliadau sy'n gweithio ar draws treftadaeth ynghyd i rannu gwybodaeth ac adnoddau
- annog ac arwain gwell arloesedd a chyfleoedd cynhyrchu incwm newydd ar gyfer treftadaeth

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn parhau'n un o ffynonellau ariannu treftadaeth pwysicaf y DU.

**Ein materion a'n risgiau allweddol**

Mae ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi wynebu nifer o risgiau sylweddol trwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol ac yn effeithiol i isafu'r effaith ar ein hymgeiswyr, grantïon a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag ar y Gronfa ei hun.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau a wynebir gan y sefydliad mewn cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r craffu a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Crëir cofrestr o'r risgiau lefel uchaf, sy'n cael ei hadolygu ar sail reolaidd. Disgrifir y manylion yn y datganiad llywodraethu ar dudalen 20.

Ein prif risg y llynedd oedd yr argyfwng COVID-19, er i hyn ddod i'r amlwg yn hwyr yn y flwyddyn bu'r effaith yn sylweddol ac wrth gwrs mae'r goblygiadau wedi parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

Ein hymateb dechreuol i'r risg oedd cau ein swyddfeydd i gyd, gofyn i'n staff weithio o gartref mewn rhith-amgylchedd newydd a gweithredu ein Cynllun Dilyniant Busnes. Llwyddom i weithredu'r holl fesurau hyn o fewn 48 awr o gyhoeddi gofynion Llywodraeth y DU ac ers hynny a thrwy gydol yr argyfwng rydym wedi llwyddo i gyflwyno ein holl wasanaethau i'n cwsmeriaid i gyd heb unrhyw aflonyddwch.

O fewn tair wythnos gyntaf yr argyfwng bu i ni gomisiynu arolwg ar draws y sector i adnabod materion allweddol, risgiau ariannol a gweithredu i helpu cyfeirio ein hymateb yn y tymor byr iawn. O fewn y cyfnod hwnnw fe lwyddom i roi pecyn ariannu brys gwerth £50miliwn at ei gilydd ar gyfer grantiau hyd at £50,000 yn y lle cyntaf a bellach wedi'i estyn i £250,000 i helpu grantïon i ymdrin â'r argyfwng trwy ddarparu cyllid yn y tymor byr iawn. Ymfyddinodd ein timau cyflwyno busnes lleol yn gyflym i gefnogi grantïon presennol i ailalinio cyllid a grantiau fel y bo angen, a chefnogwyd ymgeiswyr a oedd hanner ffordd trwy'r broses ymgeisio hefyd. Roedd ein timau polisi a strategaeth yn gallu cywain mewnwelediad a data ar draws elfennau gwahanol y sector ac ar draws y DU i fireinio ein hymateb a'n hymdrech a dargedir.

Mae'r rhaglen ymateb brys yn ddigon hyblyg i fedru cael ei haddasu i anghenion a gofynion y dyfodol ar draws y sector ac mae'r rheiny yn destun adolygiad parhaus. Os bydd cyllid pellach yn cael ei ddarparu, bydd modd i ni gynnig mwy o gefnogaeth i'r sector trwy gyfnodau gwahanol yr argyfwng.

Ar ôl cwymp gychwynnol, mae ein hincwm gan y Loteri Genedlaethol wedi parhau'n eithaf cryf a sefydlog, ac rydym yn parhau i weithio gyda DCMS, dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, y Comisiwn Hapchwarae a gweithredwr y Loteri Genedlaethol i gynnal y sefyllfa honno. Byddwn yn parhau i reoli'r risg hon trwy ddadansoddiad ac asesiad effeithiol o incwm, taliadau cyllid i mewn ac allan ac ymrwymiadau parhaus sydd wedi'u buddsoddi.

Rydym yn parhau i gynnig cefnogaeth i'n staff i gyd i sicrhau bod eu hiechyd a llesiant yn cael eu diogelu yn y cyfnod heriol sydd ohoni; bydd hynny wedyn yn galluogi ni i barhau i gyflwyno ein gwasanaethau busnes.

Rydym yn cydnabod hefyd y gallai ailosod trwydded y Loteri Genedlaethol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf greu mathau posib o risg ar ein cyfer o ran incwm, gweithredwr etc. Byddwn yn cydweithio'n agos â Fforwm Dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol i sicrhau bod DCMS a'r Comisiwn Hapchwarae'n ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn deall eu heffaith bosib ar ein buddsoddi. Mae'r gwaith ar baratoi ar gyfer tendro'r drwydded gyda'r Comisiwn Hapchwarae wedi bod yn enghraifft o gydweithio cryf ochr yn ochr â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol.

Rydym hefyd wedi ystyried y risg bosib o'r cynigion i ddad-reoleiddio loteriau cymdeithas a'r effaith y gallai hynny ei chael ar enillion y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da.

Rydym yn parhau i fonitro effeithiau posib ar y sector o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn cynnwys paratoadau ar gyfer diwedd arfaethedig y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020. Nid ydym yn agored iawn o gwbl i risgiau o ran staffio, cadwynau cyflenwi, data etc. er hynny byddwn yn parhau i fonitro a gwylio'r risgiau hyn.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Rydym wedi adnewyddu ein strategaeth gorfforaethol a byddwn yn dychwelyd iddi yng ngoleuni'r argyfwng COVID-19 i sicrhau yr erys yn addas i'r diben wrth i ni ddod allan o'r argyfwng.

Wrth i ni atgyfnerthu ein rôl arweinyddiaeth, strategaeth gorfforaethol a'n lleoliad ar draws y sector, mae'n hanfodol i ni drosoli'r data a ddaliwn a'r mewnwelediad a gawn ohono. Byddwn yn gwneud hyn trwy rannu'r data hwnnw (ar y llwyfan 365Giving, er enghraifft), ymchwil a dargedir yn fwy a chymhwyso data a mewnwelediad yn ein rolau arweinyddiaeth ac eiriolaeth.

Byddwn yn ymateb i'r risg sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd mewn tair ffordd. Yn gyntaf, o ran ailddrafftio ein polisïau a'n dull buddsoddi yn ogystal ag ymgymryd â rôl arweinyddiaeth polisi. Yn ail, o ran ein buddsoddiad gwirioneddol a phartneriaethau, i sicrhau bod cynaladwyedd a rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn rhan graidd o'r rheiny. Yn olaf, trwy sicrhau bod ein harferion ôl troed carbon a rheolaeth fewnol yn adlewyrchu rheoli'r risg hon yn well.

Yn 2020–21 rydym yn disgwyl cyflwyno ein system rheoli buddsoddi newydd a dechrau dad-gomisiynu ein system rheoli grantiau bresennol. Byddwn yn rheoli risg datblygu'r system newydd yn weithredol trwy brofi'n gynhwysfawr gyda chwsmeriaid a defnyddwyr mewnol, rheoli cyflenwyr a datblygwyr yn unol â hynny a chynnal mesurau rheoli cyfanrwydd, diogeledd a chadernid data'n effeithiol.

Byddwn yn hyblyg ac yn ymatebol trwy gydol y flwyddyn i'r holl risgiau ac yn sicrhau ein bod yn rheoli'r risgiau hynny yn effeithiol ar bob lefel ar draws y Gronfa.

**Ein strategaeth gorfforaethol 2018–2021**

Mae'r strategaeth gorfforaethol yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer rôl Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol dros y tair blynedd o 2018 tan 2021. Cymerodd y strategaeth gamau pellach tuag at sefyllfa arweinyddiaeth gryfach, gan adeiladu ar ein rôl fel y ffynhonnell gyllid benodedig fwyaf i dreftadaeth ar draws y DU. Bu ffocws penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau pur.

Rydym wedi gwneud cynnydd cryf wrth gyflwyno'r strategaeth gorfforaethol yn 2019–20. Lansiwyd dwy gronfa buddsoddi cymdeithasol newydd: y Gronfa Effaith Treftadaeth a gydlynir gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol mewn partneriaeth â ni ein hunain, Historic England, CADW a Historic Environment Scotland; a'r Gronfa Effaith Celf a Diwylliant mewn partneriaeth â NESTA, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Esmee Fairbairn, Big Society Capital a Bank of America Merrill Lynch. Sicrhawyd cyllid pellach ar gyfer ein rhaglen Kick the Dust gan Gronfa Youth Accelerator Fund DCMS – sydd wedi'i adlewyrchu yng nghyfrifon CGDG. Mae Future Parks Accelerator, menter ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn cefnogi naw lleoliad yn Lloegr a'r Alban i drawsnewid gofod gwyrdd sydd ar agor i'r cyhoedd yn eu tref neu ddinas a datblygu modelau ariannol newydd a fydd yn galluogi parciau i fod yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer y genhedlaeth nesaf. At hynny, rydym yn adolygu ein pwerau cyfreithiol i sicrhau y gallwn gyflwyno'r uchelgeisiau a ddisgrifiwyd gennym yn y strategaeth.

Yn 2019–20 rydym wedi adnewyddu ein strategaeth gorfforaethol i alinio â'n Fframwaith Ariannu Strategol 2019–24; er mwyn ymateb i'r cyd-destun newidiol y mae'r Gronfa'n gweithredu ynddo, yn benodol brys cynyddol yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol; ac i gydnabod y newidiadau mewnol a weithredwyd trwy ein rhaglen trawsnewid busnes. Datblygwyd y strategaeth ar ei newydd wedd yn sylweddol cyn yr argyfwng COVID-19. Rydym wedi gwneud rhai ychwanegiadau i leoli'r strategaeth yng nghyd-destun yr argyfwng byd-eang newydd ac arwyddocaol hwn. Cydnabyddwn y bydd rhai o'r blaenoriaethau hyn yn newid o ganlyniad i COVID-19.

Ein gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y Gronfa yw y 'byddwn yn cael ein cydnabod am ein harbenigedd ac arweinyddiaeth ar draws treftadaeth y DU. Trwy ein rhaglenni ariannu a phartneriaethau uchelgeisiol, byddwn yn ysbrydoli, arwain ac yn darparu adnoddau i dreftadaeth ffyniannus yn y DU. Bydd newidiadau cadarnhaol a pharhaus yn cael eu creu ar gyfer pobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol'. Mae'r canlyniadau yn y strategaeth gorfforaethol ar ei newydd wedd yn alinio'n agosach â'r canlyniadau ac amcanion yn ein Fframwaith Ariannu Strategol.

**Ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024**

Eleni nodwyd blwyddyn weithredu gyntaf ein Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer ein holl fuddsoddiadau rhwng 2019 a 2024. Mae'r Fframwaith Ariannu Strategol yn disgrifio'r weledigaeth ac egwyddorion a fydd yn arwain ein hariannu dros fywyd y fframwaith. Mae ein rhaglenni grant wedi

cael eu rhesymoli i un raglen ariannu agored gyda thair lefel ariannu. Mae mwy o'r penderfyniadau a wnawn ar grantiau wedi'u datganoli i Gymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a'n tair ardal yn Lloegr. Mae ffocws cynyddol ar natur a thirweddau, treftadaeth gymunedol a threftadaeth sydd mewn perygl, ynghyd â chynhwysiad, llesiant, cydnerthedd sefydliadol, sgiliau digidol a lle.

Mae'r fframwaith yn cynnwys chwe amcan i gefnogi gwerthuso effaith buddsoddiadau'r Loteri Genedlaethol yn well. Byddwn yn:

- parhau i ddod â threftadaeth i gyflwr gwell
- ysbrydoli pobl i werthfawrogi treftadaeth yn fwy
- sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol
- cefnogi'r sefydliadau a ariannwn i fod yn fwy cydnerth, mentrus a blaengar
- dangos sut mae treftadaeth yn helpu pobl a lleoedd i ffynnu
- tyfu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud i economi'r DU

O ganlyniad i ddyfodiad yr argyfwng COVID-19 tua diwedd y flwyddyn ariannol, penderfynwyd i gau ein rhaglenni agored am o leiaf chwe mis wrth i ni ganolbwyntio ar gefnogi treftadaeth y DU trwy'r argyfwng. Mae ein hymateb i'r argyfwng yn esblygu i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y sector ac ar yr un pryd parhau'n ymroddedig i'n canlyniadau trosgynnol.

**Busnes gweithredol**

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes gweithredol, yn unol â gofynion safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu bod gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid y gyfran o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG neu i newid dosbarthwyr yr arian a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol.

Dilysodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn 2017 y gofyniad am rôl CGDG wrth ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a'i gyflwyniad parhaus gan gorff cyhoeddus anadrannol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion i newid y ganran o gyllid gan y Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG. Hysbyswyd yr ymddiriedolwyr gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Mae effaith y pandemig COVID-19 yn barhaus. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu na fydd eu prif ffynhonnell incwm – Y Loteri Genedlaethol – yn parhau i gynhyrchu symiau rhesymol ar gyfer y Gronfa. Gostyngodd lefelau incwm pan roddwyd y cyfnod clo ar waith yn y lle cyntaf, ond erbyn hyn mae'r symiau wedi dychwelyd i lefelau sydd bron yn normal. Rydym yn parhau ar agor am fusnes yn ystod y cyfnod clo a gallwn ddarparu gwasanaeth llawn i'r sector treftadaeth. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm dros gredu na fydd y Gronfa'n parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

**Crynodeb o berfformiad**

Mae'r manylion yn yr adran hon a'r dangosyddion perfformiad allweddol ar dudalen 14 yn dangos ein bod wedi cyflawni neu ragori ar y mwyafrif sylweddol o'n mesurau perfformiad yn 2019–20. Disgrifir ein perfformiad yn erbyn ein targedau lefel gwasanaeth ar dudalen 8.

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac felly ni pharatoir cyfrifon cyfunol. Mae'r adolygiad hwn yn trafod gwaith dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn unig.

Mae CGDG yn derbyn ceisiadau Loteri Genedlaethol gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r DU ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994 rydym wedi derbyn dros 55,000 o geisiadau'n gofyn am £23.2biliwn. Yn ystod yr amser hwnnw rydym wedi gwneud dros 38,500 o ddyfarniadau gwerth ychydig dros £8biliwn gan olygu 135,000 o daliadau grant gwerth ychydig o dan £6.8biliwn.

Yn ystod 2019–20, derbyniom ychydig dros 2,000 o geisiadau grant. Roedd y nifer hwn 44% yn is na 2018–19 a dyma'r nifer isaf ers blynyddoedd lawer. Yn yr un modd, roedd gwerth y ceisiadau hynny i lawr tua 50% o'r flwyddyn flaenorol, sef ychydig o dan £350miliwn. Mae nifer o resymau dros hynny: (1) mae cyflwyno fframwaith ariannu newydd ar

## Perfformiad targed lefel wasanaeth ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

| | | Blwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020 | Blwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| 1 | Bydd penderfyniadau'n cael eu rhoi ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol o fewn 20 niwrnod gwaith o gyfarfod y bwrdd. | **32%<br>Gweler nodyn 1** | 100% |
| 2 | Bydd taliad grant yn cael ei wneud i'r ymgeisydd ar gyfartaledd, o fewn naw diwrnod gwaith o dderbyn y cais am daliad | **63%<br>(cyfartaledd 6 diwrnod)** | 87%<br>(cyfartaledd 6 diwrnod) |
| 3 | Graddfeydd amser prosesu ceisiadau:<br>**Grantiau Treftadaeth rownd 1:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **Ddim yn berthnasol** | 89%<br>(cyfartaledd 14.0 wythnos) |
| | **Grantiau Treftadaeth rownd 2:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **97%<br>(cyfartaledd 15.1 wythnos)** | 88%<br>(cyfartaledd 15.1 wythnos) |
| | **Grantiau Treftadaeth casgliad mawr rownd 2:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **67%<br>(cyfartaledd 17.2 wythnos)** | 100%<br>(cyfartaledd 14.4 wythnos) |
| | **Menter Treftadaeth rownd 1:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **100%<br>(cyfartaledd 14.8 wythnos)** | 76%<br>(cyfartaledd 13.6 wythnos) |
| | **Menter Treftadaeth rownd 2:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **100%<br>(cyfartaledd 14.6 wythnos)** | 73%<br>(cyfartaledd 20.3 wythnos) |
| | **Partneriaethau Tirwedd rownd 2:**<br>16 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **100%<br>(cyfartaledd 15.5 wythnos)** | 100%<br>(cyfartaledd 15.4 wythnos) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 2:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **93%<br>(cyfartaledd 13.5 wythnos)** | 99%<br>(cyfartaledd 9.9 wythnos) |
| | **Treftadaeth Treflun rownd 2:**<br>12 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **100%<br>(cyfartaledd 14.6 wythnos)** | 80%<br>(cyfartaledd 17.3 wythnos) |
| | **Grantiau ar gyfer Treftadaeth**<br>– grantiau £3,000 i £10,000 | **100%<br>(cyfartaledd 6.5 wythnos)** | Ddim yn berthnasol |
| | **Grantiau ar gyfer Treftadaeth**<br>– grantiau £10,000 i £100,000 | **100%<br>(cyfartaledd 6.4 wythnos)** | Ddim yn berthnasol |
| | **Grantiau ar gyfer Treftadaeth**<br>– grantiau £100,000 i £250,000 | **100%<br>(cyfartaledd 14.4 wythnos)** | Ddim yn berthnasol |
| | **Grantiau ar gyfer Treftadaeth**<br>– grantiau £250,000 i £2miliwn | **100%<br>(cyfartaledd 13.9 wythnos** | Ddim yn berthnasol |
| | **Grantiau ar gyfer Treftadaeth**<br>– grantiau £2miliwn i £5miliwn | **75%<br>(cyfartaledd 7.9 wythnos)** | Ddim yn berthnasol |
| | **Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw:**<br>8 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **Ddim yn berthnasol** | 97%<br>(cyfartaledd 7.3 wythnos) |
| | **Ein Treftadaeth:**<br>8 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **Ddim yn berthnasol** | 96%<br>(cyfartaledd 7.3 wythnos) |
| | **Rhannu Treftadaeth:**<br>8 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **Ddim yn berthnasol** | 95%<br>(cyfartaledd 7.3 wythnos) |
| | **Gwreiddiau Ifanc:**<br>8 wythnos + amser i'r cyfarfod nesaf | **Ddim yn berthnasol** | 97%<br>(cyfartaledd 7.0 wythnos) |
| 4 | Byddwn yn ymgymryd ag arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ac yn anelu at gynnal boddhad cwsmeriaid ar ein prosesau asesu nad yw'n llai nag 80%. | **Gweler nodyn 2** | 80.3% |
| 5 | Byddwn yn ymgymryd ag arolwg tebyg o'r rhai yr ydym wedi dyfarnu grantiau iddynt ac yn anelu at gynnal boddhad cwsmeriaid ar ein prosesau monitro ac ôl-ddyfarnu nad yw'n llai nag 85%. | **Gweler nodyn 2** | 90.4% |
| 6 | Y gyfran o ymgeiswyr sy'n cael gwefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn hawdd ei defnyddio fydd o leiaf 87%. | **Gweler nodyn 2** | 79% |
| 7 | Byddwn yn hyrwyddo detholiad eang o'n dyfarniadau trwy'r cyfryngau, i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg darpar ymgeiswyr a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. | **Wedi'i fodloni<br>(Gweler nodyn 3)** | Wedi'i fodloni |

Nodyn 1: Mae'r ffigur hwn yn llawer is na mewn blynyddoedd blaenorol ac yn rhywbeth y mae'r Gronfa'n gweithio i'w wella dros y flwyddyn i ddod. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r Gronfa wedi gweld newidiadau arwyddocaol trwy ailddylunio'r sefydliad, gan olygu bod y broses o gyhoeddi penderfyniadau, a'r bobl sy'n gyfrifol amdani, wedi newid. Rydym yn credu mai dyna'r rheswm dros y gwymp sylweddol yn ein perfformiad. Er na fu modd i ni fodloni'r DPA 20 niwrnod gwaith yn gyson, mae'r Gronfa wedi rhoi mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cyhoeddwyd yr holl benderfyniadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Erbyn hyn, mae'r holl benderfyniadau grant a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu cyhoeddi ac maent ar gael trwy ein gwefan.

Nodyn 2: Nid yw'r Gronfa'n comisiynu'r ymchwil hon mwyach; yn bennaf fe deimlom nad oeddem yn cael gwerth llawn am arian o'r gwaith; Nid oedd yn cael ei defnyddio ar draws y sefydliad i yrru newid ac nid oedd yn flaenoriaeth yn ystod ein cyfnod o drawsnewid y busnes. Rydym wedi bod yn edrych ar opsiynau ar gyfer rhedeg rhywbeth tebyg yn 2020–21, a fyddai'n ei weld yn cael ei integreiddio'n dynnach â'r broses barhaus o wneud grantiau, gan gynnwys dod â rhai elfennau cyflwyno'n fewnol.

Nodyn 3: Bu i ni hybu detholiad eang o'n dyfarniadau – a'r effaith a gynhyrchwyd gan yr arian a ddosbarthwyd gennym – trwy'r cyfryngau a'n sianelau digidol ein hunain i godi ymwybyddiaeth ymysg darpar ymgeiswyr a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Yn ystod 2019–20 cyrhaeddodd y sylw a roddwyd i ni yn y cyfryngau tua 34 miliwn o bobl mewn chwarter nodweddiadol – 10 miliwn yn uwch y chwarter na 2018–19; denodd ein gwefan 95,000 o ddefnyddwyr mewn chwarter nodweddiadol, gyda mwy na 27,000 o'r rheiny yn darllen ein cynnwys newyddion a storïau; cyrhaeddodd ein sianel Twitter gorfforaethol 8,397,291 o argraffau yn ystod y flwyddyn a 125,696 o ymgysylltiadau. Ar draws ein holl sianelau cyfryngau cymdeithasol roedd gennym dwf cyfunedig mewn dilynwyr newydd o 18,869 yn ystod y flwyddyn – 4,717 y chwarter ar gyfartaledd – a chyflawnodd ein cylchlythyr gyfradd agor unigryw uwchben safon y diwydiant o 28% y mis.

ddechrau'r flwyddyn bob amser yn cael effaith gymedroli ar y nifer o geisiadau. Mae'n anochel bod sefydliadau y mae angen cyllid arnynt wedi dod i arfer â'n hen raglenni dyfarnu a cheir ymchwydd mewn ceisiadau cyn y daw'r hen fframwaith i ben, wedi'i ddilyn gan gwymp pan fydd y fframwaith newydd yn ei le. (2) Mae ein cyllideb grantiau'n parhau'n isel o'i chymharu â'r gorffennol diweddar. Mae'r canfyddiad hwn o gyfle is o gael dyfarniad yn tawelu'r galw. (3) Er i'r pandemig coronafeirws ddod i'r amlwg dim ond ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fe fydd wedi cael rhywfaint o effaith ar lefel y ceisiadau ym misoedd Chwefror a Mawrth 2020.


Bu 2015–16 yn flwyddyn ysgubol o ran gwerthiannau tocynnau'r Loteri Genedlaethol, a chyrhaeddodd ein hincwm £388miliwn. Yn y tair blynedd ddilynol, roedd incwm yn sefydlog ar tua £325miliwn. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth economyddion a gomisiynwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ragolygon pesimistaidd am y lefel incwm debygol yn y tymor canolig. Ein polisi hyd at y pwynt yma oedd mwyafu cyllidebau dyfarniadau grant, ond yng ngoleuni'r ymchwil fe deimlom fod rhwymedigaeth arnom i gwtogi ar gyllidebau i ddiogelu ein portffolio presennol o brosiectau byw pan oedd ein cronfeydd arian parod wrth gefn yn llai na thraean o'n rhwymedigaethau grant a fu'n weddill. Gan hynny, bu'n syndod dymunol i dderbyn incwm o £357miliwn gan y Loteri Genedlaethol yn 2019–20.

Er gwaetha'r lefel incwm annisgwyl o uchel, mae'n rhaid i ni gymryd i ystyriaeth yr oedd taliadau grant a thaliadau gweinyddol yn y flwyddyn yn uwch na'r swm hwn. Y canlyniad terfynol yw y gostyngodd ein balansau arian parod (arian parod yn y banc ac arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) ymhellach i £312miliwn a'u bod yn sylweddol is nag un flwyddyn o daliadau grant rhagamcanedig. Rydym yn parhau'n ochelgar wrth edrych tua'r dyfodol gan nad ydym yn gwybod pa lefel o alw y bydd am daliadau grant yn y tymor byr i ganolig. Mae gennym £850miliwn o rwymedigaethau grant a mwy na £200miliwn o basiau rownd un (mae pas rownd un yn arwydd ein bod yn debygol o ariannu prosiect pan dderbyniwn gais sydd wedi'i ddatblygu'n llawn).


Byddwn yn parhau i fonitro patrymau incwm a thaliadau grant i sicrhau y gallwn gefnogi ein rhwymedigaethau yn y tymor canolig i hir wrth i ni geisio cysoni symiau wrth gefn, incwm a thaliadau allan. Mae'r siart isod, sy'n rhoi manylion ein balansau yn CDLG yn dangos maint y dirywiad yn y cyllid sydd ar gael, a bu i hyn, ynghyd â'r cyngor annibynnol y gallai incwm ostwng yn sylweddol, beri i ymddiriedolwyr adolygu eu hymagwedd at wneud dyfarniadau rownd dau. Er y bu'n glir erioed nad yw derbyn pas rownd un yn gwarantu dyfarniad yn rownd dau, mae'r holl brosiectau bellach yn destun adolygiad ansawdd llym yn rownd dau a dim ond y prosiectau cryfaf sy'n cael eu cymeradwyo. Dengys rhagamcaniadau llif arian y dylai ein polisi diwygiedig olygu y bydd ein balansau arian parod yn dychwelyd i lefel fwy iach yn y tymor canolig. Rydym yn monitro effaith yr argyfwng coronafeirws ar incwm, taliadau a balansau arian parod yn agos hefyd.

Parhaodd incwm buddsoddi a enillwyd gan CDLG yn gyson ar tuag £1.7miliwn. Yr enillion ar fuddsoddiadau yn CDLG oedd 0.72% o'i gymharu â 0.67% yn 2018–19. Daeth y gwymp yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr tua diwedd y flwyddyn, yn rhy hwyr i gael effaith fawr ar y rhifau, ond rydym yn disgwyl y bydd rhifau 2020–21 yn dangos incwm buddsoddi llawer is.


## Nifer y ceisiadau Loteri fesul blwyddyn





## Ein balans arian yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fesul blwyddyn




## Gwerth taliadau grant fesul blwyddyn



## Prosiectau sy'n cael eu monitro fesul blwyddyn (nifer)




Elw gilt isel parhaus yw'r rheswm dros yr enillion incwm buddsoddi isel, gan fod CDLG yn buddsoddi mewn ystod gul o fuddsoddiadau risg isel ac elw isel. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad ar y polisi buddsoddi, sy'n cael ei bennu gan DCMS. Derbyniwn 20% o'r enillion buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG), ni waeth beth fo balans ein cronfeydd.

Gostyngodd lefel y rhwymedigaethau grant newydd a grëwyd yn sylweddol o £322miliwn i £252miliwn. Disgwyliwyd y gwymp gan fod ein cyllidebau dyfarniadau grant yn gostwng am y rhesymau uchod; fodd bynnag, nid dyma'r unig ffactor yn lefel y rhwymedigaethau newydd. Ar 31 Mawrth 2019 roedd gennym falans o £286miliwn o rwymedigaethau amodol (a adwaenir yn hanesyddol fel pasiau rownd un) ac er y disgwylir iddynt ddychwelyd o fewn cwpl o flynyddoedd o'r penderfyniad dechreuol ar gyfer eu penderfyniad rownd dau, nid oes gennym unrhyw reolaeth dros pryd y bydd hyn yn digwydd. Gan hynny, fel y gwnaethom yn 2019–20, gallwn gael cyllideb dyfarniadau grant o £225miliwn, ond mewn gwirionedd byddwn yn dyfarnu £252miliwn oherwydd bod y gyllideb yn rheoli lefel y prosiectau newydd yr ydym yn disgwyl eu cefnogi trwy basiau rownd un. Yn 2020–21, pennwyd ein cyllideb grant fel £265miliwn yn y lle cyntaf, ond bydd hon yn cael ei hadolygu yng ngoleuni'r pandemig coronafeirws. Rydym wedi cyhoeddi cronfa argyfwng o £50miliwn dros y tymor byr ac wedyn byddwn yn creu rhaglenni grant sy'n ystyried anghenion y sector treftadaeth yn y tymor canolig. Pan fyddwn yn cyrraedd y sefyllfa hon, bydd cyllideb wedi'i diweddaru'n cael ei phennu, ond ni wyddys ar y pwynt hwnnw faint sy'n cael ei glustnodi ar gyfer prosiectau newydd, faint a ddefnyddir i gefnogi prosiectau sy'n cyflwyno a faint y mae ei angen i gefnogi sefydliadau treftadaeth pwysig.

Mae'r ôl-groniad o £219miliwn o rwymedigaethau amodol yn golygu ei fod yn debygol y bydd swm uwch na'r gyllideb dyfarniadau grant yn ymddangos yn y cyfrifon ar gyfer 2020–21.

Gostyngodd y balans rhwymedigaethau grant yn sylweddol o £936miliwn i £843miliwn. Yn syml, roedd hyn oherwydd bod gwerth y dyfarniadau newydd net yn llawer is na gwerth y taliadau grant. Gostyngodd gwerth y darpariaethau gan i ni beidio â thalu'r holl rwymedigaethau hyn yn sylweddol hefyd, gan wneud y gostyngiad gwirioneddol mewn rhwymedigaethau a adroddwyd yn llai nag yr oedd mewn gwirionedd. Rydym yn creu darpariaethau sy'n gostwng gwerth rhwymedigaethau grant sy'n weddill o dan ddau amgylchiad: (1) pan fyddwn yn gwybod na fydd y grantî yn gofyn am eu grant cyfan neu ran ohono mwyach; a (2) pan geir cyfnod hir o ddistawrwydd gan y grantî a allai fod yn arwydd bod y prosiect wedi dod i ben. Wrth gwrs nid yw hwn yn grefft manwl gywir, ond mae'n ymgais i sicrhau bod y rhwymedigaeth grant a adroddir yn agosach at y swm tebygol y byddwn yn ei dalu yn y pen draw.

Gostyngodd lefel y rhwymedigaethau amodol (pasiau rownd un) a roddir i ymgeiswyr wrth i ni aros am y penderfyniad rownd dau, yn sylweddol o £286miliwn i £219miliwn. Nid oedd hyn yn syndod gan i ni ddyfarnu dim ond £125miliwn o basiau rownd un newydd yn y flwyddyn tra'n trosi £173miliwn i ddyfarniadau llawn. Gwaredwyd £20miliwn pellach o rwymedigaethau amodol

wrth i brosiectau gael eu gwrthod yn y cam penderfynu rownd dau.

Gan gymryd yr holl rwymedigaethau gwirioneddol ac amodol i ystyriaeth, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roeddem wedi ymrwymo dros £0.76biliwn, cyn darpariaethau, (ar 31 Mawrth 2019: £0.9biliwn) yn fwy nag yr oedd gennym yn CDLG. Mae'r lefel rhwymedigaethau a rhwymedigaethau amodol hon yn golygu bod gennym ymrwymiadau sydd cyfwerth â 3.0 blynedd o incwm (ar 31 Mawrth 2019: 3.8mlynedd). Bu'r balans rhwymedigaethau contract yn sylweddol uwch na'n hasedau net a bu diffyg net ar y datganiad o sefyllfa ariannol o £527miliwn ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod bod monitro llifoedd arian tymor hir yn bwysig iawn gan fod y prosiectau rydym yn rhoi grantiau iddynt fel arfer yn cymryd blynyddoedd lawer i'w cwblhau. Nid oes unrhyw warant ynglŷn â'n cyllid gan DCMS na sicrwydd ynglŷn â maint y cyllid y bydd y Loteri Genedlaethol yn ei gynhyrchu ar ein cyfer. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi dyfeisio cymarebau arweiniad ynglŷn â lefelau'r ymrwymiadau sy'n weddill, arian parod ac incwm disgwyliedig. Oherwydd y gwymp nad oedd modd ei rhagweld mewn incwm yn 2016–17, rhoddwyd blaenoriaeth i'r cymarebau hyn yn ein cynllunio; sefydlogodd y gwymp mewn incwm mewn blynyddoedd dilynol ac fe'i gwrthdrowyd yn rhannol yn 2019–20. Mae'r cymarebau'n parhau'n destun adolygiad rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'n ffordd o weithio a'r hinsawdd allanol. Gweler y tabl cymarebau isod. Mae'r rhan fwyaf o gymarebau yn nodi sefyllfa y teimlwn yn gyfforddus â hi; er hynny, erys ein balansau arian parod yn sylweddol islaw'r lefel yr ydym ei heisiau ac felly byddwn yn parhau â'n polisi o bennu cyllidebau dyfarniadau islaw'r lefel incwm ddisgwyliedig.

Yn gyffredinol, cododd ein costau gweithredu 15% yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i fuddsoddi sylweddol wrth gyflwyno'r strategaeth gorfforaethol. Disgwyliwyd y cynnydd ac mae wedi cael ei ymgorffori yn ein cyllideb gweithredu ar gyfer 2019–20. O ganlyniad i'n strategaeth gorfforaethol, a gyhoeddwyd ar ddechrau 2018–19, roeddem yn gwybod bod angen i ni ymgymryd ag ailstrwythuriad sylfaenol o'r sefydliad er mwyn cyflwyno ar yr addewidion a ddisgrifiwyd yn y strategaeth (sef 'trawsnewid busnes'). Roedd yn anochel y byddai'r ailstrwythuro, ynghyd â newidiadau cysylltiedig i'n hystadau a thechnoleg gwybodaeth, yn arwain at gynnydd tymor byr yn ein costau. Mae ein gallu i barhau i gyflwyno gwasanaeth yn ystod y pandemig coronafeirws yn dangos llwyddiant ein huwchraddiad technoleg gwybodaeth gan ei fod yn galluogi ni i weithredu'n effeithiol o'n cartrefi.

Cododd costau staff 12% er i'r niferoedd staff cyfartalog ostwng 11%. Mae dwy ffordd o esbonio'r gwrth-ddywediad ymddangosol hwn: (1) wrth i'r sefydliad gael ei drawsnewid, hwyluswyd newid staff drosodd gan ddefnyddio staff dros dro; nid yw nifer y rhain wedi'i gynnwys yn y niferoedd staff cyfartalog. Mae staff dros dro'n tueddu bod yn ddrutach na staff parhaol gan adlewyrchu natur tymor byr eu penodiad a'r ychwanegiad a gymhwysir gan eu hasiantaethau recriwtio. (2) mae'n anochel bod trawsnewid o fod yn sefydliad braidd yn adweithiol nad yw ond yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i un sy'n ysbrydoli, arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer y sector treftadaeth yn gofyn am symud tuag at staff â galluoedd uwch sy'n denu cyflogau uwch. Mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, nodir bod y cyflog staff canolrif wedi codi o £29,043 i £36,000 yn y flwyddyn – cynnydd o 24%.

| Cymhareb | Amrediad targed | **ar 31 Mawrth 2020** | ar 31 Mawrth 2019 | ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm ymrwymiadau i incwm | Uchafswm yn yr amrediad 4.4:1 i 4.6:1 | **3.0:1** | 3.8:1 | 4.6:1 |
| Ymrwymiadau net i incwm (h.y. cyfanswm ymrwymiadau llai arian parod) | Uchafswm yn yr amrediad 3.0:1 i 3.2:1 | **2.1:1** | 2.8:1 | 3.3:1 |
| Ymrwymiadau caled i arian parod | Uchafswm yn yr amrediad 2.3:1 i 2.5:1 | **2.7:1** | 2.8:1 | 2.5:1 |
| Arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Yn yr amrediad £400miliwn i £500miliwn | **£309miliwn** | £338miliwn | £407miliwn |

Cododd taliadau gweithredu eraill 12% am y rhesymau a roddwyd uchod. Er i ni wario £27.5miliwn ar ein costau gweinyddol ar gyfer dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, credwn fod y sefydliad yn parhau'n ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol hynod effeithlon.

Dangosir tystiolaeth dros hyn yn y siart sydd â'r teitl 'Costau gweithredu gwirioneddol vs costau 2003–04 plws chwyddiant fesul blwyddyn' a chan i ni gwrdd â'r targed effeithlonrwydd a bennwyd gan DCMS. Rydym yn credu bellach ein bod mewn sefyllfa well i ysbrydoli'r sector treftadaeth yn y byd ar ôl y coronafeirws.


Roedd nifer y prosiectau sy'n destun monitro (prosiectau heb eu cwblhau sydd wedi derbyn dyfarniadau) wedi codi'n sylweddol dros flynyddoedd diweddar. Er hynny, mae'r nifer wedi gostwng yn sylweddol yn 2019–20 gan ddilyn diwedd y rhaglen Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr (sef 'RPOW England'). Rhedwyd y rhaglen ar ein rhan gan Historic England a bu iddynt gadarnhau tua diwedd y flwyddyn na fyddai unrhyw grantiau pellach yn cael eu hawlio gan y llawer o filoedd o fannau addoli a gefnogwyd gennym trwy'r rhaglen. O ganlyniad i ddod â'r rhaglen i ben dilëwyd dwy fil o brosiectau o'n cyfanswm nifer o brosiectau a oedd yn destun monitro. Nid ydym yn gwybod beth fydd effaith y pandemig coronafeirws ar y rhif hwn yn 2020–21. Yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol newydd rydym wedi stopio gwneud dyfarniadau safonol newydd – mae'r rhain yn cael eu disodli gan ddyfarniadau argyfwng tymor byr – ond nid ydym yn gwybod faint o'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu ar hyn o bryd a fydd yn arafu neu'n cael eu gohirio.

Mae sicrhau bod prosiectau'n gwneud cynnydd llwyddiannus yn dasg sylweddol sy'n gofyn am adnoddau sylweddol o ran staff a phenodi mentoriaid a monitoriaid i oruchwylio'r gwaith a gyflawnir ac adrodd unrhyw broblemau'n ôl i ni. Mae hyn yn helpu i esbonio lefelau ein costau gweinyddol dros flynyddoedd diweddar.

Mae ein costau gweithredu'n elwa o dri chyfraniad gan gyrff llywodraeth ganolog hefyd:

- Gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tuag at gost rhedeg y rhaglen Parks for People, y mae'n cyfrannu cyllid grant tuag ati. Cododd ei chyfraniad ychydig o £220,000 i £234,000. Mae'r rhaglen Parks for People wreiddiol bellach wedi dod i ben gan fod y prosiect olaf i'w ariannu bellach wedi dod i ben. Nid yw'r ail raglen yn derbyn ceisiadau newydd mwyach, ond mae chwe deg pump o brosiectau byw o hyd yn yr ail raglen.
- Gan y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd tuag at gost ei ddeiliadaeth o ran o'r llawr cyntaf yn ein hen swyddfa yn Llundain. Rhoddwyd llety i'r Pwyllgor ar

## Costau gweithredu gwirioneddol vs costau 2003–04 plws chwyddiant fesul blwyddyn




| | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 | 2018–19 | **2019–20** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau – gwirioneddol (£m) | **17.6** | **17.4** | **18.7** | **19.2** | **19.8** | **20.3** | **22.5** | **21.7** | **23.9** | **27.5** |
| Costau – costau 2003–04 (£m) gyda chwyddiant | **26.4** | **26.8** | **27.4** | **27.9** | **28.3** | **28.6** | **29.2** | **29.7** | **30.4** | **31.0** |

Newid yn yr Hinsawdd o fis Mai 2011 tan fis Medi 2020 ac roedd ei gyfraniad ar ffurf rhent a thaliadau gwasanaeth. Yn ystod 2019–20 codwyd tâl o £57,000 arno (2018–19: £111,000).

- Gofynnodd DCMS i ni ddosbarthu cyllid ei Chronfa Youth Accelerator Fund. Gan nad yw'r cyllid yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, mae'r gweithgaredd wedi'i gofnodi ym mhrif gyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae £55,000 o gostau gweinyddol wedi cael eu trosglwyddo i gyfrifon CGDG i adlewyrchu'r gost weinyddol.

Yn 2019–20, roedd ein costau gweithredu fel cyfran o'n hincwm fel a ganlyn:

| | Targed | Gwirioneddol 2019–20 | Gwirioneddol 2018–19 | Gwirioneddol 2017–18 | Gwirioneddol 2016–17 | Gwirioneddol 2015–16 | Gwirioneddol 2014–15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant gweithredu fel cyfran o'r cyfanswm incwm | **8%** | **7.7%** | 6.9% | 6.6% | 6.9% | 5.2% | 5.1% |

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylai fod yn ddosbarthwr arian Loteri effeithlon gael ei gyflawni ar draul y gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Maent yn falch o adrodd i ni barhau i gyflawni ein targedau er gwaethaf aflonyddwch tymor byr y rhaglen trawsnewid busnes. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r targedau hyn wedi parhau heb eu newid ers nifer o flynyddoedd ond rydym yn gwneud ymchwil i bennu p'un a fyddai dangosyddion eraill yn fwy priodol i'w datgelu yn y dyfodol ai beidio. Mae mwy o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael ar dudalen 8.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gan CGDG enw da fel dosbarthwr arian Loteri effeithlon. Mae'r llinell ddu ar y siart uchod yn amlinellu ein costau gweithredu ym mhob un o'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth costau gweithredu yn y flwyddyn y bu i ni greu ein strwythur gweithredu cyn y rhaglen trawsnewid busnes (2003–04) yn nhermau gweithredu o ddeg swyddfa ar draws y DU – mae'r swm yn cynyddu'n unol â datchwyddydd cynnyrch domestig gros (GDP) Trysorlys EM, amcangyfrif o'r lefel chwyddiant gyffredinol yn economi'r DU. Yn 2019–20, buom yn destun aildrefniad sylweddol o dan nawdd ein strategaeth gorfforaethol, ond gan gadw ein strwythur swyddfeydd presennol. Mae gennym strategaeth ystadau a allai arwain at newid yn nifer a maint y swyddfeydd yr ydym yn ddeiliaid ynddynt a bydd y pandemig coronafeirws yn gorfodi ni i ailfeddwl y strategaeth hefyd. Mae ein costau wedi codi 15% am y rhesymau a nodwyd uchod. Er hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn nodi bod y costau gweithredu ar gyfer 2019–20, sef £27.5miliwn, £3.4million (neu 11%) yn is na'r hyn y byddai chwyddiant ers 2003–04 wedi'i awgrymu, gan gynrychioli gostyngiad gwirioneddol ac arwyddocaol mewn costau gweithredu a rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer grantiau. Os defnyddiwyd y Mynegai Prisiau Manwerthu, yn hytrach na'r datchwyddydd GDP, byddai'r costau £8miliwn (neu 29%) yn uwch nag yr oeddent mewn gwirionedd (neu gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr byddai ein costau £4.3miliwn yn uwch).

Mae'r ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod targed yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn parhau i gael ei gyflawni. Y dull o gyfrifo'r targed DCMS yw cynnwys incwm cyfartalog dros dair blynedd (2018–19, 2019–20 a'r rhagamcaniad ar gyfer 2020–21) ac eithrio TAW o gostau gweinyddol yn ogystal ag eitemau eithriadol. Yn 2019–20, bu i ni eithrio rhai costau unigol anghylchol eithriadol – dynodwyd yr eitemau hyn fel ein costau 'trawsnewid busnes'.

### Symiau taladwy

Mae CGDG yn glynu wrth y safon llywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n nodi y dylid talu pob bil dilys o fewn 30 niwrnod. Yn 2019–20 oedran gyfartalog anfonebau a dalwyd oedd naw diwrnod gwaith (2018–19: chwe diwrnod gwaith). Talwyd dros 91% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr (2018–19: 96%).

**Adrodd am gynaladwyedd**

| Maes | | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes gan gynnwys awyr a rheilffordd rhyngwladol (cyfwerth â thunelli $CO_2$) | | **383** | 365 | 410 | 417 | 635 | 591 |
| Ynni ystadau | –defnydd (mkWh) | **1.1** | 1.1 | 0.9 | 0.7 | 1.1 | 1.1 |
| | – gwariant (£) | **588,794** | 476,020 | 437,986 | 486,315 | 488,361 | 429,425 |
| Gwastraff ystadau | – swm (tunelli) | **150** | 23 | 26 | 23 | 28 | 26 |
| | – gwariant (£) | **47,739** | 24,421 | 25,908 | 19,115 | 13,268 | 14,095 |
| Dŵr ystadau | – defnydd ($m^3$) | **4,820** | 3,455 | 3,927 | 4,040 | 4,350 | 4,889 |
| | – gwariant (£) | **7,391** | 5,787 | 10,703 | 12,089 | 7,413 | 11,825 |

**Adrodd am gynaladwyedd wedi'i normaleiddio gan staff cyfwerth ag amser llawn (CaALl) a gyflogwyd yn y cyfnod**

| Maes fesul CaALl | | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n ymgorffori teithio busnes gan gynnwys awyr a rheilffordd rhyngwladol (cyfwerth â thunelli $CO_2$) | | **1.4** | 1.2 | 1.4 | 1.4 | 2.3 | 2.3 |
| Ynni ystadau | –defnydd (kWh) | **4,012** | 3,530 | 2,899 | 2,524 | 4,105 | 4,134 |
| | – gwariant (£) | **2,198** | 1,581 | 1,470 | 1,648 | 1,744 | 1,639 |
| Gwastraff ystadau | – swm (tunelli) | **0.6** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | – gwariant (£) | **178** | 5 | 87 | 65 | 47 | 54 |
| Dŵr ystadau | – defnydd ($m^3$) | **18** | 11 | 13 | 13 | 16 | 19 |
| | – gwariant (£) | **28** | 19 | 36 | 41 | 26 | 45 |

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwr – cymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrcasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2020, y ffigur oedd 41 diwrnod (2018–19: 35 niwrnod). Mae'r ffigur diwrnodau credydwr yn llawer uwch ar ddiwedd y flwyddyn nag ar amserau eraill oherwydd i ni annog cyflenwyr i gyflwyno eu hanfonebau cyn y daw'r flwyddyn i ben, ac mae hyn yn golygu y ceir ymchwydd yn nifer yr anfonebau a dderbynnir ar ddechrau mis Ebrill.

## Polisïau amgylcheddol ac adrodd am gynaladwyedd

Mae Trysorlys EM yn mynnu bod pob corff sector cyhoeddus yn cynhyrchu adroddiad cynaladwyedd blynyddol. Yn anffodus nid yw cydgrynhoi'r data hwn yn wyddor manwl gywir. Er enghraifft, ychydig iawn o landlordiaid ein 10 swyddfa wlad ac ardal sy'n fodlon darparu ffigurau i ni o ran cilowat oriau y nwy a thrydan a ddefnyddir neu ddefnydd o ddŵr. Ni allant filio'n ddigon cyflym ar ôl diwedd blwyddyn ychwaith i ddarparu ffigurau mewn pryd i gynhyrchu cyfrifon diwedd blwyddyn. At hynny, polisi ein hystadau yw dod â'n deiliadaethau eiddo prydles i ben a newid i swyddfeydd â gwasanaeth hyblyg. Bydd hyn yn galluogi ni i fod yn fwy ystwyth gan y gallwn agor swyddfeydd llai mewn mwy o leoliadau bellach er mwyn dod â ni'n agosach at ein cwsmeriaid. Er hynny, nid yw'n ymarferol nac yn briodol i weithredwyr swyddfeydd â gwasanaeth ddyrannu defnydd pŵer i'w cwsmeriaid ar sail na ellir ei chefnogi. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddefnyddio amcangyfrifon o ddefnydd ynni ar gyfer y mwyafrif o'n swyddfeydd.

Mae'r ail dabl (uchod) yn adrodd data ar sail cyfwerth ag amser llawn (CaALl), h.y. y lefel o ddefnydd fesul aelod staff. Fodd bynnag, gan i ni hefyd gynnwys allyriadau pobl nad ydynt yn aelodau staff, e.e. ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor a chyflenwyr penodol, mae cymaroldeb rhai o'r ffigurau hyn dros y blynyddoedd a gyda sefydliadau'n anodd ei gefnogi. Nid yw ein rhif CaALl yn cynnwys staff dros dro ac rydym wedi defnyddio nifer uwch o staff dros dro yn 2019–20 wrth ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac yn ein gweithgareddau eraill. Yn olaf, mae'r ffactorau trawsnewid a ddefnyddir i gyfrifo cyfwerth carbon

diocsid ein hallyriadau'n aml yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gweld ychydig iawn o werth mewn dyrannu adrodd am gynaladwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. O ganlyniad i hynny mae'r wybodaeth isod yn cynnwys holl weithgareddau CGDG.

**Crynodeb o berfformiad**

Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr wedi codi ychydig yn 2019–20 ar sail crynswth a hefyd wrth edrych ar y ffigurau ar sail CaALI.

Roedd gan CGDG reolaeth dros un yn unig o'r lleoliadau y bu'n ddeiliad ynddynt, sef ei phencadlys yn Holbein Place, Llundain. Fodd bynnag, rhwng misoedd Mehefin a Medi 2019, adleolodd staff yn Llundain i lawr llai wedi'i lesio yn St Katharine Docks, sydd hefyd yn Llundain. Golygodd hyn ein bod yn ddeiliad dwy swyddfa fawr yn Llundain am chwe mis cyntaf y flwyddyn wrth i ni baratoi ein swyddfa newydd i staff symud i mewn iddi. Mae'n anochel y cafodd hyn effaith negyddol ar faint y cyfwerth carbon diocsid a gynhyrchwyd gennym.

Ym mhob un o'r 11 o adeiladau yr ydym yn ddeiliad ynddynt rydym yn hollol ddibynnol ar y landlord (neu ddarparwr swyddfeydd â gwasanaeth) i wella perfformiad ac mae hynny'n annhebygol o ddigwydd rhwng adnewyddiadau mawr. Mae ein gallu i wneud gwelliannau pellach mewn allyriadau cwmpas un a dau yn gyfyngedig tu hwnt felly. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adleoli pedair swyddfa wlad ac ardal bellach (gan gynnwys ein prif swyddfa) i eiddo llai neu swyddfeydd â gwasanaeth, a fydd yn gostwng ein defnydd dros y tymor canolig – digwyddodd tri symudiad o'r fath yn 2018–19 a dyma'r rheswm dros y gostyngiad mewn allyriadau o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny. Fodd bynnag, roedd angen gwaith gosod ar ein prif swyddfa hefyd, gan arwain at ffigurau gwastraff pellach.

Fel rhan o'n rhaglen trawsnewid busnes, rydym wedi rhoi newidiadau ar waith a ddylai arwain at allyriadau carbon gostyngol pellach. Mae'r rhain yn cynnwys symud cyfrifiadura o'r adeilad i'r cwmwl, gwella polisïau gweithio o gartref; system desgiau poeth sy'n golygu bod gennym lai o ddesgiau na staff, gan alluogi ni i symud i adeiladau llai; a symud i bolisi lleoliad hyblyg o ran swyddfeydd a gweithio o gartref gan olygu y gall staff fyw yn agosach i'w cwsmeriaid a gostwng yr angen am deithio.

Mewn cydweithrediad â'n rheolwyr buddsoddi, rydym yn buddsoddi mewn cronfa, sef Cronfa Asedau Lluosog Elusennol Cazenove, sy'n targedu allyriadau cyfwerth carbon diocsid gostyngol. Mae gan bortffolio ecwiti'r Gronfa Asedau Lluosog Elusennol 20% yn llai o allyriadau carbon na'r byd MSCI (y portffolio meincnod), sy'n gyfwerth â 27 megatunnell o garbon diocsid; mae ein cyfran ni o hynny gyfwerth â defnydd ynni 143 o gartrefi bob blwyddyn. Yn unol â'n blaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 2020–21 a'r tu hwnt o gynaladwyedd amgylcheddol, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno i symud y buddsoddiadau yn ein cronfa waddol i gronfa Cazenove wahanol a dargedir yn fwy at fuddsoddi cyfrifol, gan ostwng ein heffaith ymhellach.

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr**

Allyriadau ynni uniongyrchol sy'n gysylltiedig â nwy a ddefnyddir mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir gan ddefnyddio system cyflyru aer yn ein pencadlys yn Llundain trwy ran o'r flwyddyn, Ebrill – Medi 2019. Deillir gwybodaeth am y defnydd o nwy mewn cilowat oriau o anfonebau ein cyflenwyr. Trawsnewidir cilowat oriau i dunelli cyfwerth carbon diocsid gan ddefnyddio ffactor trawsnewid a ddeillir o dablau Ffactorau Trawsnewid NTG Llywodraeth y DU ar gyfer Adroddiadau Cwmnïau. Mae'r tablau hyn ar gael yn www.gov.uk/government/publications/greenhouse-gas-reporting-conversion-factors-2019. Cyhoeddwyd y ffactorau diweddaraf sydd ar gael yn 2019.

Mae allyriadau ynni anuniongyrchol yn gysylltiedig â thrydan sydd wedi'i gynhyrchu gan sefydliadau eraill a werthir yn uniongyrchol i ni yn ogystal â gwresogi rydym yn ei brynu gan landlordiaid ein swyddfeydd trwy eu taliadau gwasanaeth. Ceir gwybodaeth am ddefnydd mewn cilowat oriau gan ein landlordiaid lle bo'n bosib, ond mae eu methodolegau'n gallu amrywio. Trawsnewidir cilowat oriau i gyfwerth carbon diocsid gan ddefnyddio'r ffactor trawsnewid perthnasol. Rydym yn ddibynnol iawn ar ein landlordiaid i wella effeithlonrwydd.

Rydym yn teithio gan fwyaf ar y rheilffordd ac mae ein prif gyflenwr tocynnau'n darparu manylion yr allyriadau cyfwerth carbon diocsid i ni ar gyfer pob taith a wneir. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwr hurio ceir yn darparu data i ni ar yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i staff ddiweddaru taenlenni adrannol gyda gwybodaeth am yr holl deithiau gan staff, ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor, aelodau panel arbenigol a chyflenwyr ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi (CGC) (i bob pwrpas y monitoriaid a mentoriaid yr ydym yn eu penodi i oruchwylio prosiectau rydym yn eu cyd-ariannu). Mae gan benaethiaid adran y dasg o sicrhau bod eu staff yn cofnodi eu teithiau i gyd. Trawsnewidir yr wybodaeth a gesglir i dunelli cyfwerth carbon diocsid gan ddefnyddio rhannau perthnasol yr un tablau o ffactorau trawsnewid.

**Gwastraff**

Cynhyrchwyd maint sylweddol uwch o wastraff yn 2019–20. Yn syml roedd hyn o ganlyniad i'r adleoliadau swyddfa a gwaredu llawer o'n harchif papur (mae'r archif papur wedi cael ei disodli gan gofnodion digidol). Roedd hyn yn arbennig o wir yn Llundain gan i ni symud o adeilad chwe llawr i swyddfa unllawr lawer llai o ran maint. Rhagwelwyd y cynnydd yn adroddiad blynyddol y llynedd ac rydym yn disgwyl i'r ffigur ailsefydlogi yn nes at y cyfartaledd hir dymor yn 2020–21.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus ynglŷn â chywirdeb y niferoedd yn gyffredinol oherwydd, fel a drafodir isod, nid oes unrhyw fesur dibynadwy o faint y gwastraff a gynhyrchwn gan y caiff ei gymryd i ffwrdd gan gynghorau, ac ni fyddai'n ddefnydd priodol o adnoddau i gaffael cyfarpar pwyso dim ond at ddiben gwella ein hadroddiad o'r ffigur hwn. Byddwn yn parhau i chwilio am ddatrysiad ymarferol i gyfrifo ffigur dibynadwy.

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid yw'n bosib dadansoddi ymhellach beth sy'n digwydd i'r gwastraff a gynhyrchir. Ac eithrio ymgyrch lanhau fawr yng nghyswllt newid ein prif swyddfa, cesglir yr holl wastraff na ailgylchir gan gynghorau lleol y swyddfeydd rydym yn gweithredu ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud gyda'r gwastraff ac rydym wedi gwneud tybiaethau o ran ble mae'r gwastraff yn mynd er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar dudalen 15.

Dim ond Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea sydd wedi'n hanfonebu ar wahân (pan fuom yn Holbein Place), ond rydym yn cynnwys cost gwaredu carpion papur yn ddiogel yn y ffigurau hefyd. Gwnawn bob ymdrech i ostwng maint y papur rydym yn ei ddefnyddio ac wedyn, yn anochel, ei daflu ac mae ein gwariant ar llungopïo wedi syrthio dros flynyddoedd diweddar wrth i ni annog staff i ostwng eu defnydd. Gwnaed hyn trwy ostwng nifer yr argraffyddion a mynnu bod staff yn mewngofnodi i'r peiriannau i gael eu printiadau. At hynny, mae ein swyddfeydd newydd yn llai o ran maint ac yn cynnig llawer llai o storfeydd, gan ddarbwyllo staff i ddefnyddio storfeydd electronig yn hytrach na phapur. O ganlyniad i hyn defnyddiwyd dau draean yn llai o bapur.

Mae ein swyddfeydd gwlad ac ardal yn ddigon bach i bwyso'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu. Nid oes unrhyw ddull dibynadwy o fesur y maint llawer mwy sylweddol o wastraff a gludir i ffwrdd gan Fwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea neu Bwrdeistref Llundain Tower Hamlets gan nad yw'r cyngor yn ein hysbysu am bwysau'r gwastraff y maent yn mynd ag ef i ffwrdd.

Gan hynny rydym wedi amcangyfrif maint y gwastraff a gynhyrchir fesul unigolyn yn seiliedig ar amcangyfrif o bwysau sach safonol o wastraff.

**Defnyddio adnoddau**

Cododd y defnydd o ddŵr yn sylweddol yn 2019–20. Am y rhesymau a nodwyd uchod, roeddem yn ddeiliad mewn dwy brif swyddfa am hanner y flwyddyn ac felly mae defnydd uwch i'w ddisgwyl. Lle bo'n bosib rydym yn darbwyllo ein landlordiaid/darparwyr swyddfeydd â gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth am y nifer o fetrau ciwbig o ddŵr a ddefnyddir, sydd fel arfer yn seiliedig ar y gofod sydd gennym yn hytrach na mesuryddion unigol.

Mae'n rhaid i ni dderbyn bod gan y tywydd ac ar gyfer 2020–21 yn unig, rwy'n gobeithio, cyfnod clo'r coronafeirws, fwy o ddylanwad dros ein defnydd nag unrhyw welliannau y gallwn eu gwneud i'n heffeithlonrwydd ynni.



**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2020

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CGDG a sut y maent yn cefnogi cyflawni ein hamcanion.

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

### Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

**Cadeirydd**
René Olivieri
Cadeirydd Dros Dro o 1 Ionawr 2020

Syr Peter Luff
tan 31 Rhagfyr 2019

**Ymddiriedolwyr**
Maria Adebowale-Schwarte [1]
Y Farwnes Kay Andrews OBE
Anna Carragher
tan 6 Hydref 2019
Jim Dixon
Dr Claire Feehily [1]
Sarah Flannigan
Perdita Hunt DL, OBE [1]
Ray Macfarlane
o 1 Ebrill 2020
Steve Miller
tan 17 Chwefror 2020
Dr David Stocker
Dr Tom Tew
tan 19 Ionawr 2020

**Prif Weithredwr**
Ros Kerslake OBE

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Gellir dod o hyd i fanylion aelodau staff uwch eraill yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff ar dudalen 31.

Roedd rhaniad ein staff o ran rhyw (gan gynnwys y rhai ar gontractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar weithgareddau gysylltiedig â'r Loteri Genedlaethol a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2020 ar sail cyfrif pennau fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr gweithredol | 1 | 3 | **4** |
| Staff | 74 | 214 | **288** |
| Ymddiriedolwyr | 3 | 6 | **9** |

### Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn diarddel eu hunain o'r prosesu arfarnu, trafod a gwneud penderfyniad ar y grant perthnasol gyda CGDG. Yn eu cysylltiadau gydag ymgeiswyr grant, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr CGDG. Ceir trefniadau cyfatebol er mwyn i staff adrodd buddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – www.heritagefund.org.uk/cy.

### Datblygiadau'r dyfodol

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019–20 gwelwyd dechrau'r pandemig COVID-19, sydd wedi cael effeithiau uniongyrchol ac amlwg ar y byd treftadaeth yn ogystal ag effeithiau llai amlwg a fydd yn parhau am amser hir. Bydd y rhai hyn yn parhau i gael eu teimlo dros y blynyddoedd i ddod.

Ein hymateb i'r pandemig yw gohirio gwneud grantiau arferol am nifer o fisoedd yn 2020–21 a rhoi pecyn cyllid argyfwng yn eu lle a dargedir at gadwraeth y dreftadaeth rydym wedi'i chefnogi gyda'n grantiau dros y blynyddoedd. Rydym yn neilltuo £50miliwn sydd wedi'i dargedu ar draws sbectrwm y sector treftadaeth a'i lansio ar adegau gwahanol:

- cyllid argyfwng rhwng £3,000 a £50,000 a lansiwyd ym mis Ebrill 2020
- cyllid argyfwng rhwng £50,000 a £250,000 a lansiwyd ym mis Mai 2020
- caffael ceisiadau ariannu'n uniongyrchol gan sefydliadau allweddol penodol
- defnyddio arbenigedd ein cofrestr gwasanaethau cefnogi (sef CGC) i ddarparu arweiniad ar gyfer sefydliadau treftadaeth sy'n wynebu anawsterau
- bod yn agored i geisiadau am gynnydd yn swm y grant yn achos prosiectau sy'n wynebu anawsterau a grëwyd gan y cyfnod clo
- ehangu'r defnydd o fenthyciadau

Byddwn yn parhau i gyflwyno'n unol â'n Fframwaith Ariannu Strategol y Loteri Genedlaethol sy'n trafod

sut y byddwn yn ariannu prosiectau treftadaeth rhwng 2019 a 2024. Byddwn yn cyflwyno ein system weithredu newydd yn ystod y 12 mis nesaf a fydd yn galluogi ni i brosesu, goruchwylio ac adrodd ar geisiadau grant yn fwy effeithlon.

Yn 2018 fe greom strategaeth gorfforaethol, i ddisgrifio ein gweledigaeth ar gyfer rôl y Gronfa dros y tair blynedd rhwng 2018 a 2021. Rydym yn ymgymryd â llawer o'r gwaith hwn gan ddefnyddio ein brand Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym yn achub ar y cyfle i adnewyddu'r strategaeth ac yn datblygu ein cynllunio ar gyfer y strategaeth ddilynol. Byddwn yn barnu effaith y pandemig ar y sector treftadaeth ac yn defnyddio'r arsylwadau hyn i bennu strategaeth tymor hir. Gan ddefnyddio ein cymorth grant, ein cyllid gan y Loteri Genedlaethol a ffynonellau ariannu eraill byddwn yn pennu strategaeth sy'n diwallu anghenion y sector wrth gefnogi treftadaeth y DU.

### Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn gwneud darpariaeth i gyfrifon blynyddol CGDG gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn estyn hwn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

### Rhanddeiliaid allweddol

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid ac yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a pholisïau ac arfer gwneud grantiau. Yn eu plith mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategol a chyrff treftadaeth arweiniol ynghyd â meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllid ar draws y DU, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae DCMS yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi DU gyfan (gweler tudalennau 65 i 75) ac yn rheoli CDLG sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir gan Y Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth Yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

### Ychwanegedd

Yn unol â chyfarwyddyd ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol roi ystyriaeth i egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau'r Loteri Genedlaethol yw y dylai ein cyllid fod yn ychwanegol at y cyllid sydd ar gael gan y llywodraeth yn hytrach na'i ddisodli. Ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau y tybiwn yr oedd cyllid gan y llywodraeth ar gael ar eu cyfer ar adeg y penderfyniad. Fel rhan o'n hasesiad grant rydym yn gofyn i ymgeiswyr wneud achos clir dros fuddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol gan gynnwys dweud wrthym ba ffynonellau ariannu eraill sydd wedi cael eu hystyried.

### Data personol

Nid yw CGDG wedi cael unrhyw achosion o ddatgelu data'n anfwriadol i drydydd parti ac ni wnaed unrhyw adroddiad i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chydsyniad Trysorlys EM. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â llawlyfr adrodd ariannol y llywodraeth (LIAA) ac yn benodol:

- i) glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- ii) ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
- iii) datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn LIAA wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol

iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu

Penododd prif Swyddog Cyfrifyddu DCMS yr uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Pan fu'r Prif Weithredwr ar absenoldeb salwch tymor hir am ran o'r flwyddyn, gwnaed y Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyflwyno Busnes, yn Swyddog Cyfrifyddu gweithredol. Mae eu cyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros ddiogelu asedau'r Gronfa a thros gadw cofnodion priodol, wedi'u disgrifio yn yr adran sydd â'r teitl 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod yr adroddiad a chyfrifon blynyddol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mai hi sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol.

## Datganiad Llywodraethu

### Rhagair

Rwyf wedi bod yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ers mis Gorffennaf 2016. Yn ystod cyfnod o absenoldeb rhwng mis Rhagfyr 2019 a 30 Ebrill 2020, gweithredodd Eilish McGuinness fel Swyddog Cyfrifyddu.

Yn dilyn Adolygiad Llywodraethu yn 2019–20 gwnaed nifer o newidiadau yn ein mesurau rheoli llywodraethu a mewnol sydd wedi'u disgrifio yma. Rwyf wedi fy modloni y bu trefniadau trawsnewidiol cadarn a phriodol a alluogodd i'r system mesurau rheoli mewnol weithredu'n effeithiol trwy gydol y cyfnod hwn.

### Cyflwyniad

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys sut rydym yn rheoli risg a sut rydym yn cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: côd arfer da, a gyhoeddwyd yn 2017 gan y Trysorlys a Swyddfa'r Cabinet.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'n ofynnol i mi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant a chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd diogelu'r cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a aseinir mi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol gan i mi gredu bod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, y mae'n cwmpasu dosbarthiad cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol.

### Adolygiad Llywodraethu

Fel a amlinellwyd yn yr adroddiad y llynedd, comisiynwyd adolygiad annibynnol o'n llywodraethu mewnol yn 2019–20. Gan ddilyn ymarfer caffael, penodwyd Campbell Tickell i ymgymryd â'r adolygiad. Ymgymerwyd â'r adolygiad yn chwarter cyntaf y flwyddyn a chyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019. Mynegodd y Bwrdd gefnogaeth dros y rhan fwyaf o'r canfyddiadau ac argymhellion, a pharatôdd y tîm Cyfreithiol a Llywodraethu gynllun gweithredu ar gyfer y prif argymhellion. Wedi hynny, adolygwyd hwn nifer o weithiau gan y Bwrdd sy'n parhau i dracio cynnydd wrth gyflwyno'r argymhellion.

Y prif feysydd o argymhellion a fabwysiadwyd oedd:


- symud i nifer llai o ymddiriedolwyr (9 neu 10)
- cael ymddiriedolwyr i gadeirio pwyllgorau ardal yn Lloegr fel bod trefniadau'r rhain yn debyg i bwyllgorau Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

- datblygu matricsau sgiliau ar gyfer ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor sy'n ymdrin â sgiliau busnes, llywodraethu corfforaethol a threftadaeth
- adnewyddu cylch gorchwyl y Bwrdd a'i bwyllgorau
- mewn cydweithrediad â DCMS, adolygu tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr i gynorthwyo wrth ddatblygu lluosogrwydd ac amrywiaeth well ar draws ymddiriedolwyr
- ymgymryd ag adolygiad mewnol tebyg gyda'r un amcan ar draws aelodau pwyllgor
- ennyn diddordeb a mapio rhanddeiliaid yn well a gwella integreiddio ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor i'r rhain
- gwella ymgynefino a hyfforddiant amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiad ynghyd ag arfarniadau perfformiad ar gyfer ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor
- cau'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau i lawr a symud ei swyddogaethau i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth
- creu Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth i oruchwylio rolau ymddiriedolwyr, tâl cydnabyddiaeth a chefnogi penodiadau
- cadw'r panel ymgynghorol ar gyfer gweithgareddau'r Gronfa Goffa

## Strwythur llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu CGDG yn ystod 2019–20 wedi'i ddisgrifio yn y diagram isod. Parhaodd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel a ddisgrifir, ond daeth gweithrediadau'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau i ben o 31 Mawrth 2020 gan ddilyn argymhelliad yn yr Adolygiad Llywodraethu.

Disodlwyd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth blaenorol yn y flwyddyn gan Grŵp Strategaeth a Pherfformiad newydd (gweler tudalen 24).




## Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau rhaglenni grant a gweinyddu
- goruchwylio rheolaeth gyffredinol gweithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, wyth cyfarfod yn ystod y flwyddyn i bennu polisïau CGDG a gwneud penderfyniadau'n unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr gweithredol. Roedd yr holl gyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn 2019–20 yn ffurfio cworwm. Syr Peter Luff oedd Cadeirydd CGDG tan 31 Rhagfyr 2019 a thrwy gydol y cyfnod hwnnw cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng y cadeirydd, y Prif Weithredwr a staff uwch. Cymerodd René Olivieri drosodd fel Cadeirydd dros dro o 1 Ionawr 2020 – parhaodd trefniadau tebyg yn eu lle o'r dyddiad hwnnw.

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o ymddiriedolwyr gan gynnwys y Cadeirydd. Penodwyd un ymddiriedolwr newydd ac ymddeolodd pedwar ymddiriedolwr yn 2019–20.

Cymeradwywyd y newidiadau hyn gan ein hadran noddi – DCMS a'r Prif Weinidog (gan y daw penodiadau ymddiriedolwyr o fewn cylch gwaith y Prif Weinidog).

Yn dilyn argymhelliad gan yr Adolygiad Llywodraethu, penderfynwyd gostwng nifer yr ymddiriedolwyr (yn ymarferol) i naw neu ddeg o 2020–21. Bydd ymgyrchoedd recriwtio'n adlewyrchu'r penderfyniad hwnnw dros y flwyddyn neu ddwy i ddod.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 79%. Mae ymddiriedolwyr wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r ddau bwyllgor a ddangosir uchod hefyd – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheolwyr ac yn darparu arweiniad a chefnogaeth i staff uwch. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgor yn eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd trwy gydol 2019–20 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff<br>tan 31 Rhagfyr 2019 | 6 | 6 |
| René Olivieri | 8 | 7 |
| Maria Adebowale-Schwarte | 8 | 7 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | 8 | 4 |
| Anna Carragher<br>tan 6 Hydref 2019 | 4 | 4 |
| Jim Dixon | 8 | 8 |
| Dr Claire Feehily | 8 | 7 |
| Sarah Flannigan | 8 | 8 |
| Perdita Hunt DL, OBE | 8 | 6 |
| Ray Macfarlane<br>o 1 Ebrill 2020 | 8 | 8 |
| Steve Miller<br>tan 17 Chwefror 2020 | 6 | 6 |
| Dr David Stocker | 8 | 8 |
| Dr Tom Tew<br>tan 19 Ionawr 2020 | 6 | 5 |

### Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 13 o ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn, roedd 46% yn fenywaidd a 54% yn wrywaidd. Daeth un (8%) o leiafrif ethnig.

### Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Ar ddechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd, gofynnir i'r holl ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Nodir y rhain yn y cofnodion pan bennir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd ymddiriedolwyr a staff yn tynnu allan o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny. Mae ymddiriedolwyr a staff yn gyfrifol hefyd am sicrhau y cynhelir cofnodion yn y Gofrestr Buddiannau a'u bod yn cael eu diweddaru fel y bo angen.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r pwyllgor ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn a bu cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeiriwyd gan ymddiriedolwr.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyflwyno Busnes a Gwasanaethau Busnes – bu staff eraill yn bresennol fel y bo angen. Cefnogwyd a gwasanaethwyd y pwyllgor gan dîm Cyfreithiol a Llywodraethu'r Gronfa. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (BDO) y Gronfa'n mynychu'r cyfarfod hefyd. Mae'r pwyllgor yn cynnal sesiynau yn y dirgel eu hunain cyn cyfarfodydd a hefyd trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn ychwanegol at ymddiriedolwyr, mae aelodau annibynnol anweithredol yn aelodau o'r pwyllgor hefyd – sef David Michael a Carole Murray.

Yn ystod y flwyddyn ailbenodwyd BDO fel archwilwyr mewnol mewn ymarfer caffael ar y cyd ochr yn ochr ag UK Sport a Sport England. Cytunodd y pwyllgor ar strategaeth archwilio dros nifer o flynyddoedd gyda BDO pan gawsant eu penodi ac roedd yr adolygiadau a gyflawnwyd yn 2019–20 ac a adroddwyd i'r pwyllgor yn cyfateb i'r dull strategol hwnnw. Cymeradwyir cynllun un flwyddyn manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Derbyniodd y pwyllgor adroddiadau ar:

- deithio a chynhaliaeth
- mesurau rheoli ariannol allweddol
- datblygu'r System Rheoli Buddsoddi newydd
- yr ymgyrch ddigidol
- y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
- cynllunio olyniaeth
- newid diwylliant

Rhennir cofnodion y pwyllgor gyda'r Bwrdd. Mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor hefyd.

Mae'r pwyllgor yn adolygu adroddiadau a chyfrifon blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd. Yn ystod 2019–20, yn ychwanegol at yr adroddiadau a chyfrifon uchod, ystyriodd y pwyllgor y canlynol:

- y trefniadau ar gyfer parhau â'r prosesau rheoli risg ar lefel adrannol
- ymchwilio'n fanwl i risg a chyflwyno prosiectau a gweithgareddau sylweddol ar draws y Gronfa
- achosion o dwyll a honiadau o dwyll
- trefniadau caffael gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol

Ym mis Tachwedd 2019 torrodd ein system rheoli grantiau i lawr am bum niwrnod gwaith. Parhaodd y porth cwsmeriaid allanol yn weithredol. Achoswyd y diffoddiad wrth drawsnewid i amgylchedd gweithredu seiliedig ar gwmwl. Ni chollwyd neu

ddifrodwyd unrhyw ddata ac ni brofwyd unrhyw aflonyddwch sylweddol i ymgeiswyr neu grantïon. Er hynny, comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r diffoddiad. Adolygwyd hyn gan y pwyllgor a'r Bwrdd. Derbyniwyd yr argymhellion gan y Weithrediaeth a mabwysiadwyd cynllun gweithredu ar gyfer y newidiadau hyn.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor trwy gydol 2019–20 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Claire Feehily<br>Cadeirydd | 4 | 4 |
| Maria Adebowale-Schwarte<br>o 1 Chwefror 2019 | 4 | 3 |
| David Michael | 4 | 4 |
| Steve Miller<br>tan 17 Chwefror 2020 | 4 | 4 |
| Carole Murray | 4 | 4 |

**Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau**

Cyfarfu'r pwyllgor ar dri achlysur yn ystod y flwyddyn a bu cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeiriwyd gan ymddiriedolwr.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod pwyllgor fel aelod. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyflwyno Busnes a Gwasanaethau Busnes yn mynychu'r cyfarfodydd, ac mae staff uwch eraill yn bresennol fel y bo angen. Cefnogwyd a gwasanaethwyd y pwyllgor gan y tîm Cyfreithiol a Llywodraethu.

Roedd gan y pwyllgor oruchwyliaeth o fesurau rheoli staffio a recriwtio a weithredwyd gan uwch reolwyr. Yn ystod y flwyddyn adolygodd a chymeradwyodd y pwyllgor y canlynol hefyd:

- cyfrifon rheoli a gwybodaeth rheoli ariannol (gan gynnwys targedau effeithlonrwydd)
- data perfformiad yn erbyn safonau gweithredol a gwasanaeth
- data rheoli perfformiad arall
- data am lefelau staffio a phersonél megis absenoldeb salwch, gwariant ar hyfforddi a datblygu
- cynigion buddsoddi mewn TG
- strategaethau gweithredol ar gyfer TG, Ystadau, AD a Chyllid

Cymeradwyodd y pwyllgor y cyllidebau arfaethedig ar gyfer rhaglenni grant a gweinyddu i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Argymhellodd y pwyllgor Gynllun Busnes 2019–20 hefyd.

Gweithredodd y pwyllgor drosolwg o'r rhaglen Trawsnewid Busnes trwy gydol y flwyddyn hefyd, gan dderbyn diweddariadau panel rheoli misol.

Rhannwyd cofnodion cyfarfod y pwyllgor gyda'r Bwrdd. Rhoddodd cadeirydd y pwyllgor ddiweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor trwy gydol 2019–20 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| René Olivieri<br>Cadeirydd | 3 | 3 |
| Steve Blake | 3 | 2 |
| Sarah Flannigan | 3 | 3 |
| Perdita Hunt DL, OBE | 3 | 2 |
| Syr Peter Luff<br>tan 31 Rhagfyr 2019 | 3 | 3 |

Gan ddilyn argymhelliad yr Adolygiad Llywodraethu, cafodd y pwyllgor ei ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2020.

**Dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau**

Yn 2019–20 dirprwyodd y Bwrdd wneud penderfyniadau ar gyfer rhai grantiau i is-set o ymddiriedolwyr sy'n gweithredu fel paneli'r Bwrdd. Ymdriniodd hyn â phenderfyniadau ar gyfer y rhaglenni grant a ganlyn:

- Parks for People (yn Lloegr roedd hwn yn banel ar y cyd gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)

Rydym yn disgwyl i'r trefniad hwn ddod i ben yn 2020–21 pan ddaw cam gwneud penderfyniadau'r rhaglen Parks for People i ben – bydd y prosiectau'n parhau am nifer o flynyddoedd.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o grantiau Loteri i bwyllgorau gwlad ac, yn Lloegr, pwyllgorau ardal. Yn dilyn ein haildrefnu mewnol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019, mae chwech o'r pwyllgorau hyn (tair gwlad a thair ardal o Loegr) ac roedd pob un yn cynnwys ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau grant, mae'r pwyllgorau hyn yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal ac yn gweithredu fel

eiriolwyr dros waith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cyfarfu cadeiryddion y pwyllgorau gwlad ac ardal â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd â staff uwch yn ystod y flwyddyn. Bydd 2020–21 yn parhau fel blwyddyn drawsnewidiol gan y disgwylir i aelodau pwyllgor ac ymddiriedolwyr newydd gael eu penodi. O 2021–22, bydd pob pwyllgor gwlad ac ardal wedi'i gadeirio gan ymddiriedolwr.

Mae aelodau newydd y pwyllgorau hyn yn cael cyfnod ymgynefino ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr a staff uwch trwy gydol y flwyddyn gan ddibynnu ar y cylch recriwtio a phenodi.

Hefyd, mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau o dan £100,000 i staff, yn benodol cyfarwyddwyr gwlad ac ardal. Cyflwynir adroddiad blynyddol am effaith grantiau wedi'u dirprwyo ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Adroddir yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff i'r Bwrdd.

### Incwm gan y Loteri Genedlaethol

Rydym wedi parhau i gydweithio â'r Comisiwn Hapchwarae, DCMS a Camelot (gweithredwr y Loteri Genedlaethol) i ddeall y data y tu ôl i ragamcaniadau incwm y Loteri Genedlaethol ac asesu risgiau a chyfleoedd y gwaith hwn.

Yn dilyn adolygiad strategol Camelot o'i gynlluniau a gweithrediadau yn hydref 2017, parhaom i gydweithio â nhw a gyda phartneriaid eraill ar weithrediad ymarferol eu cynlluniau lle mae hyn yn gorgyffwrdd yn ein maes ni; er enghraifft, wrth hybu'r fenter Un Loteri Genedlaethol. Bu i ni fanteisio hefyd ar ben-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed yn hydref 2019 i hybu'r achosion da ym maes treftadaeth gan y Loteri Genedlaethol.

Cymerom gamau i ostwng pa mor agored y mae'r Gronfa'n ariannol o ganlyniad i'n hymrwymiadau posib ac, er y bu'r rhain yn benderfyniadau anodd eu gwneud o safbwynt treftadaeth, mae'r camau hyn wedi gostwng pa mor agored yr ydym ac mae ein dangosyddion ariannol allweddol wedi symud i'r cyfeiriad cywir ac yn parhau i wneud hynny.

Mae'n ddymunol bod y lefelau incwm go iawn a rhagamcanedig wedi sefydlogi a'r darlun wedi gwella – yn wir gwelwyd cynnydd mewn incwm yn 2019–20, ac mae gennym well hyder o ran incwm dros y blynyddoedd nesaf. Er hynny, rydym wedi parhau'n ddarbodus wrth ystyried risg yn y rhagamcaniadau hynny er mwyn rheoli sefyllfa ddirywiol petai hynny'n digwydd. Byddwn yn parhau i reoli risg cystadleuaeth drwydded y Loteri Genedlaethol dros y flwyddyn neu ddwy i ddod.

### Gweithrediaeth a Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP)

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Yn flaenorol cefnogwyd y Prif Weithredwr gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Yn unol â'n haildrefniad, newidiodd hyn yn effeithiol o Ebrill 2019.

Daeth Gweithrediaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri chyfarwyddwr gweithredol i rym ar gyfer pob adran. Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am faterion rheolaeth strategol ehangach ac mae hefyd yn gweithredu fel Bwrdd Rhaglen ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Busnes (gweler isod). Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd yn wythnosol.

Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cynnwys uwch gyfarwyddwyr a staff ar draws y tair adran ac mae ganddo gyfrifoldeb dros sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Cyfarfu'r GSP yn chwarterol a daeth y Weithrediaeth i ddau o'r cyfarfodydd hyn.

Mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn darparu adroddiad misol i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion sydd o fewn eu cylch gwaith.

### Dyluniad a strwythur y sefydliad

Yn ystod y flwyddyn gweithredodd y Prif Weithredwr strwythur tair adran o:

- Arloesedd a Mewnwelediad Busnes (strategaeth, polisi, data a mewnwelediad ynghyd â marchnata a chyfathrebu)
- Cyflwyno Busnes (cyflwyniad gweithredol)
- Gwasanaethau Busnes (swyddogaethau cefnogi)

Datblygir y cynllun gweithredu blynyddol – y Cynllun Busnes – bob blwyddyn ochr yn ochr â chynllunio cyllidebau ariannol a rhaglenni buddsoddi. Fel yn y blynyddoedd blaenorol bu i ni integreiddio rheoli risgiau'n agos i'r broses cynllunio busnes. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, DCMS. Mae DCMS hefyd yn pennu cyfarwyddiadau polisi yr ydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â

gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn y gwledydd hynny hefyd ac rydym wedi cydymffurfio â nhw.

Rydym yn gweithredu'n unol â Chytundeb Rheoli a Memorandwm Ariannol rhyngom ni a DCMS. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion DCMS a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol.

### Strategaeth gorfforaethol

Yn 2017 cydnabuwyd, yn ychwanegol at y cynlluniau/fframweithiau llwyddiannus yr ydym wedi'u gweithredu'n hanesyddol ar gyfer rhoi grantiau'r Loteri Genedlaethol, bod angen strategaeth gorfforaethol sefydliadol ehangach hefyd i bennu cyfeiriad y sefydliad ac i'n helpu i gynllunio ac ymateb i heriau, risgiau a chyfleoedd y dyfodol.

Yn 2018 lansiwyd ein strategaeth gorfforaethol a ddarparodd 'fantell drosgynnol' ar gyfer ein gweithgareddau ar lefel uchel. Fe'i cefnogir gan ystod o ymatebion corfforaethol eraill sy'n darparu mwy o fanylder mewn meysydd gweithredol, strategol a pholisi eraill, gan gynnwys:

- lansio ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd ym mis Ionawr 2019
- ein Cynlluniau Busnes
- ein cynllun gweithredu ar gyfer argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra
- rhaglen Trawsnewid Busnes
- strategaethau busnes ar gyfer meysydd swyddogaethol unigol, e.e. ein Strategaeth Ddigidol

Bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau fel ein ffynhonnell incwm fwyaf arwyddocaol dros y blynyddoedd i ddod, ac yn ffocws y mwyafrif o'n gweithgareddau.

Mae'r strategaeth gorfforaethol yn atgyfnerthu'r cyfeiriad yr ydym wedi'i gymryd ers nifer o flynyddoedd, gan ddisgrifio ein rôl fel y ffynhonnell gyllid fwyaf ar gyfer treftadaeth ar draws y DU, a chan gymryd camau pellach tuag at sefyllfa arweinyddiaeth gryfach, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau pur. Y nod yw symbylu newid a chynyddu ein heffaith ar draws treftadaeth y DU trwy gryfhau ein rôl arweinyddiaeth a sefyll i fyny dros y buddion y gall treftadaeth eu cyflwyno i gymdeithas.

Yn 2019–20 adnewyddwyd y strategaeth a chytunwyd ar bum canlyniad ar gyfer cyflwyno'r strategaeth yn llwyddiannus, sef:

- mwyafu effaith a gwerth treftadaeth fel grym pwerus a phositif ar fywyd pobl a lleoedd ar draws y DU a'n hamgylchedd
- bydd ein buddsoddiadau, gweithrediadau a phartneriaethau'n symbylu gweithredu i daclo'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol
- bydd treftadaeth yn cynnwys ystod ehangach o bobl a bydd yn fan diogel i ymchwilio i'n gorffennol a chreu dealltwriaeth well ar gyfer ein presennol a'n dyfodol
- bydd treftadaeth y DU mewn sefyllfa gref i achub ar gyfleoedd ac ymateb i heriau trwy fod yn fentrus, edrych tua'r dyfodol ac yn barod i addasu
- bydd ein pobl yn y Gronfa'n cael eu cefnogi a'u grymuso i gyflwyno'r newidiadau rydym eisiau eu gweld

Yn y flwyddyn, dechreuwyd gweld y camau cyntaf o amrywiaethu ein cyllid – cynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar brosiectau treftadaeth amgylcheddol – yn ogystal ag amrywiaethu ein dulliau buddsoddi trwy greu cronfa effaith ar y cyd ar gyfer celf a diwylliant sy'n cyfuno cyd-ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol a chyfalaf sector preifat.

Ymgymerom â darn sylweddol o waith ar ein pwerau ac awdurdodau a byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chymheiriaid yn DCMS wrth symud hwn ymlaen yn ystod 2020–21.

### Fframwaith Ariannu Strategol

Lansiwyd ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd ym mis Ionawr 2019. Mae'r fframwaith newydd hwn, sydd mewn grym rhwng 2019 a 2024, yn cynrychioli datganoliad gwneud penderfyniadau sylweddol ar draws y DU gyfan fel rhan o'n cynigion i ddosbarthu mwy nag £1biliwn o arian y Loteri Genedlaethol i dreftadaeth y DU.

Bydd penderfyniadau ar tuag 80% o holl grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gwneud yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghyd â thair ardal newydd yn Lloegr.

Mae ein dull newydd yn cynnwys:

- ffocws sylweddol ar natur, cymunedau a sicrhau y gall pawb fwynhau treftadaeth – tair blaenoriaeth bennaf y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad
- modelau buddsoddi newydd, gan symud y tu hwnt i grantiau i gynnwys benthyciadau a phartneriaethau, sydd wedi'u dylunio i ddenu eraill i fuddsoddi arian ochr yn ochr â'r Loteri Genedlaethol
- mwy o gefnogaeth ar gyfer dulliau masnachol, cynaliadwy o daclo treftadaeth sydd mewn perygl o gael eu colli
- buddsoddiad a chefnogaeth i helpu sefydliadau treftadaeth i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol
- canlyniad mandadol sy'n mynnu bod pob prosiect a ariannwn yn dangos cynhwysiad
- gofyniad i bob prosiect treftadaeth sy'n derbyn cyllid fod yn llesol i'r amgylchedd
- prosesau ariannu symlach, mwy effeithlon ac wedi'u rhesymoli
- ymgysylltiad a chefnogaeth well i helpu 13 o gymunedau difreintiedig sydd wedi bod yn llai llwyddiannus wrth sicrhau cyllid yn y gorffennol
- cefnogaeth barhaus ar gyfer prosiectau graddfa fawr eiconig dros £5miliwn (er bod y pandemig wedi gohirio ein cynlluniau yn y maes hwn)

Mae ein portffolio buddsoddi, sy'n symlach ac yn haws cael mynediad iddo, yn cynnwys:

- Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth – rhaglen agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth rhwng £3,000 a £5miliwn
- ymgyrchoedd ariannu treftadaeth a ddylunnir i fodloni anghenion strategol neu fylchau mewn ariannu. Canolbwyntiodd y ddwy ymgyrch gyntaf yn 2019 ar helpu:
  - sefydliadau i adeiladu ei galluedd a chydnerthedd sefydliadol
  - adeiladu galluoedd digidol
- cyllid ar y cyd i gyflwyno mentrau strategol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis y bartneriaeth Future Parks Accelerator gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- buddsoddiadau cymdeithasol fel cronfeydd effaith a benthyciadau
- dwy rownd o grantiau mawr dros £5miliwn yn 2020–21 (wedi'u gohirio yn ystod y pandemig COVID-19) a 2022–23

Mae'r dull a phortffolio cyffredinol yn adlewyrchu'r ymarfer ymgynghori cynhwysfawr a gyflawnwyd gennym yn 2017–18 gyda chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhanddeiliaid allweddol ar draws y sectorau treftadaeth.

Mae'r ymateb i'r fframwaith wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi cael ei groesawu ar draws y sector a'r DU. Lansiwyd ein hymgyrch ddigidol newydd yn 2019–20 i ddarparu buddsoddiad a gwella sgiliau ar draws y sector yn y maes hollbwysig hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r fframwaith ac ymgyrchoedd newydd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y sector.

**Rhaglen Trawsnewid Busnes**

Fel pob sefydliad, gan gynnwys y rhai llwyddiannus, rydym yn cydnabod bod angen i ni addasu a newid sut rydym yn gweithio'n unol â'r hinsawdd newidiol yr ydym yn gweithio oddi mewn iddi. At hynny, er mwyn cyflwyno ein strategaeth gorfforaethol bydd angen i ni newid ein ffordd o weithio.

Mae'r hinsawdd honno wedi newid yn wleidyddol, er enghraifft ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a'r trefniadau datganoli sy'n parhau ar draws y DU yw rhai o'r newidiadau hynny. Mae'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn un arall. Mae'r strategaeth gorfforaethol yn pwyntio ni mewn cyfeiriadau eraill yn ychwanegol at ein busnes craidd.

Cadarnhaodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn 2017 y cyfeiriad teithio hwnnw, y camau a gymerwyd hyd yma ac mae wedi rhoi'r dasg i ni o fynd ymhellach.

Gan hynny rydym wedi sefydlu rhaglen trawsnewid busnes i newid y ffordd yr ydym yn gweithio a sut rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw. Gwelodd 2018–19 gynllunio cychwynnol a chyflwyniad cychwynnol y gwaith hwn ac mae 2019–20 wedi gweld blwyddyn o gyflwyno a gweithredu'n llawn.

Nodau'r rhaglen yw cyflwyno a chefnogi'r:

- strategaeth gorfforaethol tair blynedd newydd gan gynnwys adnewyddiad yn 2019–20
- Fframwaith Ariannu Strategol y Loteri Genedlaethol sy'n symlach ac â mwy o ffocws ar y cwsmer
- proses a system rheoli grantiau sydd wedi'i gwella'n radicalaidd yn 2020–21

- trawsnewidiad TG sy'n cefnogi effeithlonrwydd gweithredol a boddhad cwsmeriaid
- yr isadeiledd corfforaethol (sgiliau, strwythur, gwasanaethau cefnogi) i gefnogi ein cyfeiriad strategol
- dulliau gweithio mwy ystwyth a diwylliant cryfach a mwy cadarnhaol

Rydym wedi alinio gwaith y rhaglen i dair brif ffrwd waith. Dyma nhw:

1. Siapio ein Busnes (ein dyluniad sefydliadol, diwylliant, sgiliau, pobl a llywodraethu)
2. Lleoli ein Busnes (ein hystâd ac amgylchedd gwaith)
3. Cyflwyno ein Busnes (ein TG, trawsnewidiad digidol)

Yn 2019–20 fe gyflwynom:

- ddyluniad sefydliadol newydd ar draws y Gronfa
- trawsnewidiad TG wrth i ni gyflwyno technoleg Office365, llwyfannau newydd seiliedig ar gwlwm a threfniadau gweithio ystwyth/hyblyg i'r holl staff
- technoleg symudol ar gyfer yr holl staff
- buddsoddiad cynyddol mewn offer, sgiliau a hyfforddiant newydd ar gyfer ein holl staff
- trefniadau llywodraethu newydd ar draws y Gronfa yn sgil ein Hadolygiad Llywodraethu
- digideiddio ein holl gofnodion copi caled
- ein brandio a hunaniaeth newydd fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
- adnewyddu ein gwefan, arweiniad a ffurflenni
- symud nifer o leoliadau swyddfa i swyddfeydd â gwasanaeth hyblyg
- symud swyddfa Llundain i safle newydd yn St Katharine Docks
- creu tîm digidol newydd i ymchwilio i fewnwelediad cwsmeriaid, dealltwriaeth a dylunio ein gwasanaethau digidol
- parhau i symud rolau a swyddogaethau allan o Lundain i gefnogi agenda Twf Lleoedd y llywodraeth
- adnewyddu ein gwerthoedd corfforaethol o ran cefnogaeth fframwaith ymddygiadol newydd a fydd yn arwain at fframwaith recriwtio a system rheoli perfformiad newydd yn 2020–21
- tîm diwylliant, wedi'i gefnogi gan eiriolwyr diwylliant, sy'n gweithio ar draws y sefydliad i sicrhau bod ein diwylliant yn adlewyrchu ein gwerthoedd

**Rheoli risg a rheoli mewnol**

Dylunnir ein system rheoli risg a rheoli mewnol i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion – gan hynny ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol nid sicrwydd llwyr. Yn benodol, rwy'n glir na ddylai rheoli risg atal arloesedd neu newidiadau i'r busnes pan fydd angen hynny. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus y mae ei nod yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion a gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe bai'r gwireddiad hynny'n digwydd.

Cyfeirir pennu'r holl bolisïau a gwneud penderfyniadau grant gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl bu i ni ddiwygio ein dull rheoli risg fel rhan o ymarfer sicrwydd ehangach ar draws CGDG. Rydym wedi parhau i weithredu'r dull hwn yn 2019–20.

Mae'r cofrestri risg a'r broses sylfaenol yn aseinio perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno yn effeithiol. Mae'r cofrestri hefyd yn nodi risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luosi' yn cael ei hystyried. Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel ei fod yn bosib barnu'r effeithiolrwydd mesurau rheoli a'r mecanwaith sydd eisoes yn bodoli ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn galluogi perchennog y risg i adnabod mesurau pellach y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr awydd a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau hynny.

Adolygodd y Bwrdd ei awydd am risg ar gyfer 2019–20 a pharhaodd i adlewyrchu awydd cynyddol am newid a thrawsnewid y busnes. Bu i'r Bwrdd gydnabod y risgiau a heriau sy'n wynebu CGDG yn 2019–20 yn enwedig yn ei rôl o ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol – disgwylir y bydd y rhain yn esblygu o'r prif risgiau ar gyfer 2019–20 a ddisgrifir isod. Bydd rheoli risg yn arbennig o bwysig dros y flwyddyn i ddod.

Rydym yn cydnabod hefyd y dylid annog cymryd risgiau ac arloesedd a ystyrir yn drylwyr i gyflawni amcanion CGDG. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n fodloni ar wneud penderfyniadau sy'n rhydd

rhag risg yn unig Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth sicrhau bod cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyrraedd mor eang i mewn i'r gymuned â phosib.

I'r perwyl hwn rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau yr ydym yn rhoi grantiau iddynt yn y pen draw yn dangos cymhwysedd llawn wrth weinyddu'r grant hwnnw. Rydym yn dysgu ein gwersi, gwella ein prosesau ac, mewn rhai amgylchiadau anghyffredin, yn diddymu'r grant. Mewn achosion pan fyddwn yn amau twyll neu ymddygiad amhriodol byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu am ymchwiliad pellach. Rwy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy galluogi i'w fonitro bob blwyddyn er mwyn darparu sicrwydd ar ein gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir ei weld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae lefel y grantiau a ddiddymir yn fach iawn o'i gymharu â lefel y grantiau rydym yn ei ddosbarthu bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o foddhad a ddangosir mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n ormod o faich ar ymgeiswyr. O ganlyniad i hyn, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos pryder ynglŷn â lefel y risg sy'n rhan ymhlyg o'n prosesau rhoi grantiau.

Yn 2019–20, ystyriodd CGDG mai'r canlynol oedd y meysydd risg mwyaf arwyddocaol:

- rhagamcaniadau incwm y Loteri Genedlaethol a rheoli adnewyddu'r drwydded o ran yr effaith ar incwm
- yr heriau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol
- datblygu'r systemau rheoli buddsoddi newydd
- deall goblygiadau, cyfleoedd a heriau ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd
- sicrhau y defnyddir ein data a mewnwelediad er effaith optimaidd
- cynnal ein rôl arweinyddiaeth yn y sector treftadaeth ar draws y DU
- sicrhau ein bod yn cyflawni newidiadau diwylliannol ar draws y Gronfa i gefnogi'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar y lefel weithredol sydd â'r dasg o reoli'r risg a sicrhau yr ymgymerir â chamau lliniaru priodol. Credaf ein bod wedi rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol trwy gydol 2019–20.

**Ymagwedd at risgiau twyll a gwybodaeth**

Mae gan CGDG bolisi twyll sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae holl staff CGDG yn ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Twyll. Mae hyn yn ffocysu ar y risg o dwyll mewn:

- rhoi grantiau
- caffael/rheoli contractau
- meysydd twyll cyffredinol

Mae'r hyfforddiant yn adnabod meysydd sydd â risg o dwyll ar gyfer CGDG hefyd, sut y gellir adnabod y rhain a mynd i'r afael â nhw i ostwng y risg o dwyll.

Dros flynyddoedd diweddar rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o risg a threfniadau cywain gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol a pharhaom â hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol i adnabod y risg o dwyll. Rydym yn parhau i adrodd pob achos posib o dwyll i'r heddlu ac yn cysylltu â nhw'n weithredol yn y cyfryw achosion i sicrhau ymchwiliad effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn ymgymerom â gwaith arwyddocaol i adnewyddu ein gweinyddiad yn y maes hwn ac i alinio â safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar Dwyll (GovS013: Gwrth Dwyll). Rydym wedi gwella arweiniad a pholisi mewn meysydd megis:

- Polisi a Chynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyaeth a Llygredigaeth
- Strategaeth gwrth-dwyll
- Asesiad o risg twll
- ein cynllun gweithredu blynyddol

Rydym yn disgwyl mewnblannu hyn ymhellach yn 2020–21.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad mewn diogeledd gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'u hymgynefino. Ymgymerom â gwaith cynllunio a pharatoi cynhwysfawr ar gyfer y darpariaethau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

(GDPR) a gyflwynwyd yn ddiweddar, rydym wedi bodloni ein rhwymedigaethau'n foddhaol ac wedi derbyn adolygiad Archwilio Mewnol cadarnhaol o'r trefniadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019 derbyniom achrediad Cyber Security Plus unwaith eto.

Rydym yn cydymffurfio ag arweiniad y llywodraeth ar dryloywder gwariant, contractau etc. hefyd. Yn 2019–20 fe barhaom i wella mesurau rheoli a phrosesau caffael.

**Modelau hollbwysig i fusnes**

Rwy'n ystyried ein bod mewn cydymffurfiad â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Macpherson. Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n hanfodol i'r busnes – y rhagamcaniad llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau grant blynyddol allan o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm mwyaf posib o ran lefel y grantiau heb beri'r risg o redeg allan o arian parod neu or-estyn ein hunain. Crëwyd y model tua 15 mlynedd yn ôl ac mae'n parhau'n bennaf ar ei ffurf wreiddiol ar wahân i estyn ei gylch bywyd. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn sefyllfaoedd o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri Genedlaethol, cyfraniadau untro i'r Gemau Olympaidd, a rhaglenni grant arwyddocaol newydd ac rydym wedi gweld ei fod yn darparu rhagamcaniad rhesymol o'n cynaladwyedd ariannol.

Yn 2014–15, ar sail y model, creodd y Bwrdd Fframwaith Ariannol a ddisgrifiodd gymarebau grantiau a fu'n gysylltiedig â'r cyfanswm lefel ymrwymiadau, rhwymedigaethau grant gwirioneddol, incwm gan y Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG). Gan hynny rydym o'r gred bod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn i ni dros roi grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2019–20 ac yn wir fe'i defnyddiwyd wrth fodelu ar gyfer ein sefyllfaoedd a thybiaethau cynllunio incwm gan y Loteri Genedlaethol. Adolygwyd y cymarebau allweddol yn 2019, cytunwyd i addasu'r rhain i gymryd rhagamcaniadau incwm y Loteri Genedlaethol i ystyriaeth ynghyd â'r angen am alinio incwm, ymrwymiadau a symiau wrth gefn.

**Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**

Y gweithgaredd mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd oedd trosolwg o gyflwyniad parhaus y Fframwaith Ariannu Strategol a'n rhaglen trawsnewid busnes ochr yn ochr â'i waith o roi grantiau.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd yn 2019–20, ond ddim i'r un graddau â blynyddoedd blaenorol, mae hyn wedi golygu rhywfaint o ostyngiad yng ngradd y trosiant ymysg yr ymddiriedolwyr. Rydym wedi sicrhau set fwy amrywiol o sgiliau ar draws y Bwrdd gyda gwybodaeth am ddigidol, rheoli newid, arbenigedd masnachol a sgiliau llywodraethu hefyd.

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni ei fod yn parhau i gyflawni gofynion côd arfer da 2017 Trysorlys EM.

Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw destun pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar yr wybodaeth a sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob ymddiriedolwr a benodir o'r newydd yn derbyn ymgynefino ar adeg eu penodiad sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau a dyletswyddau fel ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/ prosesau, gan helpu nhw i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen ymgynefino ffurfiol hon trwy'r raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i ymddiriedolwyr. Arfarnir effeithiolrwydd ymddiriedolwyr gan y cadeirydd ar sail reolaidd. Mae perfformiad y cadeirydd hefyd yn cael ei oruchwylio gan yr Uwch Ymddiriedolwr Annibynnol.

**Y flwyddyn lywodraethu**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol. Cyfeirir fy adolygiad gan waith yr archwilwyr mewnol (BDO) ac uwch reolwyr o fewn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau cynnal a chadw a gweithredu'r fframwaith rheoli mewnol yn effeithiol ochr yn ochr â sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Pennir cytundebau perfformiad i'r holl staff uwch ar ddechrau'r flwyddyn sy'n disgrifio eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Adolygir y rhain yn ffurfiol mewn adolygiadau hanner ffordd trwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda chyfarwyddwyr gweithredol ar sail un i un trwy gydol y flwyddyn hefyd. Fel a nodwyd, mae'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cwrdd yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y Llythyr Rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol gan ddilyn eu hadolygiad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

O ganlyniad i'w rhaglen waith mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn.

Adroddodd adroddiad diwedd blwyddyn yr archwilydd mewnol ar y 'cyfeiriad teithio' tybiedig o ran y nifer o argymhellion sy'n deillio o'u gwaith archwilio mewnol hefyd. Awgrymodd hyn ddirywiad bach yn safon ein prosesau. Credaf fod hyn i'w ddisgwyl yn ystod cyfnod o ad-drefnu sylweddol, ond byddaf yn anelu at welliant yn yr ystadegyn hwn yn ystod 2020–21.

Wrth gael eu hailbenodi, cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio gyffredinol. 2019–20 oedd blwyddyn gyntaf y cyfnod hwn a chyflawnwyd a chwblhawyd pob adolygiad cynlluniedig ar amser. Tynnir y cynllun blynyddol allan o'r strategaeth archwilio ac fe'i cysylltir i mewn i'r gofrestr risgiau a'r awydd am risg.

Gyda BDO fe gyflwynom gyfarfodydd cyswllt chwarterol newydd gyda'r archwilwyr mewnol i helpu monitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dechrau dod i'r amlwg. Parhawyd i ddefnyddio'r rhain i fonitro cynnydd a chyflawniadau'r rhaglen. Cyflwynwyd mesurau rheoli newydd yn 2014–15 hefyd i wella atebolrwydd ar adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Parhawyd â'r rhain yn 2019–20 ac mae'r argymhellion a oedd i fod i gael eu gweithredu yn 2019–20 wedi'u rhoi ar waith yn foddhaol.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag aelodau staff uwch yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau - mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r pwyllgor drafod y canfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig i reolwyr yn fanwl. Pan dderbynnir argymhellion i wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr gweithredol ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Mae gweithrediad yr argymhellion hyn yn cael ei dracio a'i fonitro gan yr adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried bod y rhestr reoli honno'n eitem sefydlog hefyd.

Yn 2018 cyflwynwyd Côd Ymddygiad newydd ar gyfer holl staff a chontractwyr y gronfa, gan ddilyn argymhelliad o'r Adolygiad wedi'i Deilwra. Roedd hyn yn cynnwys meysydd megis:

- egwyddorion gwasanaeth mewn bywyd cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- rhoddion a lletygarwch
- datgelu camarfer

Hysbyswyd yr holl staff am y Côd ac fe'i rhoddwyd ar ein Mewnrwyd.

O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd Llythyron Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer yr holl gyfarwyddwyr gweithredol – sy'n disgrifio eu hawdurdodau dirprwyedig (cyllid, caffael etc.) i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r cylch hwn wedi'i gwblhau yn 2019–20.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa'n darparu'r lefel sicrwydd i mi y mae arnaf ei hangen. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau ar gyfer datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a datgelu twyll ac ar gyfer isafu colledion cymorth grant a grantiau Loteri Genedlaethol yn ddigonol.

Rhwng mis Rhagfyr 2019 a 30 Ebrill 2020, bûm yn absennol o'r Gronfa o ganlyniad i salwch difrifol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgymerodd

y cyfarwyddwyr gweithredol â fy nyletswyddau fel Prif Weithredwr gyda chefnogaeth gan yr ymddiriedolwyr ac ymgymerodd Eilish McGuinness â fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu, derbyniodd hi gefnogaeth ac ymgynefino gan gydweithwyr yn DCMS yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Gwasanaethau Busnes) yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyllid. Rwyf wedi fy modloni y perfformiwyd yr holl gyfryw ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol yn ystod fy absenoldeb.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2020

## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd gan yr holl ymddiriedolwyr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG.

At hynny, ad-dalodd CGDG dreuliau teithio ymddiriedolwyr penodol wrth iddynt deithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Darparodd CGDG brydau bwyd i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwlad ac ardal hefyd pan gynhaliwyd cyfarfodydd yn eu mannau cyflogaeth. Y Gronfa fu'n atebol am y rhwymedigaeth dreth ar yr holl dreuliau hyn.

Mae tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r amrediadau yn y tabl isod. Penodir yr holl ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog.

Maent yn cael eu penodi am dair blynedd, gyda'r potensial o'u hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaeth y Gronfa unrhyw gyfraniadau i gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar sail 1%: 99%. Y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr yn 2019–20 oedd £183,147 (2018–19: £210,289).

Trafodir a phennir tâl a chontractau ymddiriedolwyr gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni thalwyd unrhyw fuddiannau mewn da neu elfennau anariannol i ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr.

Yn 2019 cyflwynodd y Gronfa strwythur sefydliadol newydd a greodd dair adran newydd: Cyflwyno Busnes, Gwasanaethau Busnes ac Arloesedd a Mewnwelediad Busnes O ganlyniad i hyn, newidiodd ein strwythur rheoli uwch ar yr un pryd wrth i ni greu tair swydd cyfarwyddwr gweithredol newydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae'r holl swyddi eraill ar lefel cyfarwyddwr bellach yn adrodd i'r cyfarwyddwyr gweithredol newydd. Cyflwynom strwythur tâl a graddio newydd ar gyfer yr holl staff hefyd ac, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, polisi tâl newydd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn daethom â'r cyfle i gael codiadau

## Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| René Olivieri<br>Cadeirydd Dros Dro o 1 Ionawr 2020 | **20–25** | 10–15 |
| Syr Peter Luff<br>Cadeirydd tan 31 Rhagfyr 2019 | **30–35** | 45–50 |
| Maria Adebowale-Schwarte<br>o 16 Mai 2018 | **5–10** | 5–10 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | **20–25** | 20–25 |
| Anna Carragher<br>tan 6 Hydref 2019 | **10–15** | 20–25 |
| Syr Neil Cossons OBE<br>tan 31 Ionawr 2019 | **0** | 5–10 |
| Dr Angela Dean<br>tan 12 Mehefin 2018 | **0** | 0–5 |
| Jim Dixon | **5–10** | 5–10 |
| Dr Claire Feehily | **10–15** | 10–15 |
| Sarah Flannigan<br>o 16 Mai 2018 | **10–15** | 5–10 |
| Perdita Hunt DL, OBE | **5–10** | 5–10 |
| Ray Mcfarlane<br>tan 1 Ebrill 2019 | **20–25** | 0 |
| Steve Miller<br>tan 17 Chwefror 2020 | **5–10** | 5–10 |
| Richard Morris OBE<br>tan 16 Mai 2018 | **0** | 0–5 |
| Atul Patel MBE<br>to 16 May 2018 | **0–5** | 0–5 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE<br>tan 31 Mawrth 2019 | **0** | 20–25 |
| Dr David Stocker<br>tan 16 Mai 2018 | **10–15** | 5–10 |
| Dr Tom Tew<br>tan 19 Ionawr 2020 | **5–10** | 10–15 |

cyflog blynyddol staff uwch ar sail perfformiad i ben oherwydd disgwyliadau newydd y rolau hyn. Gwnaed y penderfyniad i gydgrynhoi bonysau posib i mewn i gyflogau wrth gydnabod y cyfrifoldebau newydd yr oedd y cyfarwyddwyr gweithredol yn ymgymryd â nhw yn sgil yr ailstrwythuro adrannol ac ehangu eu dyletswyddau. Mae'r tri chyfarwyddwr gweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredol bellach yn derbyn cyflog cyfradd unffurf, a all gael ei ailbrisio dim ond fel rhan o ddyfarniad tâl blynyddol y Gronfa. Asesir perfformiad yn flynyddol o hyd ond nid yw wedi'i gysylltu â'r adolygiad cyflog.

Datgelir bonysau a delir i uwch reolwyr yn y flwyddyn gymharol ar wahân. Mae hyn yn gweddu i Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013. Nid yw bonysau'n cael eu talu i uwch reolwyr mwyach.

### Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi'n unig.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

## Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Roedd tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel a ddisgrifir yn y ddau dabl isod. Cyflogwyd y Cyfarwyddwr Gweithredol Busnes, Arloesedd a Mewnwelediad Busnes dros dro blaenorol, Carli Harper-Penman, trwy asiantaeth sy'n cyflenwi staff dros dro. Gan hynny, ni ddatgelir ei manylion yn y tabl isod:

| | **Cyflog 2019–20 £'000** | Cyflog 2018–19 £'000 | **Bonws 2019–20 £'000** | Bonws 2018–19 £'000 | **Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2019–20 £'000** | Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2018–19 £'000 | **Cyfanswm 2019–20 £'000** | Cyfanswm 2018–19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake OBE<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | **140–145** | 135–140 | **0** | 5–10 | **56** | 53 | **195–200** | 195–200 |
| Eilish McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes | **105–110** | 85–90 | **0** | 5–10 | **182** | 12 | **285–290** | 100–105 |
| Judith Cligman<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes tan 31 Ionawr 2019 | **dd/b** | 80–85* | **dd/b** | 0 | **dd/b** | 7 | **dd/b** | 85–90 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes | **110–115** | 100–105 | **0** | 5–10 | **44** | 41 | **155–160** | 150–155 |
| Louise Lane<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu tan 31 Ionawr 2019 | **dd/b** | 70–75* | **dd/b** | 0 | **dd/b** | 40 | **dd/b** | 110–115 |
| Helen Coley–Smith<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes tan 31 Awst 2018 | **dd/b** | 45–50* | **dd/b** | 0 | **dd/b** | 18 | **dd/b** | 60–65 |
| Isabel Hunt<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes o 4 Tachwedd 2019 | **45–50*** | dd/b | **0** | dd/b | **19** | dd/b | **65–70** | dd/b |

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad £'000 | **Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/20 £'000** | CETV ar 31/03/19# £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake OBE<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 2.5–5 | 10–15 | **209** | 146 | 46 |
| Eilish McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes | 7.5–10 plws 20–22.5 cyfandaliad | 40–45 plws 115–120 cyfandaliad | **885** | 685 | 165 |
| Judith Cligman<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes tan 31 Ionawr 2019 | dd/b | dd/b | **dd/b** | 1,000 | dd/b |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes | 2.5–5 | 10–15 | **201** | 159 | 27 |
| Louise Lane<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu tan 31 Ionawr 2019 | dd/b | dd/b | **dd/b** | 551 | dd/b |
| Helen Coley-Smith<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes tan 31 Awst 2018 | dd/b | dd/b | **dd/b** | 41 | dd/b |
| Isabel Hunt<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes o 4 Tachwedd 2019 | 0–2.5 | 0–5 | **15** | dd/b | 11 |

* Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Helen Coley-Smith yn 2018–19 yn yr amrediad £110,000 i £115,000. Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Judith Cligman yn 2018–19 yn yr amrediad £95,000 i £100,000. Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Louise Lane yn 2018–19 yn yr amrediad £85,000 i £90,000. Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Isabel Hunt yn 2019–20 yn yr amrediad £120,000 i £125,000

\# neu ar y dyddiad penodi os yn ddiweddarach. Mae rhai cymaryddion wedi cael eu newid gan Swyddfa'r Cabinet ar ôl diweddariad ôl-weithredol i hanes gwasanaeth unigolyn

Datgelir bonysau sy'n daladwy i uwch reolwyr ar wahân ar sail gronedig. Mae hyn yn gweddu i Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013. Nid yw bonysau'n cael eu talu i uwch reolwyr mwyach.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os ydynt eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos a 65 neu'r oedran pensiwn gwladol p'un bynnag sydd uchaf ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir yn PGPGS neu alpha fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPGS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ac eithrio Carli Harper-Penman, a fu'n Gyfarwyddwr Gweithredol, Arloesedd a Mewnwelediad Busnes tan 7 Tachwedd 2019, roedd gan yr holl rolau staff uwch gontractau cyflogaeth parhaol. Ac eithrio Carli Harper-Penman, roed yr holl uwch gyflogeion yn aelodau cyffredin Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99%:1% (2018–19: 99%:1%).

Ym mis Rhagfyr 2018 cyflogwyd Carli Harper-Penman fel Cyfarwyddwr Gweithredol, Arloesedd a Mewnwelediad Busnes dros dro. Ni fu'n gyflogai y Gronfa; caffaelwyd ei gwasanaethau trwy asiantaeth. Wrth gyflogi hi bodlonodd y Gronfa ei hun yr oedd yn cydymffurfio â Nodyn Caffael Cyhoeddus (NCC) 8/15 Trefniadau Treth Cyflogeion Cyhoeddus. Dilynodd y trefniadau Adran 7 y NCC hwnnw ac roedd y Gronfa hefyd wedi'i bodloni ynglŷn â'r trefniadau cydymffurfio IR35 cyn y dechreuodd y gyflogaeth. Y gyfradd a dalwyd i'r asiantaeth oedd £826 y dydd gan roi swm blynyddol o £176,764. Gadawodd Carli ar 7 Tachwedd 2019.

## Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Un o ddeilliannau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei fod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol sydd â'r tâl uchaf (gan gynnwys y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrif ein gweithlu.

Tâl cydnabyddiaeth blynyddol fesul amrediad y cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf yn 2019–20 a 2018–19 ill dau gan gynnwys bonws (ar gyfer 2018–19 yn unig) oedd £140,000 i £145,000. Roedd hyn tua 4 gwaith (2018–19: 4.9 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrif y gweithlu, sef £36,000 (2018–19: £29,043). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £18,000 i amrediad o £140,000 i £145,000 (2018–19: £15,000 i £140,000). Roedd y cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf yn destun cylch cyflog y llywodraeth. Cyfyngodd hwn ar y swm sydd ar gael i ariannu codiadau cyflog staff i 2% o'r gyflogres.

O 2019–20, mae'n ofynnol hefyd i ni ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 20ain a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff. Datgelir yr wybodaeth hon isod.

| | Cymhareb |
|---|---|
| 25ain canradd | 5.5 |
| 50ain canradd | 4.0 |
| 75ain canradd | 3.5 |

Fel a nodwyd yn gynharach cyflogwyd Carli Harper-Penman fel Cyfarwyddwr Arloesedd a Mewnwelediad Busnes dros dro o fis Rhagfyr 2018 trwy asiantaeth gyflogaeth. Gan ddefnyddio'r symiau cyfwerth blynyddol a dalwyd i'r asiantaeth byddai'r cymarebau fel a ganlyn:

| | Cymhareb |
|---|---|
| 25ain canradd | 1:6.8 |
| 50ain canradd | 1:4.9 |
| 75ain canradd | 1:4.3 |

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Yr hyn sy'n dod o dan ddiffiniad pecynnau ymadael yw diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, iawndal am golli swydd a thaliadau ex-gratia.

Ar 1 Ebrill 2019, gweithredodd y Gronfa ymarfer ailstrwythuro sefydliadol mawr a arweiniodd at greu adrannau newydd, timau newydd a rolau newydd i gyflwyno gwasanaethau'r Gronfa'n well. Ni wnaed unrhyw ddiswyddiadau ond yn ystod y cyfnod hwn o newid gofynnodd nifer bach o gydweithwyr am ymadael yn wirfoddol. Datganwyd staff a adawodd cyn 1 Ebrill 2019 yn Adroddiad Blynyddol 2018–19, ond roedd nifer bach o weithredoedd ailstrwythuro gweddilliol a wnaed yn 2019–20, a dangosir y rhain isod. Roedd yr holl weithredoedd yn wirfoddol; h.y. ar gais yr unigolion eu hunain, ond barnwyd eu bod er budd y Gronfa. Cymeradwywyd yr holl geisiadau gan dîm gweithredol y Gronfa a Swyddfa'r Cabinet ac fe'u rheolwyd yn unol â gofynion Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir manylion y taliadau isod. Pennir y lefelau gan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, nid gan y Gronfa. Noder hefyd y caiff yr holl gostau isod eu hadfer o ganlyniad i weithredoedd ac arbedion cost ehangach a gyflawnir fel rhan o'r ailstrwythuro sefydliadol.

Roedd naw yn 2019–20 (2018–19: saith) yn yr amrediadau a ganlyn:

| | **2019–20 nifer** | 2018–19 nifer |
|---|---|---|
| £5,000–£9,999 | **1** | 1 |
| £10,000–£14,999 | **4** | 0 |
| £30,000–£34,999 | **1** | 0 |
| £35,000–£39,999 | **1** | 1* |
| £40,000–£44,999 | **1** | 1 |
| £50,000–£54,999 | **1** | 1* |
| £55,000–£59,999 | **0** | 1* |
| £75,000–£79,999 | **0** | 1* |
| £90,000–£94,999 | **0** | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** | 7 |

* yn cynnwys iawndal yn lle rhybudd

Codwyd 99% o gost y pecynnau ymadael hyn ar ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

## Costau a niferoedd staff

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **11,302** | 10,346 |
| Taliadau YG y Cyflogwr | **996** | 893 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | **2,576** | 1,929 |
| Costau staff dros dro | **727** | 700 |
| | **15,601** | 13,868 |

Mae nifer cyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

| **2019–20** | **Ceisiadau grant** | **Cyllid a gwasanaethau corfforaethol** | **Strategaeth a datblygu busnes** | **Cyfathrebu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 171 | 36 | 22 | 10 | 239 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 10 | 10 | 4 | 3 | 27 |
| **Cyfanswm** | **181** | **46** | **26** | **13** | **266** |

| 2018–19 | Ceisiadau grant | Cyllid a gwasanaethau corfforaethol | Strategaeth a datblygu busnes | Cyfathrebu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 183 | 32 | 25 | 19 | 259 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 23 | 9 | 4 | 4 | 40 |
| Cyfanswm | 206 | 41 | 29 | 23 | 299 |

Nid yw staff dros dro ac asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau'n caniatáu cywain a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladol yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran mewn PGPGS, sydd â phedair adran: tri sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddiannau'r holl aelodau sy'n newid i PGPGS yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddiannau mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn budd-ddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £19,161 (2018–19: £18,104) i banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–19, lleihawyd y panel i un cyflenwr, Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd mae pedwar aelod staff yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ymddeolodd un aelod staff yn gynnar ar sail iechyd yn ystod 2019–20.

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPGS neu alpha.

Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n dod o dan PGPGS ac alpha yn talu cost y pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig. Ar gyfer 2019–20, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £2,556,538 (2018–19: £1,910,660), ac eithrio symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, i PGPGS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir fel a ganlyn:

| Cyflog yn 2019–20 | % yn 2019–20 |
|---|---|
| **£23,000 and under** | **26.6%** |
| **£23,001–£45,500** | **27.1%** |
| **£45,501–£77,000** | **27.9%** |
| **£77,001 ac yn uwch** | **30.3%** |


## Rheoli absenoldeb

Cododd lefelau absenoldeb salwch ar draws y Gronfa yn 2019 i 2.4%. Mae hyn yn uwch na blynyddoedd blaenorol ond yn dal yn is na'r meincnod cymaradwy ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Roedd cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn o ganlyniad i nifer bach o absenoldebau tymor hir newydd yn 2019 (a effeithiodd yn anghymesur ar lefelau cyffredinol oherwydd y niferoedd cymharol fach o staff yn y Gronfa). Roedd cynnydd bach mewn absenoldeb a fu'n gysylltiedig â chyflwyno ein hailstrwythuro sefydliadol newydd yn 2019.

Yn rhannol, gellir priodoli'r cynnydd mewn lefelau salwch i weithdrefnau adrodd absenoldeb gwell hefyd. Ar ddiwedd 2018 cyflwynom system rheoli gwybodaeth AD newydd a wnaeth adrodd salwch yn haws i staff a monitro salwch yn haws i reolwyr.

Mae gan y Gronfa fframweithiau llesiant cynhwysfawr ar gyfer staff sy'n sâl – gan gynnwys cyfleusterau ychwanegol a roddwyd ar waith i gefnogi staff yn ystod ein hailstrwythuro sefydliadol yn 2019. Rydym wedi ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach ac ailddylunio ein polisïau rheoli llesiant a phresenoldeb, ac maent yn destun trafodaethau gyda'n cynrychiolwyr Undeb Llafur ar hyn o bryd. Mae cefnogi llesiant yn un o'n colofnau rheoli pobl craidd a byddwn yn datblygu hyn ymhellach fel rhan o Strategaeth Pobl newydd yn 2020.

## Lefelau absenoldeb




DS: Y lefel Meincnod DU a ddyfynnir yn y siart uchod yw cyfartaledd cenedlaethol y sector cyhoeddus a gymerwyd o Swyddfa Ystadegau Gwladol y Llywodraeth.

## Ennyn diddordeb ac ymgynghori â chyflogeion

Rydym yn parhau i hysbysu ein staff yn rheolaidd a'u cynnwys mewn trafodaethau ar ein cyfeiriad strategol a pherfformiad gweithredol.

Mae'r holl staff yn derbyn crynodebau newyddion dyddiol a chylchlythyron wythnosol i ddiweddaru nhw gyda newyddion o bob rhan o'r Gronfa ac mae gennym grwpiau trafod bywiog a phoblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Gronfa'n cwrdd yn ffurfiol bob chwarter gyda'i phartneriaid Undeb Llafur (FDA a PCS) hefyd.

Yn 2019 dechreuwyd cyfarfodydd anffurfiol misol rhwng y tîm Adnoddau Dynol a'r Undebau Llafur hefyd i wella cyfleoedd deialog a gweithio ar y cyd.

Dewisom i beidio â chynnal arolwg staff llawn yn 2019 gan i ni gydnabod na fyddai arolwg unigol yn galluogi ni i ddeall safbwyntiau newidiol staff yn sgil cyfnod o ailstrwythuro sefydliadol arwyddocaol. Yn lle, parhaom i redeg nifer o arolygon cipolwg 'pwls' i'n helpu ni i ganfod safbwyntiau staff. Fe redom nifer o arolygon i ymchwilio i'r 'gwersi a ddysgwyd' o'r ailstrwythuro, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020.

At hynny, fe redom gyfres fawr o ddigwyddiadau diwylliannol yn 2019–20 fel rhan o brosiect i adolygu a diwygio ein gwerthoedd. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrch gynhwysfawr o weithdai, cylchlythyron, blogiau a gweithredoedd eraill gan gynnwys arolygon staff. Rhannwyd ein gwerthoedd diwygiedig newydd gyda staff fel rhan o'r broses ddylunio i gywain eu barn ac fe'u cymeradwywyd gan ein Bwrdd ym mis Chwefror 2020. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau ymdrochi i staff a byddant yn cael eu trosi i fframwaith ymddygiadol newydd. I

gefnogi'r gwaith hwn fe greom rhwydwaith newydd o Eiriolwyr Diwylliant i gydweithio'n agos â rheolwyr lleol a gweithredu fel cyswllt allweddol rhwng timau lleol a swyddogaethau canolog megis Adnoddau Dynol.

Hefyd, fel rhan o adolygiad pwynt canol o'n strategaeth gorfforaethol, yn 2019 bu i ni gynnwys staff ar draws y Gronfa mewn cyfres o drafodaethau, gweithdai, grwpiau ffocws ac arolygon ar ein nodau strategol. Cynhaliwyd y rhain i ail-werthuso blaenoriaethau presennol ac ystyried cyfleoedd newydd i ddarparu ein gwasanaethau i'r sector treftadaeth yn well. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at strategaeth gorfforaethol ddiwygiedig 'ar ei newydd wedd' sy'n cael ei hymgorffori yn ein cynlluniau busnes ar gyfer 2020–21.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth a monitro cyflogaeth

'Mae amrywiaeth a chynhwysiad yn rhan o'n gwerthoedd'

Trwy ein cyngor buddsoddi ac arbenigol mae'r Gronfa'n cydnabod ei rôl fel eiriolwr dros amrywiaeth ac mae gennym uchelgeisiau strategol a ddiffiniwyd o'r newydd i ymwreiddio amrywiaeth yn well ar draws pob maes o'n gwaith. Rydym yn credu bod arweinyddiaeth uchelgeisiol yn hollbwysig i gyrru'r gwaith hwn ymlaen. Gallwn ni wneud hyn yn allanol trwy gynlluniau gweithredu rhagweithiol a sicrhau bod cynhwysiad yn rhan allweddol o'n hasesiad ariannu, ond rydym yn bwriadu gyrru hyn yn fewnol hefyd trwy ddileu rhwystrau i amrywiaeth y gweithlu a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff. Yn 2019 lansiwyd Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiad newydd, Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Gweithlu newydd a Chynllun Gweithredu Anabledd newydd. Cyhoeddom Ddatganiad Amrywiaeth y Gweithlu newydd hefyd ac rydym wedi datblygu polisïau newydd ar gyfer Cyfle Cyfartal, Urddas yn y Gweithle, Datrys Anghydfod (a mwy) sy'n destun adolygiad gyda'n cynrychiolwyr Undeb Llafur.

Yn 2019 fe adolygom a chyhoeddom ein gwerthoedd hefyd. Mae amrywiaeth a chynhwysiad yn parhau'n rhan ganolog o sut rydym yn gweithio (gweler y tabl isod).

## Dadansoddiad Amrywiaeth y Gweithlu

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y siartiau isod yn dangos darlun amrywiaeth y gweithlu ar draws y Gronfa, gan edrych trwy lensys ar wahân ar gyfer ethnigrwydd, tueddfryd rhywiol ac anabledd. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r DU).

Rydym yn cydnabod nad yw ein gweithlu'n amrywiol mewn rhai meysydd o'i gymharu â lefelau cenedlaethol ac yn cydnabod bod rhai grwpiau staff sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym hefyd yn cydnabod tueddiadau a rhwystrau ehangach i fynediad i'r sector treftadaeth, boed anymwybodol neu ymwybodol, y maent oll yn

| Gwerth | Ffocws Amrywiaeth y Gweithlu |
|---|---|
| **Cynhwysol:** o bob agwedd ar dreftadaeth a buddiannau'r holl bobl a chymunedau | Rydym yn dathlu ein hamgylchedd gweithio cynhwysol sy'n hybu tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn cydnabod bod angen i'n nodau allanol o symbylu cynhwysiad mewn treftadaeth gael eu paru â gweithredoedd mewnol i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu. |
| **Uchelgeisiol:** ac yn fentrus ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n sector | Rydym yn cydnabod yr angen am weithredoedd a strategaethau newydd a rhagweithiol i wella amrywiaeth ein gweithlu yn y dyfodol – gan edrych yn allanol trwy ailffocysu gweithredoedd recriwtio ond yn fewnol hefyd trwy reoli doniau a chynllunio olyniaeth. |
| **Cydweithredol:** trwy weithio mewn partneriaethau a dysgu ganddynt | Rydym yn cydnabod pŵer harneisio gweithlu amrywiol sy'n gweithio ar y cyd tuag at ein nodau craidd. Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol a chyfraniadau pawb a gyda'n gilydd rydym yn gryfach o'i herwydd. |
| **Dibynadwy:** am ein cyfanrwydd, barn ac arbenigedd | Mae'n hanfodol bod ein pobl, cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ymddiried yn ein gweledigaeth a phrosesau. Rydym yn cefnogi tegwch, urddas a pharch i bawb. Rydym yn deall bod yn rhaid i recriwtio, datblygu gyrfa, dysgu a chefnogaeth fod yn deg ac yn wrthrychol. |

effeithio ar siâp ein gweithlu. Mae'n bwysig i ni ddeall ein data gweithlu'n well ac fe lansiom system rheoli gwybodaeth AD yn 2018 i'n cynorthwyo gyda'r gwaith hwn a chaniatáu mynediad uniongyrchol staff i'w cofnodion personol fel y gallant weld a diwygio eu data personol. Er ein bod eisoes yn ymgymryd â monitro ein data recriwtio, yn 2020 byddwn yn lansio system I-Recruit newydd a fydd yn rhoi dealltwriaeth well i ni o ddata ymgeiswyr a thueddiadau recriwtio.

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Gweithlu newydd i wella lefelau amrywiaeth yn ein gweithlu a buddsoddi mewn hyfforddiant newydd ac adnoddau newydd. Rydym yn anelu at fod yn gyflogwr o ddewis i'r holl bobl sy'n ystyried gyrfaoedd yn y sector treftadaeth ac er mwyn arwain y sector treftadaeth, rydym yn cydnabod bod angen gweithlu amrywiol a all ateb holl ofynion amrywiol yr her honno. Rydym yn bwriadu creu gweithlu lle mae doniau amrywiol yn ffynnu, lle mae dealltwriaeth a hybu amrywiaeth yn cael eu hymwreiddio ac yn mynd yn ail natur.

Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio tuag at chwe nod craidd:


| | |
|---|---|
| Nod 1: | Gwella amrywiaeth mewn recriwtio |
| Nod 2: | Gwella rheoli amrywiaeth y gweithlu |
| Nod 3: | Gwella datblygiad gyrfaol staff a dangynrychiolir |
| Nod 4: | Gwella cynhwysiad trwy wella cefnogaeth i staff |
| Nod 5: | Gwella amrywiaeth trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith |
| Nod 6: | Gwella llywodraethu amrywiaeth yn y gweithlu |

Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Rydym yn dal y dyfarniadau Hyderus o ran Anabledd a Buddsoddwyr mewn Pobl.


## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd CGDG £623,000 ar ymgynghorwyr yn 2019–20 (2018–19: £249,000) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghoriaeth sydd wedi'u cynnwys o fewn atodiad 6.1 arweiniad mesurau rheoli Swyddfa'r Cabinet: fersiwn 4.0.


### Amrywiaeth ethnig: BAME yn y gweithlu





### Amrywiaeth o ran rhyw: Menywod yn y gweithlu




### Amrywiaeth o ran anabledd: Anabledd yn y gweithlu




### Amrywiaeth o ran tueddfryd rhywiol: LHDTC+ yn y gweithlu




**Ystadegau Amrywiaeth y Gweithlu**
DS: Mae'r lefelau Meincnod DU a ddyfynnir yn y siartiau uchod yn lefelau cenedlaethol sy'n allanol i'r Gronfa. Mae'r data wedi'i gymryd o Swyddfa Ystadegau Gwladol y Llywodraeth a ffynonellau tebyg eraill.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r gwaith ymgynghori hwn yn gysylltiedig ag ymchwil a gyflawnwyd ar ein rhaglenni grant a'r sector treftadaeth.

## Datgelu camarfer

Mae gan y Gronfa Bolisi Datgelu Camarfer clir a hygyrch sydd wedi'i ddylunio i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb Mae hyn yn cynnwys materion sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:


- camarfer neu amhriodoldeb o ran cyllid neu dwyll
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu statudau cyfreithiol
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

## Trefniadau treth cyflogeion sector cyhoeddus

Mae Trysorlys EM yn mynnu bod yr holl gyrff llywodraeth ganolog yn adrodd ar statws treth uwch reolwyr a chontractwyr tymor hir. Yn benodol mae Trysorlys EM yn mynnu bod yr holl uwch reolwyr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun PAYE. Mae'r holl staff uwch, ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gwlad ac ardal ar gyflogres CGDG ac felly yn talu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r llwybr PAYE. Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â gofynion IR35. Mae'r holl weithwyr ar y gyflogres ac eithrio staff a gyflogir yn uniongyrchol trwy asiantaethau; wedi'u secondio dros dro i'r Gronfa a'u talu trwy gyflogres eu cyflogwr; neu mewn nifer bach iawn o achosion fel contractwyr unigol sydd y tu allan i IR35. Penodir y rhain dim ond yn dilyn archwiliad agos a datganiad a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon).

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r Gronfa'n gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn staff. Ar wahân i wneud y taliadau hyn nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn.



**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2020

## Adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd y DU a Senedd yr Alban

**Barn am ddatganiadau ariannol**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau Incwm Cynhwysfawr Net, Sefyllfa Ariannol, Llifoedd Arian Parod, Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o fewn y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd y tu mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y mae'r adroddiad yn disgrifio ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2020 ac o'i gwarged gweithredu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir trwy hynny.

**Barn am reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2016 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol i weithgareddau dosbarthu Loteri Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

**Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU) yn mynnu i mi adrodd amdanynt i chi os:

- nad yw defnydd gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi datgelu unrhyw ansicrwydd materol sydd wedi'i adnabod yn y datganiadau ariannol a allai daflu goleuni ar allu gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn darparu barn wir a theg.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae archwiliad yn ymwneud â dod o hyd i dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd

rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn datgelu camddatgan materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU), defnyddiaf farn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- adnabod ac yn asesu risgiau camddatgan materol y datganiadau ariannol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad, dylunio ac yn perfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn dod o hyd i dystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn. Mae'r risg o beidio â datgelu camddatgan materol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag un o ganlyniad i gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgorion bwriadol, camgynrychioli neu drechu mesurau rheoli mewnol.
- datblygu dealltwriaeth o reoli mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn am effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wneir gan reolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau a pha un a yw'r datganiadau ariannol cyfunedig yn cynrychioli'r trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.
- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd materol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol. Os dof i'r casgliad fod ansicrwydd materol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r cyfryw ddatgeliadau'n annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Er hynny, gallai digwyddiadau neu gyflyrau yn y dyfodol achosi i weithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddod i ben fel busnes gweithredol.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheoli mewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

At hynny mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a gwariant yr adroddir amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad, heblaw am y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac fy adroddiad archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad ynghylch sicrwydd mewn perthynas â hi. Mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio,

bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon yn bodoli, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993; ac
- yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o weithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad neu'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ddychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

14 Gorffennaf 2020

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

# Y datganiadau ariannol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr net
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

| | Nodiadau | £'000 | 2019–20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 10 | **355,217** | | 320,002 |
| Incwm buddsoddi o CDLG | 10 | **1,718** | | 1,640 |
| | | | **356,935** | 321,642 |
| Llog derbyniadwy | 3 | **164** | | 114 |
| Mân incwm | 2 | **172** | | 20 |
| **Cyfanswm incwm** | | | **357,271** | 321,776 |
| Dyfarniadau grant newydd | 12 | **(251,921)** | | (332,109) |
| Dyfarniadau a ddadymrwymwyd | 12 | **(8,944)** | | 31,271 |
| Darpariaeth yn erbyn benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | | **(2,100)** | | 0 |
| | | | **(262,965)** | (300,838) |
| Costau staff | 20 | **(15,601)** | | (13,868) |
| Dibrisio ac amorteiddio | 6, 7 a 8 | **(1,069)** | | (340) |
| Taliadau gweithredu eraill | 4 | **(10,856)** | | (9,660) |
| Cyfanswm costau gweinyddu | | | **(27,526)** | (23,868) |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **(290,491)** | (324,706) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | | | **66,780** | (2,930) |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | | | **66,780** | (2,930) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | (590,498) |
| | |
| Newidiadau mewn ecwiti 2018–19 | |
| Gwarged argadwedig | (2,930) |
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | (593,428) |
| | |
| **Newidiadau mewn ecwiti 2019–20** | |
| Gwarged argadwedig | 66,780 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **(526,648)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol
## ar 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 6 | **704** | 204 |
| Hawl i ddefnyddio | 8 | **1,297** | 0 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7 | **1,638** | 202 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | 9 | **972** | 50 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau – balans yn CDLG | 10 | **308,964** | 338,153 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | **5,501** | 5,012 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | **3,553** | 3,097 |
| | | **318,018** | 346,262 |
| **Cyfanswm asedau** | | **322,629** | 346,718 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 11 | **(5,853)** | (3,709) |
| Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | **(316,047)** | (324,473) |
| **Asedau anghyfredol plws asedau cyfredol net** | | **729** | 18,536 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 11 | **(818)** | 0 |
| Rhwymedigaethau grant sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn | 12 | **(526,559)** | (611,964) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(526,648)** | (593,428) |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen | | **(593,428)** | (590,498) |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | | **66,780** | (2,930) |
| Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen | | **(526,648)** | (593,428) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae cymharydd wedi cael ei newid i adlewyrchu adnabod benthyciadau tymor hir ar wahân.

**René Olivieri**
Cadeirydd Dros Dro

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2020

# Datganiad o lifoedd arian parod
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian parod a dynnwyd i lawr o CDLG | 10 | **386,124** | 390,300 |
| Arian parod o ffynonellau eraill gan gynnwys ad-dalu benthyciadau | 2 | **172** | 20 |
| Arian parod a delir i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(15,578)** | (12,876) |
| Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc | | **141** | 114 |
| Arian parod a dalwyd i gyflenwyr | | **(9,714)** | (10,936) |
| Arian parod a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciad | 12 | **(357,696)** | (363,702) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 15a | **3,449** | 2,920 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a gweithgareddau buddsoddi | 15b | **(2,511)** | (211) |
| Gweithgareddau ariannu | 15c | **(482)** | 0 |
| **Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | **456** | 2,709 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cysoniad y llifoedd arian parod net â'r symudiad mewn cyllid net
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod | | **456** | 2,709 |
| **Newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | 15d | **456** | 2,709 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 1 Ebrill | | **3,097** | 388 |
| **Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth** | | **3,553** | 3,097 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau a gyhoeddir, nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith faterol ar incwm ac asedau net adroddedig CGDG neu ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (Iesau) yn newydd ac yn effeithio ar ein cyfrifon 2019–20, yn enwedig y rhai ar gyfer ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n cael eu dadansoddi yn y polisi cyfrifyddu isod a hefyd nodyn 8.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u llunio ar ffurf a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac wedi'i chymeradwyo gan Drysorlys EM. Maent yn cael eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol diwygiedig. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni'r gofynion cyfrifyddu a datgelu sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cwmnïau 2006 a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (LlAA) i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS ym mis Ebrill 2019. Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn LlAA yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu ddehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS yn benodol yn eithrio paratoi cyfrifon cyfunol.

Gellir cael copïau o'r cyfarwyddiadau cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a chymorth grant gan Ysgrifennydd y Bwrdd, Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, Mezzanine Floor, International House, 1 St Katharine's Way, Llundain, E1W 1UN.

Pan fydd y LlAA yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG at ddiben darparu barn wir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG wedi'u disgrifio o fewn y datganiad hwn. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan nad oes gan CGDG unrhyw reswm dros gredu bod gan DCMS gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn tybio y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol.

Cefnogir y farn hon gan ymddiriedolwyr gan iddynt gael eu hysbysu gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Yn olaf, ni wnaeth yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn 2017 unrhyw argymhellion i newid canran yr arian Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG.

Yn ychwanegol at yr uchod, oherwydd yr argyfwng COVID-19 rydym wedi dechrau tracio incwm gan y loteri, taliadau allan a'n hymrwymiadau parhaus. Dengys canlyniadau'r gwaith hwn ers diwedd y flwyddyn fod incwm yn parhau'n iach a bod taliadau allan ac ymrwymiadau'n gweddu i'r rhagamcaniadau. Yn amodol ar ddigwyddiadau sydd eto i ddod rydym yn hyderus y bydd ein mesurau perfformiad allweddol a pha mor agored i risg yr ydym yn y maes hwn yn parhau o fewn yr ystod dderbyniol a'n hawydd am risg – gan weddu i sail busnes gweithredol.

### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynir at ddefnydd tymor hir CGDG a'i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol pan fydd y cyfanswm cost dros £2,000. Darperir dibrisio ar sail llinol ar bob ased anghyfredol, gan gynnwys y rhai a ddelir o dan lesau ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu cost neu brisiad pob ased dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig. Mae'r bywydau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – bywyd y les |
| Ased hawl i ddefnyddio – lesau eiddo | – bywyd y les |
| Cyfarpar swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Ffitiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd | – hyd at 5 mlynedd |

Ni chyfalafir unrhyw gostau a gynhyrchir yn fewnol. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

## c) Dyrannu costau ac adrodd cylchrannol

Mae IFRS 8 yn mynnu y darperir gwybodaeth am adrodd cylchrannol pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n berthnasol, byddai uwch reolwyr yn adnabod ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredu iddynt pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd. Mewn achosion priodol pan fu gwahaniaeth arwyddocaol yn y modd y proseswyd ceisiadau, byddai dulliau amgen yn cael eu defnyddio.

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol. Mewn blynyddoedd blaenorol gwahanodd cyfrifon CGDG ei incwm a gwariant rhwng ei weithgarwch CGDG safonol a'r Gronfa Mannau Addoli Rhestredig: Atgyweirio Toeon.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2018–19: 99%).

## ch) Treth

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer treth gyffredinol gan fod CGDG wedi'i heithrio'n statudol o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Ni all CGDG adfer Treth ar Werth (TAW) a godir arni, ac mae'r gost gan gynnwys TAW wedi'i chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## d) Pensiwn

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r datganiad o incwm cynhwysfawr net dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPGS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPGS) ac mae'r ganran o dâl pensiynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

## dd) Lesau

Yn dilyn cyflwyno Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 ar lesau, mae lesau gweithredol bellach yn cael eu trin yn yr un modd â lesau cyllid. Cyfalafir lesau tymor hir sylweddol (mwy na blwyddyn eu hyd) ar eu cost amcangyfrifedig ac eithrio unrhyw log tybiedig a godir gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau'r cytundeb lesio i'r datganiad o wariant cynhwysfawr net ar ddyddiad pob taliad a wneir o dan y les. Datgelir lesau wedi'u cyfalafu ar y datganiad o sefyllfa ariannol.

Codir y rhenti blynyddol ar unrhyw lesau sydd y tu hwnt i'r diffiniad sy'n ofynnol yn ôl IFRS 16 i'r datganiad o incwm cynhwysfawr net ar sail llinol dros gyfnod y les. Mae lesau peiriannau ffrancio a llungopïo wedi'u cynnwys yn y categori hwn.

Mae Nodyn 8 yn cynnwys manylion pellach effaith cyflwyno IFRS 16 ar y cyfrifon.

## e) Balansau yn CDLG

Mae balansau a ddelir yn CDLG yn parhau o dan reolaeth DCMS ac nid oes gan ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros sut y buddsoddir y symiau hyn. Mae cyfran y balansau hyn y gellir eu priodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel a ddangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) eu bod ar gael i'w dosbarthu gan ymddiriedolwyr mewn perthynas â'n hymrwymiadau cyfredol a'r rhai yn y dyfodol. Crëir ac addasir swm wrth gefn gwerth teg os bydd unrhyw enillion neu golled ar ailbrisiad y balans CDLG a adroddir i ni gan DCMS. Byddai unrhyw addasiad yn cael ei ddatgelu yn y datganiad newidiadau mewn ecwiti. Ychwanegir unrhyw elw neu golled a geir gan CDLG wrth waredu asedau at werth CDLG.

## f) Penderfyniadau am grantiau

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol. Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau bellach gan nad yw'r prosiect sy'n cael ei ariannu angen yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract grant, rydym

yn gostwng gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy ar unwaith wrth dderbyn ceisiadau dilys am daliad.

Mae'r ymrwymiadau fel a ddiffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon cynharach yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002 gan nad yw'r cyfarwyddyd cyfrifon cyfredol yn diffinio nhw. Mae'r ymrwymiadau'n cynrychioli cytundeb mewn egwyddor yr ymddiriedolwyr i ariannu prosiect treftadaeth. Rydym yn trin nhw fel rhwymedigaeth amodol yn nodyn 13 ar dudalen 55 oherwydd eu bod yn cynrychioli rhwymedigaeth arwyddocaol botensial y mae'n rhaid ei chymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ar lefel yr adnoddau sydd ar gael. Mae dau fath o ymrwymiad:

1. pan wnaed y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r grantî. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, mae'r ymrwymiad yn cael ei drin fel rhwymedigaeth lawn.
2. pan roddir pas rownd gyntaf i brosiect treftadaeth. O dan yr amgylchiadau hyn, er bod cyllid yn amodol ar ail benderfyniad, mae'r ail benderfyniad hwn yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol neu beidio ac felly rydym yn teimlo ei fod yn ochelgar i gydnabod y pas rownd gyntaf fel ymrwymiad ar yr adeg honno.

Ceir dadymrwymiadau ar rwymedigaethau amodol pan na thrawsnewidir ymrwymiad i rwymedigaeth lawn. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd i'r grantî benderfynu i beidio ag ymgymryd â'i brosiect neu oherwydd y teimla'r ymddiriedolwyr na allant ariannu'r holl geisiadau rownd dau o ganlyniad i'r angen am gynnal symiau wrth gefn digonol.

## ff) Benthyciadau

Mae gan ymddiriedolwyr yr hawl i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan gyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae'r cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu gwneud fel rhan o'n cylch gwaith i wella a diogelu treftadaeth y DU ac nid i gasglu llifoedd arian contract neu i'w hailwerthu. Gan hynny, o dan IFRS 9, Offerynnau Ariannol, bydd benthyciadau'n cael eu prisio ar sail gwerth teg pan fydd unrhyw addasiad yn faterol, gyda'r addasiad yn mynd trwy'r datganiad o incwm cynhwysfawr net. Mae'r cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr.

Pan godir llog, byddwn yn cydnabod y llog yn y flwyddyn y caiff ei gronni er gwaetha'r ffaith y caiff ei dderbyn mewn blwyddyn ddiweddarach o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

## g) Cynlluniau grant ar y cyd

Pan fydd CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd Parks for People gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; y rhaglen Great Place gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr; y flwyddyn Pobl Ifanc gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport Scotland ac Ymddiriedolaeth Ysbryd 2012) nid ydym yn cydnabod symiau a dderbynnir gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, mae'r cyllid a dderbynnir gan y cyrff hyn yn cael ei drosglwyddo i grantïon neu gyflenwyr. Gan hynny, nid ydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant y cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan i ni drosglwyddo cyfran y sefydliadau eraill ymlaen at y grantî. Yn yr un modd nid ydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredu ar gyfer y cynlluniau hyn ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredu o'r sefydliadau eraill i gyflenwyr.

Rydym yn diffinio cynlluniau grant ar y cyd fel rhaglenni lle mae gan fwy nag un parti ran yn y broses benderfynu ar gyfer gwneud dyfarniad. Yn achos y rhaglen Parks for People, mae cynrychiolwyr CGDG a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ill dau'n penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Yn y sefyllfaoedd hynny pan roddir cyllid i ni heb unrhyw gyfranogiad yn y penderfyniad terfynol ar y dyfarniad, rydym yn trin y symiau hyn fel rhoddion. Os yw'r symiau a roddwyd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, yna mae'r rhodd yn cael ei rhoi i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol; fel arall, trinnir y cyllid fel rhodd i CGDG hyd yn oed os cânt eu haseinio i brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn y pen draw.

## ng) Ardoll Brentisiaethau

Cyflwynwyd yr ardoll brentisiaethau yn 2017–18. Er bod y symiau a dalwn ar gael yn ddamcaniaethol i ariannu cost y cyrsiau yr ymgymerir â hwy gan ein prentisiaid, ar hyn o bryd mae'n annhebygol y bydd modd i ni ddefnyddio'r symiau hyn yn llawn. Gan hynny, ein polisi yw diddymu'r ardoll yn y cyfnod y gwnaed y taliad oni bai bod sicrwydd y caiff y swm ei ddefnyddio – h.y. mae'r prentis yn ei le ac mae'r cwrs wedi'i drefnu.

## 2. Mân incwm

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **172** | 20 |

## 3. Llog derbyniadwy

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd gan fanciau | **140** | 114 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | **44** | 0 |
| Mân eitemau | **2** | 0 |
| Darpariaeth yn erbyn derbyn llog ar fenthyciadau | **(22)** | 0 |
| | **164** | 114 |

Gweler nodyn 9 i gael mwy o wybodaeth am log ar y benthyciad a'r ddarpariaeth ar ei gyfer.

## 4. Diffyg gweithredu

Mae'r diffyg gweithredu wedi'i ddatgan ar ôl codi'r taliadau a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl cydnabyddiaeth yr archwilydd | **41** | 39 |
| Taliadau o dan lesau gweithredol | | |
| – adeiladau prydles | **1,442** | 1,328 |
| – hurio cyfarpar swyddfa | **6** | 5 |

Ni thalwyd unrhyw ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol. Mae dadansoddiad o daliadau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **1,562** | 2,008 |
| Post a ffonau | **635** | 439 |
| Nwyddau swyddfa, argraffu a deunydd papur | **53** | 51 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – ymddiriedolwyr | **75** | 85 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff | **653** | 512 |
| Ffioedd proffesiynol – cysylltiedig â grantiau | **1,694** | 1,805 |
| Ffioedd proffesiynol – ddim yn gysylltiedig â grantiau | **2,974** | 2,272 |
| Cyfathrebu | **560** | 494 |
| Cyfarpar swyddfa | **2,109** | 1,102 |
| Hyfforddiant staff | **208** | 208 |
| Mân dreuliau | **333** | 684 |
| | **10,856** | 9,660 |

## 5. Costau a ailgodir

Fel a nodir yn nodyn 1 ar dudalen 48, mae'n ofynnol i CGDG ddatgelu ei gweithgareddau Loteri Genedlaethol ar wahân yn ei chyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Bu llawer o'r costau cyffredinol a gafwyd yn y brif swyddfa yn Llundain o fudd i'n gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2018–19: 99%). Ymgymerwyd â'r holl weithgareddau cymorth grant yn y brif swyddfa, sef Holbein Place, Llundain ac wedi hynny St Katharine Docks, Llundain. Ailgodir costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn llawn i'r dosbarthiad Loteri Genedlaethol. .

## 6. Asedau anniriaethol sefydlog

| | Gwefan | | Technoleg gwybodaeth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **582** | 496 | **2,249** | 2,196 | 2,831 | 2,692 |
| Ychwanegiadau | **0** | 86 | **544** | 53 | **544** | 139 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **582** | 582 | **2,793** | 2,249 | **3,375** | 2,831 |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | **461** | 456 | **2,166** | 2,083 | **2,627** | 2,539 |
| Tâl am y flwyddyn | **25** | 5 | **19** | 83 | **44** | 88 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **486** | 461 | **2,185** | 2,166 | **2,671** | 2,627 |
| Llyfrwerth net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **121** | 40 | **83** | 113 | **204** | 153 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **96** | 121 | **608** | 83 | **704** | 204 |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebir i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol.

Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau anniriaethol sefydlog ar 31 Mawrth 2020 unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. Gan hynny, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol asedau anniriaethol sefydlog.

# 7. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Eiddo prydles fer | | TG a chyfarpar arall | | Ffitiadau swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **643** | 1,137 | **2,764** | 2,703 | **81** | 81 | **3,488** | 3,921 |
| Ychwanegiadau | **817** | 11 | **1,091** | 61 | **59** | 0 | **1,967** | 72 |
| Gwarediadau | **(308)** | (505) | **(2,762)** | (0) | **(81)** | 0 | **(3,151)** | (505) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,152** | 643 | **1,093** | 2,764 | **59** | 81 | **2,304** | 3,488 |
| Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn | **611** | 1,072 | **2,594** | 2,386 | **81** | 81 | **3,286** | 3,539 |
| Tâl am y flwyddyn | **178** | 44 | **343** | 208 | **10** | 0 | **531** | 252 |
| Addasiad wrth waredu | **(308)** | (505) | **(2,762)** | (0) | **(81)** | 0 | **(3,151)** | (505) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **481** | 611 | **175** | 2,594 | **10** | 81 | **666** | 3,286 |
| Llyfrwerth net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **32** | 65 | **170** | 317 | **0** | 0 | **202** | 382 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **671** | 32 | **918** | 170 | **49** | 0 | **1,638** | 202 |

Mae eiddo prydles fer yn cynrychioli cost adnewyddu eiddo rydym yn ei lesio. Gweler cyfalafiad lesau gweithredu o dan IFRS 16 yn nodyn 8.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau a chyfarpar. Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2020 unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. Gan hynny, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% Loteri ac 1% cymorth grant (gweler nodyn 5 ar dudalen 51 hefyd).

# 8. Ased hawl i ddefnyddio (IFRS 16) – newid mewn polisi cyfrifyddu

Mabwysiadwyd IFRS 16 (Lesau) o 1 Ebrill 2019. Mae'r safon hon yn disodli Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 17 ac yn disgrifio'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu lesau. Mabwysiadwyd IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol diwygiedig, nad yw'n gofyn am ailddatgan gwybodaeth gymharol. Mae IFRS 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu prydlesai unigol ac yn mynnu i brydlesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau pob les sydd â chyfnod o fwy na deuddeg mis oni bai bod gan yr ased sylfaenol werth isel. Mae'n gofyn am gydnabod ased hawl i ddefnyddio ar y datganiad o sefyllfa ariannol

gan gynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol ar les ynghyd â rhwymedigaeth les gyfatebol sy'n cynrychioli'r rhwymedigaeth i wneud taliadau les yn y dyfodol.

Mesurwyd yr asedau hawl i ddefnyddio ar gydnabyddiaeth ar 1 Ebrill 2019 ar swm sy'n hafal i'r rhwymedigaeth les. Mesurwyd yr ased hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth les a gydnabuwyd yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn y lle cyntaf ar werth presennol taliadau les yn y dyfodol. Mae dibrisio asedau hawl i ddefnyddio a llog ar rwymedigaethau les wedi'i gydnabod yn y datganiad o wariant cynhwysfawr net.

Yn flaenorol, codwyd rhenti o dan lesau gweithredu i'r datganiad o incwm cynhwysfawr net ar sail llinol.

Ym mis Mawrth 2019, ymgymerom â les weithredu ar gyfer rhan o International House ym mwrdeistref Tower Hamlets, Llundain. Roedd tair blynedd a hanner yn weddill ar y les ar y pwynt hwnnw. Roedd gennym lesau gyda mwy na blwyddyn yn weddill arnynt ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham hefyd – nid oes gennym les ar gyfer ein swyddfa yn Birmingham eto, ond rydym yn disgwyl llofnodi un cyn bo hir. Fel gyda chostau cyffredinol ar y cyd eraill, mae cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn adlewyrchu 1% o gost St. Katherine's Docks gyda'r 99% arall yn cael ei ddatgelu o fewn ein cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cysoniad a ganlyn yn esbonio'r symudiadau o ymrwymiadau les weithredu a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2019 (gan gymhwyso'r polisi blaenorol IAS 17) i'r balans agoriadol ar gyfer rhwymedigaethau les ar 1 Ebrill 2019 (gan gymhwyso IFRS 16).

| | |
|---|---|
| Ymrwymiadau les a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2018–19 | 2,385 |
| Lesau nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o IFRS 16 | (510) |
| Effaith o ddisgowntio ar y gyfradd fenthyg gynyddrannol ar 1 Ebrill 2019* | (84) |
| Rhwymedigaeth les a gydnabuwyd ar ddyddiad dechrau cymhwyso IFRS 16 | 1,791 |

* Y gyfradd fenthyg gynyddrannol gyfartalog wedi'i phwysoli ar gyfer rhwymedigaethau les a gydnabuwyd yn ddechreuol ar 1 Ebrill 2019 oedd 1.99%

Mae IFRS 16 wedi arwain at greu ased hawl i ddefnyddio sy'n adlewyrchu ein hawl gontract i feddiannu eiddo yn St Katharine Docks yn Llundain am gyfnod o dair blynedd, a swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham am amrywiaeth o gyfnodau.

Ased hawl i ddefnyddio:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | **0** | 0 |
| Creu ased hawl i ddefnyddio | **1,791** | 0 |
| Amorteiddio | **(494)** | 0 |
| Balans ar ddiwedd y flwyddyn | **1,297** | 0 |

# 9. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **3,572** | 3,121 |
| Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth | **972** | 50 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **1,911** | 1,865 |
| Blaendaliadau i staff | **18** | 26 |
| | **6,473** | 5,062 |

Nid oedd unrhyw symiau dyledus ymhen mwy nag un flwyddyn (2018–19: £0) ac eithrio'r benthyciadau, y maent oll yn ddyledus ymhen mwy nag un flwyddyn.

O'r symiau uchod, roedd £4,983,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 24 o aelodau staff flaendaliadau cyflogres sy'n weddill (ar 31 Mawrth 2019 roedd 30).

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd tri benthyciad i ddau gorff treftadaeth – Lakeland Arts o Oriel Gelf Abbot Hall (un benthyciad o £1.2miliwn i adfer ac ailagor Amgueddfa Glanfa Windermere o Gychod, Ager a Storïau) a Silverstone Heritage Limited (dau fenthyciad gwerth cyfanswm o £1.8miliwn).

**Lakeland Arts**

Dyma fenthyciad di-log i'w ad-dalu mewn symiau sy'n gyfwerth â 50% o'r llif arian dros ben £100,000 y flwyddyn hyd nes yr ad-delir y swm llawn; gyda'r ad-daliad cyntaf yn ddyledus ar 23 Ebrill 2024. Daeth yn amlwg yn fuan fod y problemau yr oedd derbynnydd y benthyciad yn eu dioddef a barodd

iddo ymgeisio am y benthyciad yn rhai parhaus. Gan hynny, rydym yn ystyried ei fod yn ochelgar i wneud darpariaeth 100% yn erbyn ad-dalu. Byddwn yn parhau i gydweithio â derbynnydd y benthyciad i'w helpu i greu'r canlyniad gorau posib ar gyfer eu prosiect er mwyn caffael ad-dalu'r benthyciad o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

**Silverstone Heritage**

Dyma ddau fenthyciad ar wahan (£1.3miliwn a £500,000) i Silverstone Heritage Limited ar gyfer Profiad Treftadaeth a Chanolfan Casgliadau ac Ymchwil Silverstone. Mae'r ddau fenthyciad yn denu cyfradd log o 5%. Mae'r benthyciad cyntaf o £1.3miliwn yn ddyledus i'w ad-dalu yn 2029–30. Mae'r ail fenthyciad o £500,000 yn ddyledus i'w ad-dalu'n bennaf yn 2020–21, gyda'r gweddill (gan gynnwys y llog) i'w ad-dalu erbyn 2029–30. Wrth ystyried y tebygolrwydd o ad-dalu, mae'n rhaid i ni ystyried effaith y pandemig coronafeirws a'r tebygolrwydd y bydd unrhyw Grand Prix Prydeinig yn 2020 yn digwydd dim ond heb wylwyr, sy'n golygu wrth gwrs y bydd ychydig iawn o ymwelwyr â'r safle treftadaeth. Gan hynny, rydym wedi penderfynu gwneud darpariaeth 50% yn erbyn y benthyciad hwn.

**Tŷ Dickens**

Dyma gronfa ddi-log i ymddiriedolwyr Tŷ Dickens a Chronfa Tŷ Dickens. Y swm oedd £100,000 i helpu'r derbynnydd i gwblhau prosiect yr oeddem wedi dyfarnu grant iddo. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn dau floc o £50,000; derbyniwyd y cyntaf o'r rhain ar amser yn 2018–19 ac mae'r ail daliad yn ddyledus yn 2022–23. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu na chaiff y swm hwn ei dalu ac felly ni ystyrir y bydd angen darpariaeth.

| Benthyciadau | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau ar ddechrau'r flwyddyn | **50** | 50 |
| Benthyciadau newydd | **3,000** | 0 |
| Ad-daliadau benthyciadau | **0** | 0 |
| Incwm cronedig a ychwanegwyd at y benthyciad | **44** | 0 |
| Darpariaeth yn erbyn benthyciadau | **(2,100)** | 0 |
| Darpariaeth yn erbyn llog cronedig | **(22)** | 0 |
| Benthyciadau ar ôl y ddarpariaeth | **972** | 50 |

# 10. Buddsoddiadau

Symudiad mewn balansau yn CDLG:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn | **338,153** | 406,811 |
| Incwm a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol | **355,217** | 320,002 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr o CDLG | **(386,124)** | (390,300) |
| Enillion o fuddsoddiadau CDLG | **1,718** | 1,640 |
| **Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn** | **308,964** | 338,153 |

Nid oes unrhyw rwymedigaeth dreth ar enillion a wireddir gan CGDG. Cyflawnir buddsoddiad yr arian hwn gan DCMS, sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Ostwng y Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu henillion at y balans cyffredinol a ddelir. Nid oes gan ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth dros bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisïau cyfrifyddu'n cynnwys gwybodaeth bellach am y mater hwn.

# 11. Symiau taladwy

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredu taladwy | **1,503** | 880 |
| Symiau taladwy eraill gan gynnwys treth a nawdd | **563** | 513 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **4,605** | 2,316 |
| | **6,671** | 3,709 |

Nid oedd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG wedi'i warantu O'r symiau a ddatgelwyd uchod, mae £818,000 yn gysylltiedig â symiau taladwy tymor hir sy'n cynrychioli rhwymedigaethau o ran lesau eiddo.

Gellir dadansoddi'r balansau gweithredu a symiau taladwy eraill fel a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **633** | 593 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **0** | 4 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **0** | 0 |
| Balansau sy'n allanol i lywodraeth | **1,433** | 796 |
| | **2,066** | 1,393 |

# 12. Rhwymedigaethau grant

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **936,437** | 999,301 |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn y flwyddyn | **251,921** | 332,109 |
| Rhwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod bellach | **8,944** | (31,271) |
| Taliadau grant | **(354,696)** | (363,702) |
| **Cariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **842,606** | 936,437 |

Fel arfer byddai disgwyl i rwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod bellach ostwng gwerth rhwymedigaethau grant. Y rheswm dros y cynnydd yn 2019–20 yw gostyngiad mawr yn y ddarpariaeth sylfaenol sy'n amcangyfrif y dyfarniadau grant na fyddant yn cael eu talu. Heb y symudiad mawr yn y ddarpariaeth, byddai lefel y rhwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod bellach yn £21,608,000.

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen un flwyddyn | **316,047** | 324,473 |
| Ymhen dwy flynedd | **223,096** | 232,784 |
| Ymhen tair blynedd | **136,704** | 138,090 |
| Ymhen pedair blynedd | **74,733** | 74,557 |
| Ymhen pum mlynedd | **41,226** | 40,171 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **50,800** | 126,362 |
| | **842,606** | 936,437 |

Mae rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **83,772** | 85,262 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **321,294** | 342,948 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **1,187** | 777 |
| Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau GIG | **35** | 83 |
| Balansau sy'n allanol i lywodraeth | **436,318** | 507,367 |
| | **842,606** | 936,437 |

Mae'n rhy gynnar i amcangyfrif effaith lawn y pandemig coronafeirws ar gyflwyno'r prosiectau yr ydym yn helpu i'w hariannu. Mae'n debygol y bydd rhai'n methu gan olygu na fyddwn yn talu allan swm llawn ein rhwymedigaethau grant. Ar 31 Mawrth 2020, roedd y rhifau uchod yn cynnwys darpariaeth fach o £5miliwn ar gyfer symiau rydym yn rhagweld efallai na fyddant yn cael eu talu allan dros y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn cydweithio â'n grantïon i'w helpu i gyflwyno eu prosiectau.

# 13. Rhwymedigaethau amodol

## Ymrwymiadau

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **286,418** | 495,369 |
| Ymrwymiadau a wnaed | **125,113** | 122,539 |
| Dadymrwymiadau | **(20,034)** | (68,823) |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn y flwyddyn | **(172,636)** | (262,667) |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **218,861** | 286,418 |

Mae rhwymedigaethau amodol yn cynrychioli ymrwymiadau sy'n cyfateb i werth pasiau rownd un a roddir gan ymddiriedolwyr. Pan fydd ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n mynd yn ddyfarniadau grant (rhwymedigaeth grant) neu'n cael eu gwrthod.

Mae balans y rhwymedigaethau amodol wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i ymddiriedolwyr ostwng eu cyllideb grant fel rhan o (1) bolisi o wella symiau wrth gefn, (2) oherwydd bod yr hen Fframwaith Ariannu Strategol yn dod i ben, a (3) y ffaith ei fod yn arferol i lefel y ceisiadau ym mlwyddyn gyntaf fframwaith newydd fod yn gymharol isel. Mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd effaith y pandemig Covid-19 ar werth y rhwymedigaethau amodol hyn. Mae'n bosib na fydd rhai prosiectau'n cael eu gwireddu neu y byddant yn cael eu newid yn sylweddol cyn dychwelyd i Ymddiriedolwyr am farn rownd dau. Nid ydym wedi gwneud unrhyw addasiad i werth y rhwymedigaethau amodol gan nad oes gennym unrhyw ffordd o wybod p'un a fydd effaith ariannol ai beidio.

# 14. Ymrwymiadau les

Datgelir lefel y taliadau les weithredu dan gontract yn y dyfodol fel nodyn i'r cyfrifon fel arfer. Fodd bynnag, ar ôl gweithredu IFRS 16, mae bron yr holl lesau gweithredu bellach wedi cael eu cyfalafu ac yn ymddangos ar y datganiad o sefyllfa ariannol.

Mae lesau ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd, Nottingham a Newcastle wedi cael eu cyfalafu fel asedau hawl i ddefnyddio (gweler nodyn 8). Mae ein swyddfeydd eraill i gyd mewn swyddfeydd â gwasanaeth gydag un eithriad, Birmingham. Yma, mae ein les wedi dod i ben ac rydym yn aros am lofnodi'r les pum mlynedd a fydd yn ei disodli. Mae absenoldeb les yn golygu bod y sefyllfa y tu hwnt i gwmpas IFRS 16 ac felly mae taliadau les Birmingham wedi'u cynnwys isod.

Nid ydym yn cyfalafu ein holl lesau gan fod IFRS 16 yn caniatáu eithriadau ar gyfer lesau bach a lesau tymor byr. Ar gyfer yr eitemau hynny rydym yn datgelu isafswm taliadau les y dyfodol i'w talu gan weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG fel a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles fer** | | |
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | **69** | 953 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **207** | 1,356 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **276** | 2,309 |
| **Other leases** | | |
| Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn | **24** | 38 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 38 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **24** | 76 |

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 17 yn mynnu rhannu lesau eiddo rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi cael ei wneud yn y ffigurau uchod gan fod maint y tir o dan y lesau'n ddibwys.

Mae lesau eraill yn cyfeirio at beiriannau llungopïo a ffrancio.

Nid oes gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer neu ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

# 15. Nodiadau i'r datganiad o lifoedd arian parod

## a) Cysoni'r gwarged gweithredu â'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | **66,780** | (2,930) |
| Ychwanegu eitemau anariannol yn ôl: | | |
| – dibrisio ac amorteiddio | **1,069** | 340 |
| – colled wrth waredu asedau anniriaethol sefydlog ac eiddo, peiriannau a chyfarpar | **0** | 0 |
| – symudiad yn y swm wrth gefn gwerth teg | **0** | 0 |
| – gostyngiad yn y swm rhwymedigaethau grant wrth gefn | **(93,831)** | (62,865) |
| – gostyngiad yn y balans CDLG | **29,189** | 68,658 |
| Cynnydd mewn symiau derbyniadwy di-log | **(1,411)** | (1,610) |
| Cynnydd mewn symiau taladwy di-gyfalaf | **1,653** | 1,327 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **3,449** | 2,920 |

## b) Gwariant cyfalaf a gweithgareddau buddsoddi

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol | **544** | 139 |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | **1,967** | 72 |
| | **2,511** | 211 |

## c) Gweithgareddau cyllido

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau lesio | **482** | 0 |

## ch) Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | Ar 1 Ebrill 2019 £'000 | Llifoedd arian parod £'000 | **Ar 31 Mawrth 2020 £'000** |
|---|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 3,097 | 456 | **3,553** |

# 16. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, roedd gan CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol) drafodion materol amrywiol, ar wahân i ddyfarniadau grant, gyda DCMS ei hun a gyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Bu i ni lofnodi les gyda DCMS ym mis Mawrth 2015 ar gyfer deiliadaeth ein swyddfa yn Birmingham hyd at fis Mai 2018. Rydym yn parhau â'r ddeiliadaeth, gyda'r bwriad o gymryd y les drosodd gan DCMS, ond nid oedd y ddogfennaeth gyfreithiol wedi cael ei llofnodi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd arnom tua £47,000 i DCMS ar gyfer taliadau gwasanaeth.

Cyfrannodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parks for People a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ar Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol £3,789,689 i CGDG, gan gynrychioli £65,541 ar gyfer costau gweithredu Parks for People a £3,715,051 ar gyfer ei chyfran o'r taliadau grant Parks for People. Roedd swm pellach yn ddyledus ar gyfer secondio aelod o'n staff i'r Fforwm Loteri. Fe dalom Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am nifer o weithgareddau yn y flwyddyn hefyd – darparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael a chyfraniad at Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol. Fe dalom tua £235,000 iddynt yn ystod y flwyddyn ac roedd arnom £240,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr ad-daliad i ni ar gyfer taliadau grant y rhaglen Great Place ar y cyd a wnaed gennym ar eu rhan. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd arnynt £1,019,998 i ni a fu'n cynnwys swm bach a fu'n ddyledus ar gyfer secondio aelod o'n staff i'r Fforwm Loteri.

Roedd nifer o drafodion gyda gwerth o £48,641 gyda Historic England gan gynrychioli secondio dau aelod o'u staff. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd trafodion gyda Sport England ac UK Sport a fu'n cynrychioli secondio aelod o'n staff i'r Fforwm Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £2,792 yn ddyledus i ni gan Sport England a £1,053 gan UK Sport.

Y tu hwnt i'r teulu DCMS o gyrff a noddir gan Lywodraeth ganolog, bu trafodion materol gyda Swyddfa'r Cabinet gwerth £29,503 ar gyfer secondio aelod o'n staff i mewn ac am ymgymryd â gwaith gweinyddu pensiynau ar ein rhan; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu i ni ailgodi costau monitro a mentora prosiectau penodol a oedd wedi derbyn cymorth grant i ganghennau Llywodraeth Yr Alban (Creative Scotland a Historic Environment Scotland). Roedd biliau gwerth cyfanswm o £8,595 yn y flwyddyn ac roedd £7,570 yn ddyledus ganddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd isbrydles ar gyfer y mwyafrif o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG yn 7 Holbein Place, Llundain. Ym mis Awst 2016 gostyngwyd yr arwynebedd a ddaliwyd gan y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd fesul tua hanner gyda gostyngiad cyfatebol mewn rhent a'r cyfraniad at daliadau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd yn gorff cyhoeddus anadrannol, a noddir ar y cyd gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Gadawodd y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd y swyddfa ar yr un pryd â ni (Medi 2019) ac felly fe barhaom i dderbyn incwm rhent gan y pwyllgor tan y dyddiad hwnnw. Roedd gan hyn gyfanswm gwerth o £37,000 ar gyfer rhent a £21,000 ar gyfer costau eraill. Ar 31 Mawrth 2019, roedd £4,000 yn ddyledus i ni.

Fel a ddisgrifir ar dudalennau 58 i 60, roedd gan Ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff y gwnaeth CGDG grantiau Loteri Genedlaethol

iddynt. Yn yr un modd, roedd gan aelodau pwyllgorau gwlad ac ardal fuddiannau mewn prosiectau yr oedd eu pwyllgor wedi gwneud grantiau Loteri Genedlaethol iddynt neu ddarparu sylwadau ac argymhellion arnynt i'r Bwrdd. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gynnal cofrestr o fuddiannau mewn cyrff treftadaeth, a ddiwedderir bob blwyddyn mewn cydweithrediad â'n tîm Cyfreithiol a Llywodraethu. Ar ddechrau pob cyfarfod pwyllgor neu Fwrdd, mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn datgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ac yn tynnu allan o unrhyw ran o'r cyfarfod pan drafodir y cais hwnnw am grant. Nid ydynt yn cymryd rhan yn y drafodaeth ynglŷn â pha un a ddyfernir grant ai beidio ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r prosiect hwnnw cyn neu ar ôl y penderfyniad grant ychwaith. Mae rheolau llym hefyd o ran yr amgylchiadau pan all ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith â thâl gan grantî. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi'u bodloni na fu unrhyw achos pan gafodd unigolion ddylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y prosiectau hynny y mae ganddynt gysylltiad â hwy.

Yn 2019–20 cafwyd trafodion cyrff cysylltiedig, ar ffurf taliadau grant, mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan y datgelwyd y trafodion cyrff cysylltiedig hynny yn flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

## Bwrdd Ymddiriedolwyr

**Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk**
Grant o £2,107,000 – A Turner for East Anglia

Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth y sefydliad ymgeisio, Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk.

**Swyddfa Cofnodion Norfolk**
Grant o £217,400 – Community Archives: Skills, Support and Sustainability

Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Diwylliant a Threftadaeth) Cyngor Swydd Norfolk. Mae Swyddfa Cofnodion Norfolk yn wasanaeth a ddarperir ar y cyd gan Gyngor Swydd Norfolk a nifer o gynghorau ardal.

**Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol**
Grant o £8,500,000 – Inspiring People: Transforming Our National Portrait Gallery (NPG)

Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, a fyddai'n cael benthyg paentiad trwy'r prosiect.

**Cyngor Tref Thetford**
Grant o £168,700 – Thetford Guildhall Heritage Hub

Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, sy'n bartner yn y prosiect.

**Prifysgol Leeds**
Grant o £530,500 – Dialect and Heritage

Datganodd Dr David Stocker wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel athro ymweld anrhydeddus y sefydliad ymgeisio, Prifysgol Leeds.

**Sefydliad Tir Comin**
Grant o £1,906,800 – Our Common Cause: Our Upland Commons – Enabling vulnerable communities to enhance iconic places

Datganodd Dr David Stocker wrthdaro buddiannau fel aelod o gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner yn y prosiect.

**Amgueddfeydd Orielau Yr Alban**
Grant o £250,000 – Forum Connections: Building Capacity For Scotland's Museum Forums

Datganodd Ray Macfarlane wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y corff ymgeisio, Amgueddfeydd Orielau Yr Alban.

## Aelodau pwyllgor

**Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)**
Grant o £375,300 – SCALE – Saving Corncrakes through advocacy, land management and education

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan iddo weithio fel Cyfarwyddwr y sefydliad ymgeisio, RSPB, tan 2017.

**Treftadaeth Naturiol Yr Alban**

Pas rownd gyntaf o £4,232,100 a grant o £267,100 – Species on the Edge

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan iddo weithio fel Cyfarwyddwr RSPB, partner i'r prosiect.

**Fforwm Tweed**

Pas rownd gyntaf o £2,980,000 a grant o £299,000 – Destination Tweed – Source to Sea Restoration and Revitalisation

Datganodd Alice Mayne wrthdaro buddiannau fel cyflogai Asiantaeth yr Amgylchedd, partner i'r prosiect.

**Panel Ieuenctid PACT Blaenafon**

Grant o £201,100 – Llysgenhadon Ieuenctid Treftadaeth y Byd

Datganodd James Davies wrthdaro buddiannau gan iddo gefnogi'r prosiect trwy ei waith gyda Sefydliad Ironbridge.

**Cyngor Sir Fynwy**

Grant o £176,700 – Strategaeth Treftadaeth MonLife

Datganodd Megan de Silva wrthdaro buddiannau fel cyflogai Cyngor Sir Fynwy, y sefydliad ymgeisio.

**Eglwys Iwerddon Y Drindod Sanctaidd Aghalee**

Grant o £185,400 – Prosiect Datblygu Plwyf Aghalee

Datganodd Sheila McClelland wrthdaro buddiannau fel aelod o festri'r sefydliad ymgeisio.

**Cyngor Trafford**

Pas rownd gyntaf o £2,798,400 a grant o £120,000 – Longford Park: People, Place and Nature

Datganodd Stephen Welsh wrthdaro buddiannau o ganlyniad i agosrwydd ei gartref i Longford Park.

**Y Cwmni Coedwigoedd Cenedlaethol**

Grant o £2,767,300 – Charnwood Forest Landscape Partnership Scheme

Datganodd John Everitt wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr y sefydliad ymgeisio, Y Cwmni Coedwigoedd Cenedlaethol.

**Bradford Live**

Grant o £959,500 – Bradford Live – i drawsnewid tirnod eiconig i gyfleuster adloniant o safon fyd-eang, gan adfywio canol Bradford

Datganodd Humphrey Welfare wrthdaro buddiannau gan iddo ymwneud â thrafodaethau ynglŷn â dynodiad y Bradford Odeon yn ystod ei yrfa gydag English Heritage.

**Bwrdeistref Llundain Hounslow**

Grant o £3,634,600 – Reconnecting Boston Manor Park

Datganodd Neena Sohal wrthdaro buddiannau gan iddi gynorthwyo wrth ddatblygu cynllun gweithgareddau'r prosiect.

**Y Parciau Brenhinol**

Grant o £4,517,300 – Greenwich Park Revealed

Datganodd Peter Neal wrthdaro buddiannau gan iddo weithredu fel ymgynghorydd i'r prosiect cyn cael ei benodi i bwyllgor Llundain a'r De.

**Cyngor Tref Thetford**

Grant o £168,700 – Thetford Guildhall Heritage Hub

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel ymddiriedolwr Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, sy'n bartner yn y prosiect.

**Borlase Smart John Wells Trust Ltd**

Grant o £319,700 – Renovation and refit of Grade II* Anchor Studio, Newlyn

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel cyflogai Cyngor Cernyw, sy'n darparu cyllid cyfatebol i'r prosiect.

**Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk**

Grant o £2,107,000 – A Turner for East Anglia

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau yn rhinwedd ei swydd fel ymddiriedolwr y sefydliad ymgeisio, Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk.

**Children in Scotland**

Grant o £74,100 – Museums and young people working in Partnership

Datganodd Gillian Findlay wrthdaro buddiannau gan yr enwyd ei chyflogwr, Culture Perth and Kinross, yn y cais a gofynnwyd iddo ei gefnogi.

**Oriel Gelf Manceinion**
Grant o £9,800 – Trading Stations: How Hot Drinks Shape Our Lives – Engagement

Datganodd Stephen Welsh wrthdaro buddiannau gan y rhoddwyd benthyg gwrthrychau i Amgueddfa Manceinion, Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr gydag Oriel Gelf Manceinion, gan gasgliad y mae'n gyfrifol amdano.

**Cymdeithas y Glowyr Durham**
Pas rownd gyntaf o £3,847,500 a grant o £400,000 – Redhills Revealed: A New Life for the Pitsman's Parliament

Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau gan iddo gefnogi'r sefydliad wrth baratoi eu prosiect.

**Cymdeithas y Glowyr Durham**
Grant o £47,300 – Durham Miners Association – Resilience & Sustainability

Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau gan iddo gefnogi'r sefydliad gyda chais aflwyddiannus yn ddiweddar.

**Arfordir Treftadaeth Durham**
Grant o £2,787,200 – Tyne to Tees, Shores and Seas – Seascape Partnership

Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau fel cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Durham, partner i'r prosiect.

**Peter Neal**
Mae Peter Neal, aelod o bwyllgor Llundain a'r De, hefyd ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi (CGC). Mae CGC yn rhestr arbenigwyr treftadaeth, cadwraeth ac adeiladwaith sy'n destun tendro cystadleuol yr ydym yn eu penodi i ddarparu cyngor ac arweiniad ar y prosiectau a gefnogwn. Ar adeg ei benodiad, eglurwyd ei fod yn ofynnol i Peter gadw'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud a'i rolau ymgynghorol yn gyfan gwbl ar wahân. Ni all ymgymryd ag unrhyw waith ymgynghoriaeth CGC ar gyfer prosiectau yn ardal Llundain a'r De yn ystod ei gyfnod fel aelod pwyllgor; nag ychwaith, pan ddaw ei dymor i ben, o dan yr amgylchiadau hynny pan fu'n gwneud penderfyniad ar naill ai ddatblygiad neu grant cyflwyno. Gall cael ei benodi trwy CGC i weithio mewn rhannau eraill o'r DU. Yn ystod 2019–20, fe wariom £26,644 gyda'i gwmni, Peter Neal Consulting Limited.

## Staff

**Sefydliad Tir Comin**
Grant o £1,906,800 – Our Common Cause: Our Upland Commons – Enabling vulnerable communities to enhance iconic places

Datganodd David Renwick wrthdaro buddiannau gan iddo gael ei gyflogi'n flaenorol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Rhostiroedd Gogledd Swydd Efrog, a fu'n bartner mewn iteriadau blaenorol y prosiect.

# 17. Offerynnau ariannol

## Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer CGDG na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan CGDG y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth grant. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu cadw i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

## Risg hylifedd

Yn 2019–20, deilliodd £355miliwn (99.4%) o incwm dosbarthu Loteri Genedlaethol CGDG o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd yr incwm sy'n weddill o enillion buddsoddi ar y balans a ddelir gyda CDLG o £1.7miliwn (0.5%) ynghyd â swm bach o log banc ac ad-daliadau grant. Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu eu rhwymedigaethau grant a symiau taladwy eraill yn sylweddol uwch na gwerth yr arian yn CDLG ar 31 Mawrth 2020. Er hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt adnoddau hylif digonol o fewn CDLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliad grant dros y

blynyddoedd i ddod. Hysbyswyd yr ymddiriedolwyr gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod rhwymedigaethau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cydweddu â'r asedau, ac y gall yr ymddiriedolwyr fodloni eu rhwymedigaethau'n llawn. Gan hynny, hyd yn oed os bu dirywiad tymor hir mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol, byddai'n dasg syml i'r ymddiriedolwyr addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny. Ni fu effaith y pandemig ar y Loteri Genedlaethol yn arwyddocaol. Mae allosodiad o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer dau fis cyntaf 2020–21, yn awgrymu incwm blynyddol o tua £300miliwn. Rydym yn cydnabod mai cyfnod amser byr yw hwn, ond nid yw'n awgrymu bod angen i ni addasu ein cynllunio. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

## Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn CDLG, sy'n buddsoddi o fewn amrediad cul o asedau risg isel megis bondiau ac arian parod y llywodraeth. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad y cyllid hwn. Am y ddau reswm hwn, nid ydym wedi cyflawni dadansoddiad sensitifrwydd ar risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, £309miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn CDLG ar y farchnad. Mae DCMS wedi'n hysbysu yr enillodd cyllid yn CDLG 0.72% ar gyfartaledd yn y flwyddyn (2018–19: 0.67%). Delir ein balansau arian parod, sy'n symiau a dynnir i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) i alluogi ni i dalu grantiau a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol, yr oedd ganddynt gyfradd llog gyfartalog o 0.69% yn y flwyddyn. Mae'r dirywiad sydyn mewn cyfraddau llog y farchnad yn 2008, ynghyd â gostyngiadau eraill yn ddiweddar, wedi cael effaith arwyddocaol ar enillion buddsoddi, ond mae'r risg yn fach gan fod ychydig iawn o le i'r cyfraddau ostwng ymhellach. Gwellodd yr enillion cyfartalog ychydig yn sgil yn cynnydd bach yn y gyfradd sylfaenol ym mis Tachwedd 2017 a mis Awst 2018, ond wedi hynny bu gostyngiad sylweddol ym mis Chwefror 2020 wrth ymateb i'r pandemig COVID-19. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.6miliwn. Ystyria'r ymddiriedolwyr nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau cyfraddau llog arwyddocaol. Yn achos asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eraill roedd y gyfradd llog yn ddim byd.

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog arnawf | **3,553** | 3,097 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog | **308,964** | 338,154 |
| | **312,517** | 341,251 |

## Risg gredyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys, bron yn gyfan gwbl, rhagdaliadau, incwm cronedig (yn bennaf ar lesau eiddo a chyfraddau busnes) a balansau rhynglywodraethol. Yn bennaf mae'r balansau rhynglywodraethol gyda chyrff a noddir gan DCMS. Ac eithrio blaendaliadau ar swyddfeydd â gwasanaeth a benthyciadau nad ydynt yn ddyledus i gael eu had-dalu am nifer o flynyddoedd, roeddent oll wedi cael eu talu erbyn adeg llofnodi'r cyfrifon. Gan fod y dyddiadau ad-dalu tebygol yn eithaf pell yn y dyfodol, ynghyd â'r hinsawdd economaidd anodd, mae hyn yn golygu na fydd gwerth cyfredol ad-daliadau'n cyfateb i'r gwerth ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Er hynny, rydym wedi rhoi darpariaeth sylweddol ar waith yn erbyn ad-daliad tebygol y benthyciadau hyn ac felly ni thybiwyd bod ailbrisiad costau cyfredol yn faterol. Gan hynny, nid yw ymddiriedolwyr yn ystyried bod eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

## Risgiau arian tramor

Nid yw'r gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

# Nodiadau i'r cyfrifon
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

## Asedau ariannol fesul categori

| | 2019–20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r datganiad o sefyllfa ariannol | | |
| – buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu | **308,964** | 338,153 |
| – arian parod a chyfwerth ag arian parod | **3,553** | 3,097 |
| – benthyciadau a symiau derbyniadwy | **6,473** | 5,062 |
| | **318,990** | 346,312 |

## Rhwymedigaethau ariannol fesul categori

| | 2019–20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o sefyllfa ariannol | | |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • symiau grant taladwy | **842,606** | 936,437 |
| • symiau gweithredu taladwy | **1,503** | 880 |
| • symiau taladwy eraill | **563** | 513 |
| • croniadau | **4,605** | 2,316 |
| | **849,277** | 940,146 |

## Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth, fesul categori, o lyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2020.

### Asedau ariannol ar 31 March 2020

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | **3,553** | **3,553** |
| Buddsoddiadau [2] | **308,964** | **308,964** |
| Symiau derbyniadwy [3] | **6,473** | **6,473** |
| | **318,990** | **318,990** |

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | 3,097 | 3,097 |
| Buddsoddiadau [2] | 338,153 | 338,153 |
| Symiau derbyniadwy [3] | 5,062 | 5,062 |
| | 346,312 | 346,312 |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2020

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Symiau grant taladwy [4] | **842,606** | **842,606** |
| Symiau gweithredu taladwy [5] | **1,503** | **1,503** |
| Symiau taladwy eraill [5] | **563** | **563** |
| Croniadau [5] | **4,605** | **4,605** |
| | **849,277** | **849,277** |

### Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Symiau grant taladwy [4] | 936,437 | 936,437 |
| Symiau gweithredu taladwy [5] | 880 | 880 |
| Symiau taladwy eraill [5] | 513 | 513 |
| Croniadau [5] | 2,316 | 2,316 |
| | 940,146 | 940,146 |

Sail prisio teg

1 Y ffigur hwn yw gwerth yr adneuon gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y llyfrwerth yn cyfateb i'r gwerth teg.

2 Rheolir y buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae ef neu hi'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer yr ymddiriedolwyr ar ddyddiad y datganiad o Sefyllfa Ariannol.

3 Ni phennir bod angen darparu ar gyfer drwgddyled. Nid yw unrhyw un o'r dyledion yn rhai tymor hir ar wahân i'r benthyciadau tymor hir.

4 Er ein bod yn datgelu gwerth £527miliwn o symiau grant taladwy nad ydynt yn ddyledus i'w talu tan ar ôl un flwyddyn yn y datganiad o sefyllfa ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r ymddiriedolwyr o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os bydd y prosiectau treftadaeth sylfaenol yn gwneud cynnydd cyflymach na'r hyn a ddisgwylir.

5 Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, 14–30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| | 2019–20 £'000 | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen llai nag un flwyddyn | **849,277** | 940,146 |
| Ymhen mwy nag un flwyddyn ond llai na dwy | **0** | 0 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **849,277** | 940,146 |

Mae'r datganiad o sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn ac ymhen mwy nag un flwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r tu hwnt i un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

## 18. Datganiad o golledion a thaliadau arbennig

Gwnaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol golledion trwy ddiddymu chwe grant gyda chyfanswm gwerth o £714,891 yn y flwyddyn (2018–19: 13 o grantiau gyda chyfanswm gwerth o £200,370). Wedi'u cynnwys o fewn y cyfanswm o chwe grant mae dau sy'n gysylltiedig â Dunkirk Little Ships Restoration Trust, gan olygu diddymiad o £691,200. Gan ddilyn newid mewn rheolaeth y safle angori, hysbyswyd y grantî bod yn rhaid i'r bad a adferwyd – y tynfad ager Challenge – adael y porthladd erbyn mis Medi 2019. Roedd gan y grantî ychydig iawn o adnoddau ac ni allai ariannu'r gwaith cynnal a chadw parhaus angenrheidiol, y gost o'i symud i angorfa newydd, neu hyd yn oed yr yswiriant blynyddol. Cysylltodd y grantî â chwmni ailddatblygu er elw sy'n arbenigo mewn adfywio mannau trefol diffaith at ddefnydd manwerthu, yr oedd hefyd yn cynnal a chadw SS Robin a dwy long hanesyddol ychwanegol, y maent oll yng Nglanfa Trinity Buoy yn ardal dociau Llundain. Cynigiodd y cwmni hwn i brynu'r bad gan y grantî am swm isel a thalu i'w symud hi i Shoreham am waith cynnal a chadw ac ymlaen wedyn i Lanfa Trinity Buoy lle y caiff ei hangori. Gan na allai'r grantî fforddio ei symud neu atgyweirio hi, os na aeth y gwerthiant trwodd, eu hunig opsiwn fyddai sgrapio'r bad. Cytunodd CGDG i ddiystyru hawlio'r swm yn ôl er mwyn i'r gwerthiant fynd trwodd.

## 19. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau y mae angen eu datgelu ar ôl 31 Mawrth 2020 hyd at y dyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu y cyfrifon hyn. Awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar 8 Gorffennaf 2020 gan yr ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 20. Costau staff

Roedd y costau staff ar gyfer 2019–20 fel a ganlyn:

| | **2019–20 £'000** | 2018–19 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **11,302** | 10,346 |
| Taliadau YG y Cyflogwr | **996** | 893 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | **2,576** | 1,929 |
| Costau staff dros dro | **727** | 700 |
| | **15,601** | 13,868 |

# Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017

O dan yr offeryn statudol hwn, mae'n ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant perthnasol cyflogeion ar gyfer y flwyddyn 2019–20. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys ein gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

**Amser Cyfleuster Undebau Llafur**

Mae'r Gronfa'n cydnabod dau Undeb Llafur, PCS a FDA, y mae'n cynnal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol a chyfarfodydd misol anffurfiol â nhw. Rydym yn credu mewn gwaith partneriaeth ac yn cefnogi aelodaeth o Undebau Llafur. Mae'r holl gynrychiolwyr Undeb Llafur yn chwarae rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr Undeb Llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau Undeb Llafur.

Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am Amser Cyfleuster Undebau Llafur a gwariant perthnasol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys ein gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

**Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn**

| | |
|---|---|
| Cynrychiolwyr undeb llafur | 20 |
| Cynrychiolwyr undeb llafur CaALl | 18.46 |

**Canran o oriau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

| Canran o oriau gwaith | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| 0% | 0 |
| 1–50% | 20 |
| 51%–99% | 0 |
| 100% | 0 |

**Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm bil tâl | £14,692,000 |
| Cyfanswm cost yr amser cyfleuster | £19,166 |

Canran y tâl a wariwyd ar amser cyfleuster: 0.13%

**Gweithgareddau undeb llafur â thâl**

| | |
|---|---|
| Oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster â thâl | 871 |
| Oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl | Dim byd |
| Canran y cyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl a dreuliwyd ar weithgareddau ULl â thâl | 0% |

# Cyfarwyddiadau polisi

## Llywodraeth y DU

Rhoddir y cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, gan ddefnyddio ei bwerau o dan adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 mewn perthynas â dosbarthu arian o dan Adran 25(4) y Ddeddf honno.

Mae'r cyfarwyddiadau DU yn berthnasol i'r holl grantiau ariannu a wneir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa). Mae cyfarwyddiadau ychwanegol yn berthnasol ar gyfer pob un o wledydd y DU.

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

### 1. Mewn partneriaeth ag arianwyr a rhanddeiliaid eraill, asesu anghenion treftadaeth y DU* i gyfeirio dyfarnu cyllid, gan gymryd unrhyw ddynodiad a threftadaeth mewn perygl i ystyriaeth benodol.

Seiliwyd ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–24 (FfAS) ar ymgynghori â sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth, y cyhoedd a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Byddwn yn parhau i asesu anghenion trwy ein perthnasoedd gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddeall anghenion treftadaeth ymhellach.

Mae'r FfAS yn amlinellu ein dealltwriaeth fras o sut y gellir ystyried bod treftadaeth mewn perygl. Mae'n cynnwys nid yn unig y dreftadaeth y dynodir ei bod mewn perygl ond hefyd treftadaeth sy'n debygol o gael ei cholli, ei difrodi neu ei hanghofio; sy'n dirywio neu wedi'i hesgeuluso; mewn perygl o ganlyniad i anhawster ariannol; treftadaeth anniriaethol ac arferion diwylliannol a allai gael eu colli; a chynefinoedd a rhywogaethau pwysig sy'n dirywio.

Rydym yn parhau i gydweithio â holl asiantaethau amgueddfa'r DU (ar draws y DU ac mewn gwledydd penodol) ar brotocol ar y cyd ynglŷn â Chasgliadau mewn Perygl. Mae canolfannau cefnogi'n canolbwyntio ar achub yr amgueddfa fel sefydliad, neu yn niffyg hynny, sicrhau y caiff casgliadau eu trosglwyddo i amgueddfeydd priodol gyda'r mynediad gofynnol. Yn yr un modd mae gennym ymagwedd fwy anffurfiol at archifau a llyfrgelloedd treftadaeth, yn enwedig trwy'r Archifau Cenedlaethol, er bod y nifer o sefydliadau'n llai na nifer yr amgueddfeydd. Dylid nodi nad oes unrhyw gynllun 'mewn perygl' diffiniedig ar gyfer y sector Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau.

Rydym yn aelod o grŵp Arianwyr yr Amgylchedd Naturiol sy'n cynnwys asiantaethau statudol yn Lloegr, elusennau amgylcheddol mwy o ran maint megis RSPB, yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a Defra. Mae'r grŵp yn rhannu gwybodaeth am yr anghenion a chyfleoedd ar draws y dirwedd a'r sectorau treftadaeth naturiol er mwyn alinio ariannu ac amlygu ceisiadau posib. Dros y deuddeg mis diwethaf ymgymerwyd â gwaith sylweddol i gryfhau ein perthnasoedd gyda Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru a Threftadaeth Naturiol Yr Alban er mwyn rhannu gwybodaeth ac alinio cyfleoedd ariannu'n well. Mae Future Parks Accelerator, menter ar y cyd rhwng y Gronfa a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, wedi galluogi ni i adeiladu ar ymchwil flaenorol a chaffael mewnwelediad gwell i anghenion y sector parciau trefol i sicrhau y targedir ein harian ble y mae ei angen fwyaf.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y DU hefyd gyda ffocws ehangach ar dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol i alluogi dosbarthu cyllid yn effeithiol. Rydym yn cyfrannu at y Fforwm Amgylchedd Hanesyddol ac yn cydweithio ar fentrau Llywodraeth y DU megis y Gronfa Trefi er mwyn cyflawni hyn.

**Cefnogi'r sector treftadaeth trwy COVID-19**
Mae ein dull o gefnogi'r sector treftadaeth yn ystod y pandemig COVID-19 yn seiliedig ar ein hasesiad o anghenion y sector. Bu i ni gywain gwybodaeth am effaith COVID-19 trwy arolwg a dargedwyd yn y lle cyntaf at ein deiliaid grant a oedd wedi derbyn dros £250,000 dros y 10 mlynedd ddiwethaf ond roedd yn agored i'r holl sefydliadau a ariannwyd. Bu i ni gyfnewid gwybodaeth trwy sgyrsiau gydag arianwyr eraill a rhanddeiliaid treftadaeth. Bu i ni ymateb yn gyflym i'r wybodaeth a gasglwyd er mwyn dyfeisio ein pecyn ymateb argyfwng o ariannu a chefnogaeth ar gyfer y tymor byr iawn.

* Mae hyn yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol, naturiol ac anniriaethol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt.

## 2. Cynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian.

Penodwyd ein chwe phwyllgor gwlad ac ardal trwy recriwtio agored yn seiliedig ar feini prawf gan gynnwys gwybodaeth am yr ardal a'r sector a gwneud penderfyniadau am grantiau dros £250,000.

Trwy gydol cyfnod ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol rydym yn cydweithio ag 13 o ardaloedd o ffocws yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r ardaloedd hyn wedi derbyn y symiau lleiaf o arian gan y Gronfa yn y gorffennol ac yn profi amddifadedd. Mae ein Timau Ymgysylltu'n gweithio gyda phartneriaid ym mhob un o'r ardaloedd i ddatblygu a hybu mwy o gyfranogiad, gweithgarwch cymunedol a buddsoddi mewn treftadaeth ac ar yr un pryd cefnogi galluedd lleol. Mae ein Timau Ymgysylltu'n cydweithio'n agos â sefydliadau megis awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, cymdeithasau tai, awdurdodau iechyd ac asiantaethau cefnogi'r sector gwirfoddol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r blaenoriaethau ac anghenion ym mhob ardal.

Trwy gydol 2019 enynnwyd diddordeb pobl sydd â phrofiad o lygad y ffynnon i ddylunio'r ymgyrch llesiant. Clywsom yn uniongyrchol gan gymunedau sy'n arwain prosiectau treftadaeth a llesiant yng Ngogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys 'Pendle Hill Landscape Partnership Project', 'Going for Independence' a 'Northern Heartlands'. Siaradodd cyfranogwyr prosiectau'n bwerus am gaffael sgiliau a chreu cysylltiadau cymdeithasol ehangach. Cyflwynodd pobl ifanc ag anableddau dysgu eu profiadau o gyfleoedd gwirfoddoli yn amgueddfeydd Manceinion, ac ymchwiliodd pobl hŷn ddall ac â nam ar y golwg i dirweddau a pharciau lleol ar draws y Gogledd-ddwyrain. Nododd y cyfranogwyr hyn iechyd corfforol gwell, awydd gwell am fwyd a lefelau llesiant meddyliol gwell o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiectau.

Rydym wedi rhedeg digwyddiadau gwlad ac ardal ac yn gweithio i sicrhau bod ein canlyniad llesiant newydd a'r ymgyrch lesiant arfaethedig wedi'u lleoli o fewn cyd-destunau gwlad, budd y cyhoedd a chymunedau lleol priodol. Cynhaliom ddigwyddiad rhanddeiliaid llesiant a threftadaeth yn Llyfrgell Menywod Glasgow a gydnabuodd y gall cyllid treftadaeth gyfrannu at anghydraddoldebau iechyd heriol yn Yr Alban trwy bartneriaethau ar draws sectorau.

## 3. Ehangu mynediad a chyfranogiad ar gyfer y rhai nad ydynt yn elwa o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Mae'r Gronfa'n cydnabod tangynrychioliad presennol llawer o bobl a chymunedau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn treftadaeth. Gwelodd 2019–20 155 o brosiectau a arweiniwyd gan sefydliadau BAME neu gyda chymunedau BAME sylweddol fel cyfranogwyr, gyda chyfanswm gwerth o £12,140,400.

Dyma'r nifer uchaf o fuddsoddiadau mewn prosiectau BAME ers 2014–15, gyda 75 o'r prosiectau hyn yn ffocysu ar rôl ac etifeddiaethau cyrhaeddiad HMT Empire Windrush yn Nociau Tilbury ym 1948. Ymysg y prosiectau oedd Windrush Cymru: 'Ein Lleisiau, Ein Storïau, Ein Hanes' a arweiniwyd gan Race Council Cymru a'r Prosiect Haneswyr Ifainc a fu'n ymchwilio i rôl menywod Affricanaidd a'u cyfraniad at system iechyd Prydain rhwng 1930 a 2000.

Yn ystod 2019–20 buddsoddwyd £1,565,300 mewn 29 o brosiectau a arweiniwyd gan LHDT+, y nifer uchaf o brosiectau sydd â ffocws LHDT+ a ariannwyd o fewn un flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys y prosiect graddfa fawr cyntaf i gael ei ariannu yng Ngogledd Iwerddon.

Arweiniodd sefydliadau a arweinir gan bobl anabl, neu'r rhai sydd â phobl ag anableddau sylweddol fel cyfranogwyr, 110 o brosiectau gwerth cyfanswm o £12,030,500 yn ystod 2019–20. Eto, mae hyn yn cynrychioli'r nifer uchaf o brosiectau treftadaeth a arweinir gan bobl anabl yn y 25 mlynedd o fodolaeth y Gronfa. Mae'r amrywiaeth o brosiectau a ariannwyd yn adlewyrchu profiadau o lygad y ffynnon pobl anabl, gan gynnwys profiadau newidiol o iechyd meddwl, anableddau dysgu a dementia. Mae nifer cynyddol o brosiectau hefyd yn dwyn sylw i ryngblethedd profiad, gan gynnwys profiadau eang eu cwmpas o anableddau, rhywedd a rhywioldeb gan bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid.

## 4. Ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ddeffro eu diddordeb a chyfranogiad yn y gweithgareddau o fewn cylch gwaith yr achosion treftadaeth da.

Rydym wedi parhau i wneud dyfarniadau i brosiectau treftadaeth a arweinir gan bobl ifanc, dyfarnwyd grantiau gwerth £3.2m i 72 o brosiectau yn 2019–20.

Mae ein prif raglen fuddsoddi gyda phobl ifanc, Kick The Dust, wedi dangos y rôl werthfawr tu hwnt y gall sefydliadau treftadaeth ac ieuenctid ei chwarae wrth effro diddordeb a chyfranogiad pobl ifanc 11–25 oed. Ar draws y deuddeg o brosiectau graddfa fawr ledled y DU rydym wedi gweld prosiectau uchelgeisiol i wneud treftadaeth yn fwy perthnasol i fywydau pobl ifanc. Bu i ni sicrhau £1.27m ychwanegol gan Gronfa Youth Accelerator Fund DCMS ar gyfer y naw prosiect yn Lloegr.

Mae Kick The Dust yn anelu at sicrhau bod mwy o bobl ifanc o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd yn dechrau ymwneud â threftadaeth. Dengys ein hymchwil fod prosiectau wedi bod yn cyrraedd cymunedau amrywiol gan gynnwys pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r system ofal neu gyfiawnder troseddol, sydd o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig (mae gan 48% y statws cymdeithasol-economaidd mwyaf difreintiedig), pobl ifanc sydd â phroblemau neu anableddau iechyd meddwl, pobl ifanc ddigartref neu unrhyw gyfuniad o'r uchod.

Mae pob un o'r 12 o brosiectau Kick The Dust yn profi amrywiaeth o ymagweddau gwahanol at ennyn diddordeb ac arweinyddiaeth pobl ifanc gan gynnwys cyfranogiad, ymgynghori, cydweithio a grymuso pobl ifanc i arwain a chynhyrchu. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiectau wedi dangos y gallant gael eu hysbrydoli gan dreftadaeth ar nifer o lefelau, os ydynt yn gwybod bod y cyfleoedd yn bodoli. Dangosodd ein gwerthusiad fod 63% o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn prosiectau'n ystyried eu bod yn ymgysylltu ar lefel 'cymryd rhan'. Maent hefyd wedi dangos arweinyddiaeth trwy gymryd rhan mewn byrddau, pwyllgorau a fforymau ieuenctid ochr yn ochr â dulliau blaengar fel cyd-gynhyrchu a chyd-guradu, comisiynwyr ifainc, mentora ac annog ymddiriedolwyr.

Ar sail gwerthuso, rydym yn gwybod y gall annog pobl ifanc i ymwneud â threftadaeth helpu gwella dysgu a dealltwriaeth o'u hunain a'u cymunedau ehangach, ac ar yr un pryd meithrin diddordeb mewn treftadaeth.

Trwy Kick the Dust, mae pobl ifanc wedi mynd i'r afael â heriau o gwmpas newid yn yr hinsawdd; sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol a'i bod yn adlewyrchu hunaniaethau pawb sy'n cymryd rhan; ymholi i gasgliadau a'u dad-drefedigaethu, a rhoi lleisiau i'r rhai y mae eu storïau wedi'u distewi neu eu colli wrth i amser fynd heibio; defnyddio gofodau treftadaeth at ddibenion eraill; cydlynu digwyddiadau hwyrnos, gwyliau, prosiectau ffotograffiaeth, sioeau ffasiwn, llwybrau sain, caffis marwolaeth a llawer mwy.

## 5. Maethu mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, cyfoethogi'r parth cyhoeddus a chryfhau cymunedau.

Bydd y cyfleoedd a ddarperir gan y sector i ddod â phobl ynghyd a rhannu eu profiadau o lygad y ffynnon, adeiladu cydnerthedd a chydlyniant cymunedol yn parhau'n hollbwysig yn y cyd-destun ôl-Brexit. I nodi 50 mlynedd ers terfysgoedd Stonewall, bu i ni arwain tymor treftadaeth LHDT+ llwyddiannus iawn a rannwyd yn helaeth rhwng Mehefin ac Awst 2019. Bu'r tymor yn cynnwys cyfweliadau gyda sefydliadau a arweinir gan LHDT+, gan ddarparu cyngor ar heriau a rhannu'r dysgu o brosiectau treftadaeth LHDT+ presennol. Un uchafbwynt oedd blog gan ddau arweinydd treftadaeth anabl benywaidd a rannodd eu harbenigedd ac uchelgais i gyflawni sector treftadaeth mwy cynhwysol.

Daethom ynghyd â Historic England i ennyn diddordeb cymunedau yn eu strydoedd mawr trwy raglenni diwylliannol fel rhan o'r rhaglen Parth Gweithredu Treftadaeth y Stryd Fawr. Rydym yn buddsoddi £3m yn y Rhaglen Ddiwylliannol, a ddyluniwyd ochr yn ochr â Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr, a fydd yn dod â'r edefyn rhaglen gyfalaf yn fyw ar gyfer cymunedau lleol.

**Ymaddasu yn y pandemig COVID-19**
Mae'r sector treftadaeth wedi bod yn addasu cyfleoedd wyneb wrth wyneb, gan ddefnyddio adnoddau digidol a rhannu gwybodaeth yn ystod y pandemig COVID-19 byd-eang presennol.

Lansiwyd ein menter Sgiliau Treftadaeth Digidol i gynyddu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud at ansawdd bywyd cymunedol, ymddiriedaeth gymdeithasol a thaclo heriau. Mae ymdrin â materion unigedd ac unigrwydd cymdeithasol sy'n ymestyn ar draws cenedlaethau'n mynd yn hollbwysicach byth wrth i ni ymateb i'r heriau presennol mewn cymdeithas.

## 6. Cefnogi ac adeiladu gallu ehangder llawn y gweithlu treftadaeth, o wirfoddolwyr i weithwyr proffesiynol, i sicrhau cadwraeth treftadaeth gyda'r sgiliau priodol.

Rydym yn parhau'n ymroddedig i'r canlyniad, 'Bydd pobl wedi datblygu sgiliau'. Rydym am i'n buddsoddiadau helpu pobl i ddatblygu sgiliau allweddol, gan helpu sefydliadau treftadaeth i fynd yn fwy cydnerth neu fentrus a sicrhau bod treftadaeth mewn cyflwr gwell. Rydym eisiau gweld amrywiaeth ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth trwy greu cyfleoedd hyfforddiant, cyflogaeth lefel mynediad a chynnydd sy'n fwy cynhwysol.

Mae bron hanner yr holl ddyfarniadau llwyddiannus uwchben £100,000 a wnaed trwy ein rhaglen grantiau agored wedi cynnwys cyllideb ar gyfer lleoliadau hyfforddi â thâl o fewn camau cyflwyno prosiectau, gan gefnogi llwybrau newydd i'r sector treftadaeth a hybu mynediad cyfartal i gyfleoedd cyflogaeth. At ei gilydd, bydd 113 o hyfforddeiaethau neu brentisiaethau â thâl yn cael eu creu fel rhan o brosiectau mwy o ran maint neu o ganlyniad i brosiectau a ariannwyd eleni.

Mae'r garfan derfynol o 18 o brosiectau Skills for the Future, a ariannwyd o dan y fframwaith ariannu blaenorol, yn parhau i gyflwyno dulliau arloesol o recriwtio'n gynhwysol a rhagoriaeth wrth gyflwyno sgiliau. Mae'r dysgu o'r ymyraethau strategol graddfa ehangach hyn wedi siapio'r arweiniad arfer da a grëwyd ar gyfer y Fframwaith Ariannu Strategol newydd.

## 7. Symbylu arloesedd a rhagoriaeth trwy annog arfer da a chyflawni safonau uchel y gellir darparu tystiolaeth ohonynt.

Mae Future Parks Accelerator (FPA) yn rhaglen gwerth £12.5m sy'n gweithredu mewn naw lleoliad yn Lloegr a'r Alban, sy'n gartref i fwy na phum miliwn o bobl ac yn gyfrifol am dros 20,000 hectar o ofod gwyrdd trefol sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae FPA wedi buddsoddi mewn carfan fach o awdurdodau lleol sydd â'r uchelgais, yr arweinyddiaeth, y gallu a'r parodrwydd i yrru newidiadau trawsnewidiol yn gyflym, yn ymarferol ac yn systematig ar draws eu trefi, dinasoedd a chymunedau, mewn ffyrdd y gellir eu hefelychu.

Mae FPA yn hwyluso ac yn cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i drawsnewid y gofod gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn eu tref neu ddinas; rhoi isadeiledd gwyrdd wrth wraidd bywyd dinesig, tyfu'r budd neu werth a grëwyd gan yr asedau cyhoeddus hyn a datblygu modelau ariannol newydd a fydd yn galluogi parciau i fod yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Yn 2019–20, mae'r rhaglen wedi ennyn diddordeb amrywiaeth eang o bartneriaid a chymunedau wrth ddylunio a rhedeg gofodau gwyrdd trefol yn eu hardal yn y dyfodol, mae wedi cwblhau cyfrifon cyfalaf naturiol a phrisio ecosystem y gwasanaethau a gynhyrchir gan eu gofodau gwyrdd. Mae'r prosiectau wedi dechrau dylunio modelau ariannol newydd gan gynnwys peilota technegau codi arian ac ymchwilio i'r potensial am fenter, ymchwilio i ddulliau trefnu newydd a rhoi'r gweithlu, gan gynnwys gwirfoddolwyr, ar waith, dechrau cyd-ddylunio'r model ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol seiliedig ar natur, a chychwyn sefydlu 'Sefydliadau Parciau' newydd.

## 8. Sicrhau y dosberthir arian ar gyfer prosiectau sy'n hybu'r budd cyhoeddus yn y tymor hir nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Dyfernir grantiau mwy dros £100,000 y Gronfa ddim ond i sefydliadau nid er elw a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid er elw. Gall perchnogion preifat ymgeisio am grantiau gwerth hyd at £100,000 yn unig trwy ein rhaglenni agored. Mae angen i'r prosiectau hyn gyflwyno deilliannau cymdeithasol a chymunedol cadarnhaol a dangos y bydd y budd cyhoeddus yn gorbwyso unrhyw elw preifat yn sylweddol.

Trwy ein rhaglen Menter Treftadaeth, rydym yn parhau i gefnogi prosiectau sy'n sicrhau defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol a danddefnyddir, sy'n ddiffaith neu mewn perygl, gan gynnwys at ddibenion tai. Rydym yn croesawu elfennau masnachol i'r defnyddiau newydd hyn

pan fyddant yn cefnogi dichonoldeb y cynllun arfaethedig yn gyffredinol. Gall y mathau hyn o brosiectau gael eu harwain gan sefydliadau er elw mewn cydweithrediad â sefydliadau nid er elw.

## 9. Datblygu amcanion datblygu cynaliadwy.

O dan ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol rydym yn mynnu bod yr holl brosiectau'n dilyn arfer cynaladwyedd amgylcheddol da, gan nodi y dylai pob prosiect wneud mwy i fwyafu natur. Eleni rydym wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth (MoDd) gyda Fit for the Future (FftF), rhwydwaith rhannu gwybodaeth yn gweithredu ar draws y sector treftadaeth sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad amgylcheddol sefydliadau a phrosiectau treftadaeth.

Mae'r MoDd yn golygu y gall y sefydliadau a ariannwn ddod ynghyd ac elwa o rwydwaith o dros 120 o sefydliadau treftadaeth eraill, megis Historic England a Historic Environment Scotland, i rannu gwybodaeth a gwella perfformiad eu prosiectau. Gyda chymorth gan FftF rydym wedi ailddylunio a lansio arweiniad cynaladwyedd newydd ar ein gwefan ac rydym wrthi'n creu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ein timau asesu trwy ein Hyb Gwybodaeth mewnol i ddatblygu dealltwriaeth ymysg staff.

Ym mis Mawrth cymeradwyodd ein Bwrdd gynllun tri phwynt i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol gan gynnwys; deall a gostwng ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain, gwella perfformiad cynaladwyedd y prosiectau a ariannwn, ac ystyried ein rôl ni yn y dyfodol wrth ymgynnull ac arwain y sector treftadaeth i fynd i'r afael â rhai o'r problemau allweddol wrth sicrhau datblygu cynaliadwy ac ar yr un pryd ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol.

## 10. Gostwng amddifadedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir.

Gan ddilyn lansiad ein Fframwaith Ariannu Strategol, dechreuom ennyn diddordeb ein 13 o ardaloedd ffocws fel a amlinellwyd o dan gyfarwyddyd polisi 2. Rydym yn parhau i ddatblygu dulliau newydd o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfranogiad mwy gweithredol a buddsoddiad mewn treftadaeth. I fonitro ac adrodd ar gynnydd, rydym wedi comisiynu gwerthusiad pum mlynedd i ddarparu adborth ar brosesau, cynnydd ac effaith, i adnabod a rhannu arfer da ac enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio, ac i gefnogi timau i adeiladu galluedd lleol.

Yn 2019–20 mae ychydig o dan draean (30%) o'r holl gyllid wedi'i ymrwymo yn y 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhob un o bedair gwlad y DU (yn seiliedig ar y mynegeion amddifadedd lluosog diweddaraf ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ar lefel awdurdodau lleol).

Gwnaed 97% o benderfyniadau am ariannu prosiectau newydd gan bobl yn lleol – pwyllgorau a staff uwch yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r tair ardal o Loegr. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau am grantiau prosiect rhwng £3,000 a £5miliwn, ac ar unrhyw ymgyrchoedd treftadaeth gwlad neu leol, cyllid neu fuddsoddiadau cymdeithasol ar y cyd sy'n cael eu hariannu trwy gyllidebau dirprwyedig. Rydym yn parhau i ddyrannu cyllidebau fesul pen yn achos yr holl gyllid nas neilltuwyd ar gyfer ymyraethau strategol neu yn achos cystadlu ar draws y DU. Rydym hefyd yn cadw 'swm gwlad wrth gefn' yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer achosion blaenoriaeth uchel na ellir darparu ar eu cyfer yn y cyllidebau dirprwyedig.

## 11. Gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, i sicrhau effaith gadarnhaol cyllid y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys gwerthuso prosiectau a rhannu data pan fo'n briodol.

Ym mis Hydref, cytunodd y Fforwm Loteri (y grŵp Prif Weithredwyr ar draws y dosbarthwyr) ffocws ar greu lleoedd fel thema y gallai'r holl ddosbarthwyr gyfrannu ati, er mwyn cynnal momentwm y Pen-blwydd yn 25 oed ym meddwl y cyhoedd. Fe gytunom hefyd i ymchwilio i ddulliau cydweithio newydd mewn rhai lleoedd i brofi p'un a fyddai ymyraethau ar y cyd yn fwy effeithiol na gweithio'n annibynnol. Ail amcan oedd gwella cywain a rhannu data rhwng dosbarthwyr, gan ddechrau gyda dealltwriaeth well o'n lefel bresennol o aeddfedrwydd data.

Gohiriwyd y ddwy ffrwd waith oherwydd yr argyfwng COVID-19 ond maent wedi cael eu hailddatblygu: mae'r gwaith ar y cyd yn cael ei symud ymlaen trwy'r grŵp Cronfa Trefi o Gyrff Hyd Braich DCMS (gan gynnwys Historic England

yn ogystal â'r Cyrff Dosbarthu'r Loteri) a thrwyddynt byddwn ar y cyd yn cefnogi trefi yn Lloegr i ddatblygu cynigion diwylliannol cryf fel rhan o'u Bargeinion Trefi a ariennir gan y Weinidogaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol; a bydd y grŵp sy'n gweithio ar rannu data yn awr yn datblygu ymagwedd ar y cyd at gywain data a gwerthuso buddsoddiad £600m y teulu Loteri Genedlaethol mewn cefnogaeth frys ar gyfer ein sectorau trwy gydol yr argyfwng COVID-19.

### 12. Cynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Mae'n rhaid i'r holl ddeiliaid grant gydnabod cefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol fel amod o'r grant. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn am gyfnod llawn y contract grant. Rydym yn darparu deunyddiau cydnabyddiaeth â'r brand arnynt ac mae'n rhaid i arwyddion sy'n dangos ein logo fod yn weladwy mewn ardaloedd cyhoeddus, ar-lein, ar ddeunyddiau hyrwyddo, hysbysebu ac mewn digwyddiadau ac rydym yn disgwyl cydnabyddiaeth mewn sylw a roddir i brosiectau yn y cyfryngau. Rydym yn mynnu cydnabyddiaeth trwy gydol y prosiect o'r cyhoeddiad hyd at ar ôl ei gwblhau. Wrth asesu cynnydd y prosiect, rydym yn chwilio am gydnabyddiaeth weledol briodol o'ch grant.

Roedd Pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 Oed yn ennyd tirnod i'r Teulu Loteri Genedlaethol cyfan i ddathlu effaith anhygoel y Loteri Genedlaethol ar draws y DU dros y 25 mlynedd ddiwethaf. Cododd ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus gynhwysfawr ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth werth £40biliwn dros achosion da yn ystod y cyfnod hwn, a dywedwyd 'diolch i chi' i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Cyrhaeddodd yr ymgyrch gynulleidfa enfawr, gan gynnwys dros 6,000 o ddarnau o sylw uchel ei ansawdd yn y cyfryngau cenedlaethol, ardal a lleol. Rhwng 23 Tachwedd ac 1 Rhagfyr, rhedwyd #DiolchiChi fel rhan allweddol o raglen y Pen-blwydd yn 25 Oed gyda mynediad am ddim a chynigion arbennig eraill ar gyfer deiliaid tocynnau Loteri Genedlaethol i rai o atyniadau pennaf y DU. Cymerodd llawer o atyniadau treftadaeth y DU ran, gan gynnwys mwy na 100 o adeiladau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd 650 o gynigion ar gael, cynnydd o 53% ers 2017.

### 13. Mynnu elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.

Mynnwn fod ymgeiswyr yn sicrhau isafswm lefelau o gyllid partneriaeth gan ddibynnu ar lefel y grant y maent yn ymgeisio amdano. Nid yw'n ofynnol i geisiadau am lai na £100,000 gael unrhyw gyllid partneriaeth ond gallant nodi cyfraniadau arian parod yn unig ar y ffurflen gais.

Mae'n ofynnol cael isafswm o 5% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau rhwng £100,000 ac £1m. Mae'n ofynnol cael isafswm o 10% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau o £1m a mwy. Yn achos yr isafswm gofyniad 5 a 10% gellir darparu'r cyllid partneriaeth ar ffurf arian parod, ar ffurf nad yw'n arian parod neu amser gwirfoddolwyr.

### 14. Yr angen a) I'r arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau dim ond at ddiben penodol gyda chyfyngiad amser; b) Sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a chyngor arbenigol gofynnol i wneud penderfyniadau ar bob cais; a c) I ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol prosiectau.

Atgyfnerthodd ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 y cyfarwyddyd polisi hwn:

a) Mae'r prosiectau a gefnogwn yn rhai penodol sydd â chyfyngiad amser arnynt. Rydym yn cyfyngu ein cefnogaeth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithgareddau.

b) Rydym yn gofyn am wybodaeth gan ymgeiswyr sy'n esbonio i ba raddau y bydd y prosiectau y maent yn eu cyflwyno'n gwneud achos cadarn dros fuddsoddi, y byddant yn cyflwyno ein erbyn ein naw canlyniad, eu bod yn ddichonol ac yn gynaliadwy yn ariannol ac yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

c) Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos dichonoldeb ariannol eu prosiect, wedi'i dorri i lawr i gostau cyfalaf, gweithgareddau a chostau eraill a chan

ddangos pa gyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Rydym yn gofyn am ragamcaniadau llif arian ac, ar gyfer prosiectau mwy o ran maint, incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect dros yr hir dymor.

## 15. Pan geisir cyllid cyfalaf, yr angen am (a) gynllun busnes clir sy'n dangos sut caiff unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw eu talu dros gyfnod rhesymol a (b) am sicrhau bod arfarnu a rheoli prosiectau mawr yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Porth yr Awdurdod Prosiectau Mawr.

a) O dan ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 presennol, rydym yn mynnu bod yr holl brosiectau mawr (dyfarniadau dros £250,000) yn darparu cynllun busnes gyda'u cais cam datblygu a ddiwedderir wedyn gyda'u cais cam cyflwyno. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y sefydliad yn hytrach na'r prosiect, gan adlewyrchu ein diddordeb mewn cydnerthedd sefydliadol a galluedd y sefydliad i gynnal buddiannau ein buddsoddiad dros y tymor hir. Rydym yn darparu set gyfan o arweiniad i grantïon gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, cynllunio cadwraeth a rheoli a chynnal a chadw tirweddau, parciau a gerddi i helpu cyfeirio eu cynlluniau busnes a dylanwadu arnynt.

Mae'r prosiectau a ariannwyd o dan ein Fframwaith Strategol 2013–2019 yn cael eu monitro'n unol â'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn cais y Grantî gan gynnwys unrhyw wybodaeth atodol sydd yn y cynllun gweithgareddau, rhagamcaniadau llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys dros werth £200,000 o waith cyfalaf, rydym yn gofyn am gynllun rheoli a chynnal a chadw sy'n manylu sut y byddai'r ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol ar ôl cwblhau eu prosiect.

Ar gyfer grantïon sy'n derbyn dyfarniadau gwerth dros £2m, rydym yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun busnes y prosiect a gyflwynir gyda chais y rownd gyflwyno. At hynny, mae'n ofynnol i brosiectau sydd ag elfen gadwraeth sylweddol gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal a chadw'r dreftadaeth dros y tymor hir.

b) Mae'r holl brosiectau'n mynd trwy broses ganiatâd i ddechrau sy'n darparu porth priodol gan ddilyn cymeradwyaeth o'n buddiant yn y prosiect. Ar gyfer prosiectau cyfalaf rydym hefyd yn cynnwys pwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gamau'r Cynllun Gwaith RIBA). Rydym yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol ar gyfran sylweddol o brosiectau sy'n derbyn dros £250,000 i helpu sicrhau bod prosiectau'n cyflwyno yn erbyn y dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risg i'r Gronfa'n cael ei deall a'i rheoli, y cyflawnir arfer gorau ym mhob maes critigol a bod yr adrodd a rheoli ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

## 16. Annog a chefnogi'r defnydd priodol o fodelau ariannu creadigol (benthyciadau, mentrau ariannu cymunedol, ariannu torfol etc) i gynyddu dichonoldeb prosiectau, cynaladwyedd ariannol a'r buddsoddiad cyffredinol mewn treftadaeth.

Yn ystod 2019–20 bu i ni ymchwilio i ddulliau gwahanol o drosoli ein buddsoddiad yn effeithiol i ddenu cyllid newydd ar gyfer treftadaeth ac i ddatblygu partneriaethau sy'n helpu cyflwyno ar ganlyniadau ein Fframwaith Ariannu Strategol.

Yn gynnar yn 2019 fe fuddsoddom yn y Gronfa Effaith Treftadaeth (CET), y tro cyntaf yr oedd y Gronfa wedi mynd ati i ddefnyddio cyllid y Loteri Genedlaethol i ddarparu buddsoddi cymdeithasol yn y sector. Mae'r gronfa £7m benodedig hon, a gyflwynir gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol mewn partneriaeth â'r Gronfa Dreftadaeth, Historic England, CADW a Historic Environment Scotland, yn darparu cyllid ar ffurf benthyciadau i sefydliadau treftadaeth i gyflwyno effaith cymdeithasol ac economaidd gadarnhaol trwy ailddefnyddio adeiladau treftadaeth. Ers ei lansio, mae 13 o gynigion benthyciad wedi cael eu gwneud trwy'r CET gyda phroses iach yn ei lle ar gyfer dyrannu'r cyllid sy'n weddill.

Lansiwyd Cronfa Effaith Ddiwylliannol y Celfyddydau (CEDdC) ym mis Mawrth 2020, gan fuddsoddi £2m yn y gronfa £20m i estyn cylch gwaith ac argaeledd cyllid cymdeithasol i sefydliadau treftadaeth ar hyd a lled y DU. Cyflwynir CEDdC mewn partneriaeth â NESTA, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Esmee Fairbairn, Big Society Capital a Bank of America Merrill Lynch. Bydd y Gronfa'n

rhedeg dros 10 mlynedd gyda'r tair blynedd gyntaf yn gyfnod buddsoddi gweithredol a fydd yn targedu 40 o fuddsoddiadau rhwng £150,000 – £1,000,000 ar gyfraddau llog rhwng 4% a 10% a chyfnodau ad-dalu nodweddiadol rhwng 12 mis a 10 mlynedd.

Mae'r partneriaethau hyn yn cyfeirio ein hymagwedd strategol ehangach at fodelau buddsoddi newydd. Trwy'r gwaith hwn ar y cyd ar draws sectorau rydym yn symbylu arloesedd ac yn cefnogi datblygiad modelau busnes newydd a fydd yn cynyddu cydnerthedd y sector treftadaeth ehangach ac ar yr un pryd mwyafu ein buddsoddiad er mwyn yr effaith gymdeithasol fwyaf. Rydym wedi ymuno â'r Grŵp Buddsoddwyr Effaith Gymdeithasol a redir gan y Gymdeithas Sefydliadau Elusennol i gyfranogi mewn rhannu gwybodaeth a chydweithio ar fuddsoddi er effaith.

Ym mis Rhagfyr 2019 cymerodd y Gronfa ran yn Her Nadolig y Rhodd Fawr fel ariannwr cyfatebol ar gyfer ymgyrchoedd ariannol torfol a redir gan elusennau. Roedd ein cyfraniad at y portffolio o brosiectau gwerth cyfanswm o £227,620. Cyfrannodd y cyllid cyfatebol hwn at y cyfanswm ffigur o £972,050 a godwyd gan y 31 o elusennau a gymerodd ran. Adroddwyd bod 92% o elusennau a gymerodd ran wedi derbyn rhoddion gan gefnogwyr newydd a bod 87% o elusennau wedi adrodd hyder cynyddol mewn codi arian ar-lein.

Ym mis Mawrth 2020 fe ddyfarnom gyfanswm o £1.87miliwn fel rhan o becyn £4.2miliwn ehangach ar gyfer cefnogaeth fusnes i ddau brosiect a fydd yn cyflwyno rhaglenni DU gyfan o hyfforddi a datblygu ar gyfer y sector. Bydd y rhaglenni hyn yn anelu at gefnogi sefydliadau diwylliannol a threftadaeth i fabwysiadu modelau menter gymdeithasol er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus, cryfhau eu harweinyddiaeth strategol a rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallant fanteisio ar ffurfiau ar gyllid ad-daladwy.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at nodau'r Gronfa o gynyddu galluedd a chydnerthedd a gyrru datblygiad menter mewn sefydliadau sy'n gweithio ar draws treftadaeth y DU trwy ymgyrch dwy flynedd o ariannu gwaith strategol ar y cyd ac arweinyddiaeth meddwl.

## 17. Cynyddu sgiliau a galluedd digidol a'r defnydd o offer digidol o fewn Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r sector treftadaeth, annog cywain, defnyddio a rhannu deunyddiau treftadaeth digidol yn well ac annog arloesedd digidol.

Penododd y Gronfa Bennaeth Polisi Digidol newydd ym mis Ionawr 2020 i arwain ar ein menter Sgiliau Treftadaeth Digidol £1.2m a lansiwyd ym mis Chwefror 2020. Bydd y fenter hon yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i ddatblygu ac arwain sgiliau digidol ac yn canolbwyntio ar ddarparu eiriolaeth a chymorth ymarferol i yrru galluoedd digidol i fyny ar draws y sector treftadaeth.

Mae'r fenter yn cynnwys prosiect 'Arwain y Sector' dwy flynedd, sy'n noddi 30 o weithredwyr i ennill arbenigedd mewn arweinyddiaeth ddigidol, a'r 'Gronfa Hyder Digidol' a fydd yn darparu mentora ar gyfer 20 o sefydliadau yn ein 13 o Ardaloedd Ffocws fel y gallant adnabod a mabwysiadu dulliau digidol i gyflwyno nodau strategol.

Fe ddyfarnom £496,000 i ddau brosiect sydd â'r nod o gynyddu nifer y sgiliau, digwyddiadau ac adnoddau digidol am ddim ar gyfer sefydliadau treftadaeth ar draws y DU. Rydym wedi creu tîm dylunio gwasanaethau digidol amlddisgyblaeth newydd hefyd i wella ein defnydd ein hunain o dechnoleg ymysg staff, gan sefydlu ymagweddau ystwyth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr at ein hoffer a phrosesau ariannu ar-lein.

## 18. Cywain, deall a lledaenu data ar ymgyrhaeddiad, effaith a chynulleidfa gwaith Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i wella polisïau a gweithdrefnau gwneud grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys cefnogi'r gwaith ar gyfranogiad. Dylid gwneud data mor dryloyw a hygyrch â phosib.

Yn y flwyddyn ariannol 2019–20 rhyddhaodd y Gronfa wybodaeth am grantiau fel data agored, gan gyhoeddi ein data grantiau FfS4 sy'n ymwneud â dyfarnu dros 10,000 o grantiau gyda gwerth o £2.2bn ar ein gwefan ein hunain a thrwy'r llwyfan 360 Giving GrantNav.

Fel prif ariannwr treftadaeth ar draws y DU, mae dyletswydd arnom i fod yn dryloyw ynglŷn â'n penderfyniadau ariannu a gwella mynediad cyhoeddus i wybodaeth am ein grantiau. Rydym eisiau i'r data rydym yn ei gywain a'i gadw fod ar ffurf a all gael ei defnyddio (h.y. cyson a chywir), wedi'i integreiddio ac yn gwbl hygyrch ar draws y sefydliad i'n helpu cwrdd â'n hamcanion corfforaethol.

Ar adeg ysgrifennu rydym ni'n un o 134 o arianwyr i gyhoeddi ein data trwy'r Llwyfan 360 Giving GrantNav. Mae gan gyhoeddi ar y llwyfan 360 Giving GrantNav y mantais o alluogi ni i groesholi ein data yn erbyn daearyddiaethau a sefydliadau a ariennir gan arianwyr eraill a deall y dirwedd gwneud grantiau ar draws y DU yn well, gan wella'r penderfyniadau a wnawn. Rydym yn bwriadu parhau i gyflwyno ein data trwy'r flwyddyn ariannol 2020–21.

# Lloegr

1. Annog cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad, hyrwyddiad a dehongliad o dreftadaeth Lloegr, er mwyn iddi barhau i gael ei gwerthfawrogi a'i deall gan genedlaethau'r dyfodol.
2. Rhoi ystyriaeth i fuddiannau Lloegr yn gyffredinol a buddiannau rhannau gwahanol o Loegr, gan gymryd patrymau demograffaidd ac amgylchiadau economaidd amrywiol rhannau gwahanol o Loegr i ystyriaeth.
3. Annog cynaladwyedd ariannol a, lle bo'n ddichonol ac yn briodol, y defnydd cymunedol o asedau treftadaeth yn Lloegr gan roi sylw arbennig i'r rhai sydd mewn perygl.
4. Cydweithio'n strategol ag eraill i fwyafu effaith arian y Loteri Genedlaethol, gan annog partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol pryd bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl a threftadaeth.

# Yr Alban

## Cyfarwyddiadau a roddir i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan adran 26(2) fel y'i darllenir gydag adran 26A(2) (b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

Gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddynt gan adran 26(2) fel y'i darllenir gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993[1], ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (yr "Ymddiriedolwyr"), trwy hyn rhoddaf y cyfarwyddiadau a ganlyn:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddosbarthiad a wneir gan yr Ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n gysylltiedig â materion a gedwir yn ôl.

2. Wrth bennu'r personau i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y maent yn cymhwyso unrhyw arian o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 etc. yn Yr Alban, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr gymryd y blaenoriaethau a ganlyn a materion eraill i ystyriaeth:

   A. Yr angen am gefnogi Diben Llywodraeth Yr Alban o greu gwlad Yr Alban sy'n fwy llwyddiannus, gyda chyfleoedd i'r Alban i gyd ffynnu trwy gynyddu twf economaidd cynaliadwy.

   B. Yr angen am ymgysylltu'n effeithiol â Gweinidogion Yr Alban wrth ddatblygu polisi a rhaglenni ariannu cysylltiedig, fel y bo'n briodol, i fwyafu buddiannau cronnus i bobl a threftadaeth Yr Alban.

   C. Yr angen am hwyluso'r cyfraniadau mwyaf posib gan y sectorau treftadaeth naturiol a diwylliannol i helpu rheoli pontio i economi carbon isel a chyflwyno targedau newid yn yr hinsawdd Yr Alban.

   Ch. Yr angen am wella ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy brosiectau sy'n hybu cynhwysiad cymdeithasol ac yn mwyhau ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol.

   D. Yr angen am gefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at adeiladu gwlad Yr Alban sy'n Decach i bawb.

   Dd. Yr angen am sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol ar draws Yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion a ganlyn:

   - Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu a mwyhau ein treftadaeth naturiol a diwylliannol lewyrchus fel cydrannau hanfodol o'n heconomi, diwylliant, ffordd o fyw a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
   - I fod yn iach ac yn hapus fel cenedl mae'n rhaid i ni feithrin a diogelu ein hadnoddau ac amgylcheddau lleol a phawb sy'n byw ynddynt.

   E. Yr angen am gydweithio â phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i helpu cyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer pobl a threftadaeth naturiol a diwylliannol Yr Alban, wedi'i arwain gan y blaenoriaethau ac egwyddorion strategol sy'n sail i nifer o strategaethau cenedlaethol y maent eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws Yr Alban, gan gymryd unrhyw adnewyddiad neu adolygiad o'r strategaethau dan sylw yn y dyfodol i ystyriaeth a, lle bo'n briodol, unrhyw strategaethau newydd a ddatblygir, er enghraifft, Y Strategaeth Ddiwylliant. Y strategaethau cyfredol yw:

   - **Y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol;**
   - **Going Further** – Strategaeth Amgueddfeydd ac Orielau Yr Alban;
   - **Our Place in Time** – Strategaeth Amgylcheddol Hanesyddol Yr Alban;
   - **Her 2020 ar gyfer Bioamrywiaeth Yr Alban;**
   - **Y Cynllun Iaith Gaeleg Cenedlaethol; Y Cynllun Iaith Sgoteg;** a'r,
   - **Egwyddor o Le.**

   F. Yr angen am ddangos sut mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymateb i Gyfarwyddiadau Polisi Gweinidogion Yr Alban.

# Cymru

## Cyfarwyddiadau Polisi mewn perthynas â Chymru

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddynt trwy adran 26 (2) Deddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1993 fel y'i trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("y Gronfa") yn unol ag adran 26 (5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

Rhoi ystyriaeth i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac annog cyrff cyhoeddus i feddwl yn fwy am y tymor hir, cydweithio'n well â phobl a chymunedau a gyda'n gilydd, anelu at atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydlynol. Mae saith nod llesiant gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a phum dull o weithio – tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad.

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

1. Annog cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad, hyrwyddiad a dehongliad pob agwedd ar dreftadaeth naturiol, diwylliannol ac anniriaethol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
2. Rhoi ystyriaeth i fuddiannau Cymru'n gyffredinol a buddiannau rhannau gwahanol o Gymru, gan gymryd y patrymau demograffaidd ac amddifadedd amrywiol mewn rhannau gwahanol o Gymru i ystyriaeth.
3. Hybu a chefnogi'r iaith Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, a gweithio'n unol â'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru. Gweithredu'n unol â Chynllun Iaith Gymraeg cytunedig y Gronfa, a monitro ei weithrediad yn unol â'r gweithdrefnau cytunedig.
4. Cydweithio'n strategol ag eraill i fwyafu effaith arian y Loteri Genedlaethol ar bobl a threftadaeth, gan annog partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i wneud hynny.
5. Annog cynaladwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru a, lle bo'n ddichonol ac yn briodol, y defnydd cymunedol o asedau treftadaeth yng Nghymru gan roi sylw arbennig i'r rhai sydd mewn perygl.
6. Darparu cyfleoedd i bobl, yn enwedig pobl ifanc, gaffael y sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad a hyrwyddiad treftadaeth Cymru.
7. Annog y defnydd o safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.
8. Darparu cyfleoedd i bobl o bob oedran a chefndir o bob cwr o Gymru, yn enwedig plant a phobl ifanc, gael mynediad i dreftadaeth amrywiol Cymru, dysgu amdani a'i mwynhau a thrwy hynny, ei hyrwyddo.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos cynnydd ar brosiectau sy'n ymwneud â £5miliwn neu fwy o arian Loteri.

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdeen Art Gallery: Inspiring Art and Music | Yr Alban | Cyngor Dinas Aberdeen – Oriel Gelf ac Amgueddfeydd Aberdeen | 29,737,519 | 126,200 (datblygu) Ebrill 2013 9,997,500 (cyflwyno) Hydref 2014 | Cyflwyno 90 | Bu oedi i'r rhaglen adeiladu am 24 mis, ac mae'r cleient a'r contractwr bellach yn cynnal trafodaethau ar y cyfrif terfynol. Agorodd yr Oriel i glod uchel ym mis Hydref 2019. Cymeradwywyd estyniad GED tan fis Rhagfyr 2021 i alluogi cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o arddangosfeydd a digwyddiadau. Mae Oriel Gelf Aberdeen/Neuadd Cowdray bellach wedi'u cau o ganlyniad i COVID-19. |
| Acquisition of the Armada Portrait of Elizabeth 1 | Llundain | Yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol | 10,217,900 | 7,257,700 (cyflwyno) Medi 2016 | Cyflwyno 96 | Mae'r portread yn cael ei arddangos yn Nhŷ'r Frenhines (sydd ar gau dros dro). Bu'r gweithgareddau lleol yn llwyddiannus ac mae'r prosiect wedi derbyn estyniad GED i sicrhau y gellir cyflwyno'r allgymorth DU gyfan. Mae hyn wedi'i oedi o ganlyniad i COVID-19, ond ymddengys y bydd modd rheoli'r sefyllfa. |
| Alexandra Palace: Reclaiming the People's Palace | Llundain | Ymddiriedolaeth Elusennol Parc a Phalas Alexandra | 26,737,458 | 844,800 (datblygu) Ebrill 2013 18,850,000 (cyflwyno) Chwefror 2017 | Cyflwyno 97 | Mae'r prosiect hwn wedi'i gwblhau a than yr argyfwng COVID-19 roedd yn llwyddiannus iawn. Roedd gweithgareddau a ariannwyd gan dreftadaeth yn dod i ben a'r bwriad oedd cau'r prosiect yn ffurfiol yn hydref 2020. Mae'r adeilad ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Mae apêl argyfwng wedi cael ei lansio. |
| Aspire (Constable 'Salisbury Cathedral from the Meadows') | Llundain | Tate | 24,273,455 | 15,800,000 (cyflwyno) Ebrill 2013 | Cyflwyno 100 | Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau, fodd bynnag mae'r holl orielau Tate ar gau o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. |
| Auckland Castle: Creating Faith in a Better Future | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Castell Auckland | 20,520,200 | 1,000,000 (datblygu) Ebrill 2013 11,400,000 (cyflwyno) Awst 2016 | Cyflwyno 88 | Mae contract y Castell wedi'i gwblhau ond mae ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Mae Amgueddfa Faith yn dal i gael ei hadeiladu a disgwylir oedi. Mae'r contractwyr ar y safle o hyd ond yn gweithio ar gapasiti llawer is er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Disgwylir i'r rhaglen barhau am isafswm o ddwy flynedd. |
| Bath Abbey Footprint | De-orllewin Lloegr | Cyngor Eglwys Blwyfol Abaty Caerfaddon | 19,295,270 | 389,000 (datblygu) Ebrill 2014 10,725,300 (cyflwyno) Mawrth 2016 | Cyflwyno 54 | Roedd gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo ac yn gwneud cynnydd da er gwaethaf darganfyddiadau archeolegol o bwys annisgwyl o dan loriau'r Abaty. Caeodd y safle a stopiwyd y gwaith cyfalaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Roedd y gweithgareddau'n symud ymlaen yn dda tan i'r safle gau. |
| BCLM: Forging Ahead – creating a world-class visitor attraction in the Black Country | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Amgueddfa Fyw y Black Country | 22,960,000 | 400,000 (datblygu) Ebrill 2017 9,400,00 (cyflwyno) Mawrth 2019 | Cyflwyno 2 | Bydd y prosiect yn ehangu ac yn gwella'r profiad ymwelwyr, trwy greu datblygiad newydd o hanes y 1940au–60au a mynedfa ymwelwyr newydd. Yn amodol ar y cyfyngiadau COVID-19, mae gwaith i fod i ddechrau yn haf 2020.Mae'r amgueddfa ar gau ar hyn o bryd gyda'r mwyafrif o'r staff ar ffyrlo, felly bydd oedi i'r rhaglen a bydd pwysau o ran cost yn codi. |
| Brooklands Aircraft Factory and Race Track Revival | De-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Brooklands | 7,865,021 | 286,500 (datblygu) Ionawr 2015 5,181,800 (cyflwyno) Mehefin 2017 | Cyflwyno 98 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau, ond oherwydd oedi o ganlyniad i COVID-19, ni fydd y prosiect yn dod i ben erbyn mis Gorffennaf 2020 fel a gynlluniwyd. |
| Buxton Crescent & Spa | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Ardal High Peak | 33,180,338 | 23,853,000 (cyflwyno) Gorffennaf 2006 | Cyflwyno 97 | Dyfarnwyd cynnydd o £11,320,000 yn y grant cyflwyno ym mis Tachwedd 2014. Mae'r Ystafell Bwmpio wedi'i chwblhau (yn amodol ar heriau gwresogi a lleithder) ac fe agorodd i'r cyhoedd fel Canolfan Croeso'r Dref ym mis Mawrth 2019. Cyrhaeddodd y gwaith ar y gwesty y cam Cwblhau Ymarferol ym mis Chwefror 2020. Mae'r gwaith sydd eto i'w wneud yn symud ymlaen ar rediad gostyngol oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Y dyddiad agor oedd mis Mehefin 2020 ond mae hynny'n ansicr bellach o ganlyniad i'r cyfnod clo presennol. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Courtauld Connects | Llundain | Sefydliad Celf Courtauld | 34,354,940 | 650,000 (datblygu) Ebrill 2016 8,850,000 (cyflwyno) Mawrth 2018 | Cyflwyno 17 | Mae'r prosiect yn y cam adeiladu a disgwylir cwblhau ymarferol erbyn diwedd 2020, ond disgwylir oedi o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. Ar hyn o bryd disgwylir iddo agor yng ngwanwyn 2021 ac mae gweithgareddau'n mynd rhagddo, ond mae'r amserlen wedi newid o ganlyniad i COVID-19. |
| Creu Hanes – Making History | Cymru | Amgueddfa Cymru – National Museum Wales | 26,589,054 | 450,000 (datblygu) Chwefror 2010 12,547,300 (cyflwyno) Tachwedd 2016 | Cyflwyno 90 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi cael ei gwblhau at safon uchel iawn. Mae niferoedd ymwelwyr a chynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithgareddau'n parhau i ragori ar dargedau ac mae'r prosiect wedi cael ei estyn i ganiatáu gwerthuso llawn a rhannu dysgu. Ar gau ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. |
| Derby Silk Mill – Museum of Making | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Amgueddfeydd Derby | 15,480,200 | 817,300 (datblygu) Ebrill 2015 8,570,400 (cyflwyno) Medi 2017 | Cyflwyno 88 | Mae dull gweithio ar y cyd a phartneriaeth y prosiect rhwng y cleient, y tîm dylunio a'r contractwyr wedi ildio buddiannau ac arbedion ariannol sylweddol. Ariannwyd y prosiect yn llawn ac roedd y gwaith 90% wedi'i gwblhau pan orfodwyd iddo stopio gan y cyfnod clo COVID-19. Mae'r lansiad meddal wedi cael ei ail-amserlennu ar gyfer mis Chwefror 2021. Mae gweithgareddau'r prosiect yn parhau mewn fformat digidol. |
| Ditherington Flax Mill, Maltings International Heritage site at the heart of the community | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Historic England | 30,382,488 | 465,300 (datblygu) Mai 2012 20,717,500 (cyflwyno) Gorffennaf 2017 | Cyflwyno 47 | Mae'r gwaith atgyweirio a chadwraeth ar y brif felin wedi'i gwblhau. Roedd cam 2 a 3 y gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo'n dda ac roeddent i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Ebrill 2020. Mae'r gwaith bellach wedi stopio oherwydd COVID-19. Ers hynny mae'r contractwyr wedi dychwelyd. Mae tîm y prosiect yn dal i weithio ar ddatblygu'r safle ehangach ac mae'r cynllun busnes yn parhau i wneud cynnydd. |
| First Light at Jodrell Bank | Gogledd-orllewin Lloegr | Prifysgol Manceinion | 19,841,749 | 784,800 (datblygu) Mai 2015 11,362,400 (cyflwyno) Mawrth 2018 | Cyflwyno 9 | Dechreuodd y cyflwyniad cyfalaf ym mis Ionawr 2020 ac mae'r gwaith yn symud yn ei flaen yn dda. Mae'r rhaglen addysg a gwirfoddoli wedi cael ei gohirio oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 ac mae'r safle ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Disgwylir iddo agor ym mis Medi 2021 bellach. Mae'r prosiect yn bwriadu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023. |
| First World War Centenary Cultural Programme | Llundain | Yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol | 37,822,583 | 10,000,000 (cyflwyno) Tachwedd 2015 | Cyflwyno 100 | Cynhaliwyd cynhadledd derfynol The Future is Now ym mis Ebrill 2019 ar yr un pryd â chyhoeddi'r adroddiad gwerthuso. Neilltuodd 14–18 NOW beth o'i gyllid sy'n weddill i'w bartneriaid cyd-gomisiynu er mwyn i'r gweithiau celf barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Cafodd y rhaglen 14–18 NOW ei dirwyn i ben ym mis Tachwedd 2019. Mae'r gweithgarwch etifeddol wedi cael ei drosglwyddo i'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol. |
| Gunnersbury Park Museum Regeneration | Llundain | Bwrdeistref Llundain Ealing | 14,163,430 | 386,400 (datblygu) Gorffennaf 2012 4,805,000 (cyflwyno) Rhagfyr 2017 | Cyflwyno 92 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau ond mae'r amgueddfa ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. |
| Hartlebury Castle | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Gadwedigaeth Castell Hartlebury | 7,239,665 | 413,700 (datblygu) Ebrill 2013 4,975,100 (cyflwyno) Hydref 2014 | Cyflwyno 97 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau ac fe agorodd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglen gweithgareddau ac addysg wedi bod yn gwneud cynnydd da. Ymunodd Cyfarwyddwr newydd yn 2019 i reoli'r Castell a datblygu ei botensial o ran incwm masnachol er cynaladwyedd. Mae'r safle ar gau ar hyn o bryd oherwydd COVID-19 a disgwylir cais i'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth. |
| HMS Caroline, Belfast | Gogledd Iwerddon | Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol | 17,800,732 | 845,600 (datblygu) Ebrill 2013 14,240,500 (cyflwyno) Gorffennaf 2016 | Cyflwyno 83 | Mae'r holl waith cyfalaf wedi'i gwblhau a lansiwyd y Tŷ Pwmpio'n ffurfiol ym mis Ebrill 2018. Mae'r gweithgareddau'n mynd rhagddo gydag ymgysylltiad cymunedol da. Mae HMS Caroline ar gau oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hull: Yorkshire's Maritime City | Swydd Efrog a'r Humber | Cyngor Dinas Hull | 28,865,200 | 1,368,400 (datblygu) Mawrth 2017 14,999,900 (cyflwyno) Hydref 2019 | Cyflwyno 0 | Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol ym mis Tachwedd 2019 ac mae tîm y prosiect yn gweithio tuag at ganiatâd i ddechrau, yn ogystal â chaffael contractwyr. Mae rhai o staff y prosiect wedi cael eu hailaseinio i gefnogi'r ymateb corfforaethol brys i COVID-19. |
| Inspired by Knole | De-ddwyrain Lloegr | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 24,181,947 | 7,750,000 (cyflwyno) Gorffennaf 2013 | Wedi'i gwblhau 100 | Cwblhawyd y prosiect ym mis Awst 2019. |
| Inspiring People: Transforming Our National Portrait Gallery | Llundain | Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol | 33,581,972 | 900,000 (datblygu) Ebrill 2017 8,500,000 (cyflwyno) Medi 2019 | Cyflwyno 1 | Daethpwyd â dyddiad cau'r oriel ymlaen o fis Gorffennaf 2020 i fis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19. Disgwylir i'r gwaith cyfalaf ddechrau yn hydref 2020. Mae'r gweithgareddau'n mynd rhagddo ac mae'r amserlen wedi newid oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. |
| Kings and Scribes – The Birth of a Nation | De-ddwyrain Lloegr | Cadeirlan Caer-wynt | 15,339,280 | 475,500 (datblygu) Ebrill 2012 11,017,400 (cyflwyno) Tachwedd 2015 | Wedi'i gwblhau 100 | Cwblhawyd y prosiect ym mis Tachwedd 2019. |
| Kresen Kernow: A home for Cornwall's archives | De-orllewin Lloegr | Cyngor Cernyw | 18,506,591 | 386,800 (datblygu) Ebrill 2013 11,786,500 (cyflwyno) Gorffennaf 2015 | Cyflwyno 92 | Agorodd yr adeilad ym mis Tachwedd 2019. Roedd cyflwyniad llwyddiannus iawn o weithgareddau ac ymgysylltu'n mynd rhagddo tan ddiwedd mis Mawrth 2020 pan gaeodd y safle a'r rhaglen gweithgareddau cyhoeddus oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Mae'r catalog, yr wybodaeth a'r arddangosfeydd ar-lein ar gael o hyd trwy gyfryngau cymdeithasol. |
| Lincoln Castle Revealed | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Swydd Lincoln | 19,982,405 | 227,640 (datblygu) Mawrth 2019 12,000,000 (cyflwyno) Mawrth 2012 | Wedi'i gwblhau 98 | Mae'r prosiect wedi cael ei gwblhau at safon uchel, a gwnaed y taliad terfynol ym mis Mawrth 2020. Mae'r safle ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. |
| Lincoln Cathedral Connected | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cadeirlan Lincoln | 15,020,165 | 909,700 (datblygu) Mehefin 2015 11,456,100 (cyflwyno) Mawrth 2017 | Cyflwyno 71 | Roedd y gwaith cyfalaf yn symud ymlaen tuag at y cam cwblhau ym mis Mai 2020, ond mae'r gwaith bellach wedi stopio o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19, cadw pellter cymdeithasol a chau'r Gadeirlan. Yn unol â hynny, mae agor canolfan ymwelwyr yr Hen Ddeondy yn haf 2020 wedi'i ohirio hefyd. |
| Medicine Galleries Project | Llundain | Yr Amgueddfa Wyddoniaeth | 21,585,581 | 400,000 (datblygu) Ebrill 2015 7,600,000 (cyflwyno) Medi 2016 | Cyflwyno 63 | Agorodd yr orielau ym mis Tachwedd 2019 ond maent bellach ar gau oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. |
| Bywyd Newydd i'r Hen Goleg New Life for Old College | Cymru | Prifysgol Aberystwyth (Yr Hen Goleg) | 27,619,895 | 849,500 (datblygu) Ebrill 2017 9,732,300 (cyflwyno) Rhagfyr 2019 | Cyflwyno 0 | Nid yw'r gwaith cyfalaf wedi dechrau eto. Mae COVID-19 yn debygol o achosi peth oedi ond mae'r gwaith cynllunio'n parhau. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pont Gludo Casnewydd – Atgyweirio, Adfer a Dehongli | Cymru | Cyngor Dinas Casnewydd | 13,206,900 | 1,052,800 (datblygu) Ebrill 2018 9,708,400 (cyflwyno) | Datblygu 43 | Mae estyniad ar gyfer y cam datblygu wedi'i roi ac mae ymgynghorydd cefnogaeth ychwanegol wedi'i ddarparu. Mae costau'r prosiect wedi codi ynghyd â'r gofyniad cyllid cyfatebol ychwanegol. |
| Norwich Castle: Gateway to Medieval England | Dwyrain Lloegr | Cyngor Dinas Norfolk | 13,344,289 | 462,400 (datblygu) Ebrill 2016 8,756,800 (cyflwyno) Medi 2018 | Cyflwyno 6 | Rhoddwyd caniatâd i ddechrau ym mis Ionawr 2019. Mae penodi'r prif gontractwr bellach wedi'i oedi o ganlyniad i effaith COVID-19. Mae'r gwaith dylunio arall yn parhau. |
| Plymouth History Centre: Plymouth's role in History and History's role in Plymouth and the South West | De-orllewin Lloegr | Cyngor Dinas Plymouth | 33,326,900 | 940,300 (datblygu) Ebrill 2014 14,833,200 (cyflwyno) Gorffennaf 2016 | Cyflwyno 90 | Mae'r prosiect yn symud yn ei flaen yn dda gyda chyllid ychwanegol wedi'i sicrhau gan y Cyngor ac Achrediad wedi'i sicrhau ar gyfer y Swyddfa Gofnodion ('The Box'). Mae'r gwaith cyfalaf bron wedi'i gwblhau gyda throsglwyddiad y gofodau arddangosfa i gael eu gosod allan yn digwydd dros y misoedd nesaf. Mae'r dyddiad agor a gynlluniwyd ar gyfer mis Mai 2020 wedi cael ei ohirio oherwydd COVID-19 ac fe'i disgwylir bellach ym mis Medi 2020. |
| Remaking Beamish | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Beamish | 17,884,275 | 603,800 (datblygu) Gorffennaf 2014 10,891,200 (cyflwyno) Hydref 2016 | Cyflwyno 34 | Mae nifer o elfennau/adeiladau bellach wedi cael eu cwblhau ac yn weithredol. Mae Spains Field Farm hefyd wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac roedd gwaith ar Deras Stryd Flaen y 1950au, Tai'r Heddlu a'r Cartref Hen Lowyr wedi dechrau ond wedi stopio oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Roedd yr holl weithgarwch dysgu a chyfranogiad yn symud yn ei flaen yn dda, fodd bynnag mae'r safle Beamish cyfan ar gau ar hyn o bryd o ganlyniad i COVID-19. |
| Revealing, celebrating and exploring the Heritage of the Royal Academy of Arts | Llundain | Academi Frenhinol y Celfyddydau | 31,138,011 | 458,700 (datblygu) Ebrill 2012 12,274,500 (cyflwyno) Medi 2013 | Wedi'i gwblhau 100 | Cwblhawyd y prosiect ym mis Awst 2019. |
| Revisioning Nottingham Castle – 1,000 Years of History | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Dinas Nottingham | 29,358,400 | 599,500 (datblygu) Ebrill 2014 13,883,400 (cyflwyno) Rhagfyr 2016 | Cyflwyno 56 | Mae'r gwaith archeolegol wedi cael ei gwblhau. Mae adeiladu'r ganolfan ymwelwyr newydd a'r Palas Dugaidd mewn cam datblygedig, ac mae'r elfennau gosod dehongli a chlyweled yn cael eu datblygu. Mae recriwtio staff cyflwyno bron wedi'i gwblhau. Disgwylir cwblhau ymarferol a throsglwyddo dilynol i'r Ymddiriedolaeth ym mis Hydref 2020 a bydd yn agor ym mis Chwefror 2021. Mae'r prif gontractwr yn dal i weithio ar y safle, ond mae rhai is-gontractwyr wedi stopio gwaith oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 felly bydd oedi i'r rhaglen. |
| Silverstone Heritage Experience and Collections and Research Centre | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Silverstone Heritage Ltd | 21,599,651 | 446,000 (datblygu) Ebrill 2013 9,964,500 (cyflwyno) Ionawr 2017 £1.8m dros ddau fenthyciad (£1.3m yn mis Gorffennaf 2019 a £500,000 ym mis Rhagfyr 2019) | Cyflwyno 99 | Mae'r gwaith cyfalaf bellach wedi'i gwblhau ac agorwyd y Profiad yn ffurfiol gan Ddug Sussex a Lewis Hamilton ym mis Mawrth 2020. Mae'r safle ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Mae'r cyfnod clo wedi creu risg ariannol trwy incwm a gollir, a disgwylir i Silverstone Heritage Ltd ymgeisio i'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth am gefnogaeth tymor byr. |
| Stroudwater Navigation Connected: canal, archives, wildlife regenerating cultural and natural heritage for everyone | De-orllewin Lloegr | Cyngor Ardal Stroud | 23,449,100 | 842,800 (datblygu) Ebrill 2018 9,799,000 (cyflwyno) | Datblygu 57 | Mae'r prosiect yn cynnwys prynu ac adfer rhan o'r gamlas sydd wedi'i hadwaen fel 'the missing mile' Mae'r prosiect mewn cam cynllunio cynnar. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tees-Swale: naturally connected | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Partneriaeth AoHNE North Pennines | 8,640,266 | 414,200 (datblygu) Mai 2018 5,721,700 (cyflwyno) | Datblygu 42 | Symudodd y cam datblygu ymlaen yn unol â'r rhaglen a chyflwynwyd cais rownd dau ym mis Ebrill 2020 i dderbyn penderfyniad ym mis Mehefin, gan gynnwys Asesiad o Effaith COVID-19 ar y Prosiect. |
| The BPMA New Centre Project at Mount Pleasant | Llundain | Ymddiriedolaeth Treftadaeth y Post | 22,064,557 | 250,000 (datblygu) Hydref 2012 5,229,300 (cyflwyno) Rhagfyr 2015 | Wedi'i gwblhau 100 | Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal cyd-drafodaethau gyda'r Post Brenhinol a Swyddfa'r Post ynglŷn â benthyciadau a threfniadau les dros ben, fodd bynnag mae'r amgueddfa ar gau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 ac mae'r holl gyd-drafodaethau wedi'u gohirio hyd y gellir rhagweld. |
| The Burrell Collection Refurbishment Project | Yr Alban | Cyngor Dinas Glasgow | 55,674,083 | 1,000,000 (datblygu) Mai 2015 14,000,000 (cyflwyno) Hydref 2017 | Cyflwyno 36 | Bydd effaith COVID-19 yn achosi oedi i waith adeiladu sydd i fod i gael ei gwblhau yr haf hwn, a bydd effaith ddilynol ar waith yr arddangosfa a'r dyddiad cwblhau. Mae'r dyddiad agor yng ngwanwyn 2021 yn awr yn annhebygol o gael ei gyflawni. Mae'r gwaith datblygu gweithgareddau'n canolbwyntio ar baratoi rhaglenni sydd i'w cyflwyno ar ôl agor. |
| The Canterbury Journey | De-ddwyrain Lloegr | Cadeirlan Caergaint | 23,150,153 | 930,400 (datblygu) Ebrill 2014 12,849,500 (cyflwyno) Medi 2016 | Cyflwyno 83 | Mae'r prosiect wedi cyrraedd y pwynt canol, gyda chynnydd da ar gyfalaf a gweithgareddau. Bydd y Ganolfan Groesawu newydd yn agor yn 2020. Mae oedi i'r gwaith cyfalaf ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Mae gweithgareddau, gan gynnwys allgymorth cymunedol, gwaith gwirfoddoli gydag ysgolion a mynediad gwell i gasgliadau'r Gadeirlan yn cael eu cyflwyno, gyda staff y prosiect yn eu swyddi a phrentisiaid wedi'u penodi, er hynny mae'r mwyafrif o staff ar ffyrlo ar hyn o bryd. |
| The Citizens Theatre redevelopment | Yr Alban | Citizens Theatre | 18,030,148 | 500,000 (datblygu) Mehefin 2014 4,795,000 (cyflwyno) Rhagfyr 2017 | Cyflwyno 0 | Dechreuodd gwaith cam dau ar y theatr ym mis Ionawr 2020 ond mae wedi stopio o ganlyniad i COVID-19. Mae staff y theatr wedi'u rhoi ar ffyrlo, gyda dim ond staff rheoli craidd yn aros. Mae cyd-drafodaethau'n mynd rhagddo gyda'r prif gontractwr ynglŷn â chostau adeiladu cam un a bydd angen cyllid refeniw ar gyfer y theatr yn y tymor byr, oherwydd diffyg incwm. |
| "The Hold" A Suffolk Archives Service for the 21st Century | Dwyrain Lloegr | Cyngor Swydd Suffolk | 19,736,843 | 538,100 (datblygu) Ebrill 2016 10,363,700 (cyflwyno) Mawrth 2018 | Cyflwyno 51 | Roedd gwaith adeiladu ar adeilad archifau newydd ar Lannau Ipswich i fod i gael eu cwblhau ym mis Mai 2020 ac i agor yn yr haf, ond achosodd COVID-19 i'r gwaith adeiladu stopio am tua chwe wythnos. Mae wedi ailddechrau nawr a disgwylir cwblhau ymarferol ym mis Gorffennaf 2020, ac agor tua diwedd yr haf. Mae'r gwaith gweithgareddau wedi'i stopio ar hyn o bryd. |
| The North's greatest 'Cathedral of Commerce' Rochdale Town Hall: from Co-operation to Commonwealth | Gogledd-orllewin Lloegr | Cyngor Bwrdeistref Rochdale | 14,620,178 | 688,700 (datblygu) Mai 2018 8,256,700 (cyflwyno) | Datblygu 59 | Mae'r cam datblygu bron wedi'i gwblhau. Mae'r cyflwyniad rownd dau wedi'i amserlennu ar gyfer diwedd mis Mai 2020 gyda phenderfyniad ar y grant ym mis Medi. Mae costau'r prosiect wedi codi ac mae'r Cyngor yn tanysgrifennu cyllid partneriaeth. Ni ddisgwylir caniatâd i ddechrau cyflwyno cyn mis Tachwedd 2020. |
| The Piece Hall – Halifax Heritage | Swydd Efrog a'r Humber | Cyngor Calderdale | 10,770,888 | 239,700 (datblygu) Chwefror 2010 7,000,000 (cyflwyno) Gorffennaf 2012 | Cyflwyno 95 | Mae'r Piece Hall wedi rhagori 56% ar ei dargedau ar gyfer ymwelwyr. Mae'r rhaglen weithgareddau yn parhau i gael ei chyflwyno'n dda. Mae cryn dipyn o fuddsoddi ac adfywio wedi digwydd o gwmpas y Piece Hall ar sail ein buddsoddiad. Ym mis Mawrth 2020, dyfarnwyd grant datblygu i Ymddiriedolaeth Piece Hall i gynnal y momentwm a thwf cyflym hwn trwy adeiladu gallu a chydnerthedd o fewn y tîm. Mae'r safle ar gau ar hyn o bryd a does dim incwm yn cael ei dderbyn oherwydd COVID-19. |
| The Pump Room Gardens | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Bwrdeistref High Peak | 33,180,338 | 23,853,000 (cyflwyno) Gorffennaf 2006 | Cyflwyno 97 | Mae'r Ystafell Bwmpio wedi'i chwblhau ac fe agorodd i'r cyhoedd fel Canolfan Croeso'r Dref ym mis Mawrth 2019. Cyrhaeddodd y gwaith ar y gwesty y cam cwblhau ymarferol ym mis Chwefror 2020. Mae'r gwaith sydd eto i'w wneud yn symud ymlaen ar rediad gostyngol oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Y dyddiad agor oedd mis Mehefin 2020 ond mae hynny'n ansicr bellach o ganlyniad i'r cyfnod clo. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The Renewal of Pitzhanger Manor | Llundain | Cyngor Ealing | 11,224,399 | 275,200 (datblygu) Mai 2014 5,078,600 (cyflwyno) Mawrth 2017 | Cyflwyno 97 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi cael ei gwblhau ac mae'r gweithgareddau sy'n weddill yn cael eu hailystyried/ailamserlennu gan fod y Tŷ a'r Oriel ar gau ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. |
| The Scottish National Memorial to David Livingstone Trust | Yr Alban | Man Geni David Livingstone | 7,062,646 | 334,200 (datblygu) Mehefin 2015 4,780,900 (cyflwyno) Mawrth 2017 | Cyflwyno 62 | Dyfarnwyd cynnydd yn y grant ym mis Tachwedd 2019 ar gyfer cynnydd yn y gost o ganlyniad i broblemau nas rhagwelwyd gyda sylwedd yr adeilad. Er gwaethaf hynny, mae'r prosiect yn symud yn ei flaen yn dda, yn enwedig y gweithgareddau a'r dehongli. Cynlluniwyd i agor ym mis Medi 2020, fodd bynnag mae COVID-19 wedi arwain at gau'r safle adeiladu, a'r dyddiad agor tebygol yn awr fydd gwanwyn 2021. |
| The Sill: Unspoilt Landscapes, Inspiring People | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland | 13,593,300 | 399,200 (datblygu) Ebrill 2012 7,748,000 (cyflwyno) Ionawr 2015 | Cyflwyno 95 | Agorodd yr adeilad ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'r holl waith cyfalaf a dehongli wedi cael ei gwblhau. Mae'r prosiect hwn wedi derbyn nifer o ddyfarniadau. Roedd elfennau terfynol y rhaglen weithgareddau'n cael eu cyflwyno ar gyfer cwblhau'r prosiect erbyn diwedd mis Ebrill 2020, fodd bynnag mae'r safle bellach ar gau a'r gweithgareddau terfynol wedi'u gohirio o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. |
| The Temperate House Project | Llundain | Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Kew | 34,250,148 | 890,900 (datblygu) Ebrill 2011 15,650,600 (cyflwyno) Gorffennaf 2014 | Cyflwyno 90 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau a'r gweithgareddau'n mynd rhagddo, er y mae'n bosib y cânt eu gohirio o ganlyniad i'r cyfnod clo ac effaith COVID-19. |
| Tomorrow's Museum for Dorset: Re-Imagining Dorset County Museum | De-orllewin Lloegr | Cymdeithas Hanes Naturiol ac Archeolegol Dorset | 15,409,625 | 483,900 (datblygu) Mai 2015 11,349,200 (cyflwyno) Hydref 2017 | Cyflwyno 49 | Mae'r gwaith cyfalaf oddeutu ar ei hanner ac mae'r contractwyr ar y safle o hyd. Mae'r amgueddfa ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd a disgwylir y bydd oedi wrth ailagor o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19. |
| Unlocking the Geffrye | Llundain | Ymddiriedolaeth Amgueddfa Geffrye | 17,630,233 | 425,300 (datblygu) Ebrill 2015 11,941,900 (cyflwyno) Mawrth 2017 | Cyflwyno 61 | Mae'r gwaith cyfalaf yn nesáu at gael ei gwblhau ac ar hyn o bryd disgwylir dyddiad agor ym mis Tachwedd 2020. Mae'r oedi oherwydd y cyfyngiadau COVID-19. Mae'r gweithgareddau'n mynd rhagddo, ond wedi'u lleihau a'u gohirio oherwydd y cyfyngiadau. |
| Unlocking the Severn for People and Wildlife | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd | 18,889,350 | 233,100 (datblygu) Ebrill 2016 10,577,200 (cyflwyno) Gorffennaf 2018 | Cyflwyno 27 | Cymeradwywyd caniatâd i ddechrau ym mis Tachwedd 2018. Dechreuwyd y gwaith adeiladu ar gored un a dau ond oherwydd llifogydd cyson, ataliwyd y gwaith tan fis Chwefror 2020. Mae ffordd fynediad i gored tri wedi'i sefydlu ac mae pyst sylfaen wedi'u gosod er mwyn i'r gwaith ddechrau ym mis Mai. Mae pris y contractwr wedi'i sicrhau ar gyfer cored pedwar, erbyn hyn mae oedi i'r rhaglen gwaith a gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19. |
| Unlocking the UK's Sound Heritage | Llundain | Y Llyfrgell Brydeinig | 18,847,834 | 215,900 (datblygu) Ebrill 2015 9,353,000 (cyflwyno) Mawrth 2017 | Cyflwyno 31 | Mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda ac roedd cynnydd yn dda hyd at yr argyfwng COVID-19. Mae'r mwyafrif o gostau'r prosiect ar gyfer staff, mae tua 70 wedi'u cyflogi, ac oherwydd y cyfarpar angenrheidiol ni allant weithio o gartref. Bu rhai ymgeisiau i drosglwyddo tasgau gyda llwyddiant cyfyngedig. Bydd COVID-19 yn effeithio ar yr allbynnau terfynol. |
| V&A at Dundee | Yr Alban | Adran Datblygu'r Ddinas Cyngor Dinas Dundee | 84,358,156 | 200,000 (datblygu) Ebrill 2012 13,900,000 (cyflwyno) Ionawr 2015 | Cyflwyno 90 | Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau a gwnaed y taliad terfynol ym mis Ebrill 2020. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Gwlad neu ardal | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu | Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2020 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Windermere Steamboat Museum | Gogledd-orllewin Lloegr | Lakeland Arts | 12,675,245 | 494,000 (datblygu) Ebrill 2011<br>12,076,400 (cyflwyno) Gorffennaf 2015 | Cyflwyno 100 | Mae cwblhau ymarferol bellach wedi'i gyflawni. Agorodd yr amgueddfa i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2019. Mae Lakeland Arts bellach yn datblygu gweledigaeth a chynlluniau ariannol a strategol newydd. Dyfarnwyd grant Treftadaeth Gydnerth o £229,000 iddynt ym mis Medi 2018 i hwyluso trosglwyddo i weithrediad llawn. Mae'r amgueddfa ar gau ar hyn o bryd oherwydd COVID-19 ac mae 80% o'r staff ar draws y sefydliad ar ffyrlo. |

CCS0620776428
978-1-5286-2054-3